Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy
Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 25/2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

# Adroddiad Terfynol



**Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:**

**Adroddiad Terfynol**

**Chris Taylor[1], Mirain Rhys[1], Sam Waldron[1], Rhys Davies[1], Sally Power[1], Trisha Maynard[2], Laurence Moore[1], David Blackaby[3] ac Ian Plewis[4]**

([1]Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd)

([2]Prifysgol Canterbury Christ Church)

([3]Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Abertawe)

([4]Prifysgol Manceinion)

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Launa Anderson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 9274

E-bost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 14 Mai 2015

ISBN: 978-1-4734-3606-0

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni odir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tudalen gynnwys


Rhestr Acronymau ..... i

Rhestr Termau Allweddol ..... ii

Diolchiadau ..... iv

CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 1

1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiad ..... 10

2 Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ..... 26

3 Ymarfer y Cyfnod Sylfaen ..... 50

4 Effaith y Cyfnod Sylfaen ..... 75

5 Gwerthusiad Economaidd o'r Cyfnod Sylfaen ..... 99

6 Casgliadau ac Argymhellion ..... 113

Cyfeiriadau ..... 128

Atodiad A. Adroddiadau Gwerthuso a Chrynodebau ..... 131

Atodiad B. Deunyddiau Hyfforddiant a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ..... 133

Atodiad C. Portreadau Enghreifftiol o'r Cyfnod Sylfaen ..... 136

## Mynegai Ffigurau

Ffigur 1: Trosolwg o'r Cynllun Dilyniannol ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen ........................................................................................................15
Ffigur 2: Cynllun a Phrif Elfennau'r Gwerthusiad ..........................................16
Ffigur 3: Model Rhesymeg Polisi (Fersiwn 2) ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen .........................................................................................................25
Ffigur 4. Cyllideb Hyfforddiant a Chymorth y Cyfnod Sylfaen, 2004-05 i 2013-14 ..............................................................................................................36
Ffigur 5. Dosbarthiad y Gyllideb Hyfforddiant a Chymorth, 2008-09 i 2013-14 ........................................................................................................37
Ffigur 6. Bodlonrwydd ar Hyfforddiant a Chymorth yn ôl Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion.................................................................38
Ffigur 7. Bodlonrwydd ar Hyfforddiant a Chymorth yn ôl Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Lleoliadau Nas Cynhelir a Ariennir ..........................38
Ffigur 8. Cyllideb Cyfalaf y Cyfnod Sylfaen, 2004-05 i 2011-12 .....................43
Ffigur 9. Ymarfer y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion, yn ôl Grŵp Blwyddyn....55
Ffigur 10. Amlder Meysydd Dysgu a Arsylwyd, yn ôl Grŵp Blwyddyn ...........69
Ffigur 11. Defnyddio Addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn y Bore a'r Prynhawn, wrth Grŵp Flwyddyn ........................................................................................73
Ffigur 12. Effaith Ganfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar Ymddygiad, Lles ac Agweddau at Ddysgu ......................................................................................76
Ffigur 13. Y Berthynas Rhwng Addysgeg y Cyfnod Sylfaen a Lles Plant.......77
Ffigur 14. Y Berthynas Rhwng Addysgeg y Cyfnod Sylfaen a Chyfranogiad Plant...............................................................................................................77
Ffigur 15. Effaith Ganfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar Lythrennedd a Rhifedd ..87
Ffigur 16. Dyraniadau Refeniw'r Cyfnod Sylfaen (cyfanswm a fesul disgybl), 2004-05 i 2011-12/2014-15.........................................................................102

## Mynegai Tablau

Tabl 1. Adroddiadau Gwerthuso a Chrynodebau (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru)......13
Tabl 2: Crynodeb o Dechnegau Casglu Data a Chyfraddau Ymateb Cysylltiedig......19
Tabl 3. Cymarebau Oedolyn:Plant Cyfartalog mewn Ysgolion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (2012) ac yng Nghyfnod Allweddol 1 (2005), yn ôl Grŵp Blwyddyn......32
Tabl 4. Canran yr Ysgolion yr Amcangyfrifir eu bod yn Bodloni'r Cymarebau Argymelledig (2012)......33
Tabl 5. Gwahaniaethau Canfyddedig mewn Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen Ymhlith Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen (o gymharu â Chwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1)......51
Tabl 6. Canfyddiadau o'r Cwricwlwm (gan Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion)......53
Tabl 7. Amcangyfrif y Tebygolrwydd o Gyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS), 2011/12......90
Tabl 8. Effaith Ganfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar Wahanol Grwpiau o Ddisgyblion (gan Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion)...95
Tabl 9. Crynodeb o Grantiau Addysg yng Nghymru......103
Tabl 10. Effaith Ragweledig y Cyfnod Sylfaen ar Raddau TGAU (gan ddefnyddio Gwahaniaethau wedi'u Haddasu)......104

## Mynegai Blychau

Blwch 1. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Defnydd Creadigol o Gymarebau Oedolyn:Plant ........................................................................ 34
Blwch 2. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Cydbwysedd Gweithgareddau Parhaus, Gweithgareddau Gwell a Gweithgareddau â Ffocws ........................................................................ 56
Blwch 3. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Cynnwys Disgyblion wrth Gynllunio Gwersi ........................................................................ 59
Blwch 4. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Ymgysylltu â Rhieni 61
Blwch 5. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Parthau Dysgu ........ 63
Blwch 6. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Defnydd Effeithiol o'r Awyr Agored ........................................................................ 65
Blwch 7. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu'r Gymraeg 67

## Rhestr Acronymau

| | |
|---|---|
| 3E | Darbodaeth, effeithlondeb ac effeithiolrwydd |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| ACM | Astudiaeth Carfan y Mileniwm |
| AU | Addysg Uwch |
| AWFPA | Grŵp Cynghorwyr y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru |
| BERA | Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain |
| CA1 | Cwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1 |
| CA2 | Cwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 |
| CALl | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| CDdGD | Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion |
| CS | Cyfnod Sylfaen |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DCo | Maes Dysgu Datblygiad Corfforol |
| DCr | Maes Dysgu Datblygiad Creadigol |
| DECIPHer | Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd |
| DG | Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg |
| DM | Maes Dysgu Datblygiad Mathemategol |
| DPChLlADd | Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol |
| ESRC | Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol |
| Estyn | Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| GA | Gwerth am arian |
| GDB | Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd |
| ILlCh | Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu |
| SHC | Swyddog Hyfforddiant a Chymorth |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru |
| YGLl | Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth |

## Rhestr Termau Allweddol

| | |
|---|---|
| Gweithredol | Gweithgaredd sy'n caniatáu i'r plentyn weithredu'n gorfforol (h.y. yn hytrach nag eistedd wrth ddesg/ar y llawr) |
| Oedolyn yn bresennol/absennol | Gyda = oedolyn yn agos i'r plentyn/grŵp; Heb = oedolyn heb fod yn agos i'r plentyn/grŵp |
| Asesu | Plentyn yn cael ei asesu gan oedolyn |
| Carped | Roedd y plentyn yn eistedd ar garped |
| Dan Gyfarwyddyd Plentyn/oedolyn | Cyfarwyddwyd y gweithgaredd gan naill ai'r plentyn neu'r oedolyn |
| Dechrau gan y Plentyn/oedolyn | Penderfynwyd ar y gweithgaredd gan naill ai'r plentyn neu'r oedolyn |
| Cyd-greu | Roedd yr oedolyn yn 'cydweithio' â'r plentyn |
| Desg | Roedd y plentyn wrth ddesg |
| Addysgu uniongyrchol | Addysgu gan oedolyn mewn arddull draddodiadol (cyfarwyddol) |
| Ysgolion a lleoliadau Dechrau'n Gynnar | Dyma'r 22 ysgol a'r 22 lleoliad nas cynhelir a ariennir a gyflwynodd y Cyfnod Sylfaen o 2006/07 yn yr ail gam o'r broses o'i gyflwyno. Dewiswyd y rhain gan eu bod mewn ardaloedd Dechrau Deg. |
| Archwilio | Roedd y plentyn yn archwilio/arbrofi |
| Ysgolion a lleoliadau cyflwyno'n derfynol | Dyma'r ysgolion a'r lleoliadau sy'n weddill a gyflwynodd y Cyfnod Sylfaen o 2009/10 nad oeddent yn ymwneud â'r ddau gam cyntaf o'r broses o'i weithredu (a adwaenir fel ysgolion a lleoliadau Peilot a Dechrau'n Gynnar). |
| Uniongyrchol | Profiad uniongyrchol o'r amcan dysgu |
| Dilyn cyfarwyddiadau oedolyn | Roedd y plentyn yn dilyn cyfarwyddiadau oedolyn |
| Cyfranogiad | Cyfeiriwn at gyfranogiad trwy gydol yr adroddiad. Mesurwyd hyn gan ddefnyddio graddfa gyfranogiad Leuven. Mesur o gyfranogiad ffisegol mewn dysgu yw hwn at ei gilydd y gellir ei ddefnyddio wrth arsylwi plant unigol. |
| Modelu aml-lefel | Math o ddadansoddi ystadegol yw hwn sy'n defnyddio data a drefnwyd ar fwy nag un lefel (h.y. data clystyrog). Er enghraifft, gallai'r unedau dadansoddi mewn model aml-lefel gynnwys data ar gyfer disgyblion unigol, yr ysgolion y maent yn mynd iddynt, a'r awdurdodau lleol y mae eu hysgolion yn perthyn iddynt. Yn hollbwysig, mae modelau aml-lefel yn ystyried yr elfennau gweddilliol ar bob lefel yn yr hierarchaeth, gan ganiatáu i'r dadansoddiad |

| | |
|---|---|
| | amcangyfrif effeithiau grŵp sydd wedi'u harsylwi a heb eu harsylwi. |
| Arsylwi | Y plentyn yn cael ei arsylwi gan oedolyn |
| Holi agored/caeëdig | Agored = penagored; Caeëdig = gellid ei ateb mewn un gair/ymadrodd |
| Y tu allan | Roedd y plentyn yn yr awyr agored |
| Lleoliadau 'rhoi popeth o'r neilltu' | Lleoliadau nas cynhelir a ariennir nad oes ganddynt safle parhaol ar gyfer eu hardal addysgu a dysgu, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt roi eu hadnoddau o'r neilltu ar ddiwedd pob sesiwn/diwrnod. |
| Addysgeg | Dull ac ymarfer addysgu |
| Cydweithio â chyfoedion | Roedd y plentyn wedi cydweithio â phlant eraill |
| Ysgolion a lleoliadau peilot | Dyma'r 22 ysgol a'r 22 lleoliad nas cynhelir a ariennir a ddewiswyd i dreialu'r Cyfnod Sylfaen o 2004/05 ymlaen. Roeddent yn ganolog i ddatblygu'r deunyddiau hyfforddiant a chanllawiau diweddarach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| Ymarferol | Profiad ymarferol |
| Myfyrio | Anogwyd y plentyn gan oedolyn i feddwl am (adolygu) yr hyn yr oedd newydd ei wneud |
| Sgaffaldio | Roedd yr oedolyn yn helpu'r plentyn i ddysgu sut i gwblhau'r dasg (annog) |
| Cynllun dilyniannol | Defnyddir hyn mewn gwerthusiadau lle y caiff ymyrraeth ei chyflwyno'n ddilyniannol i gyfranogwyr (naill ai fel unigolion neu glystyrau o unigolion) dros nifer o gyfnodau. Cesglir data ar gyfer pob grŵp newydd o gyfranogwyr wrth iddynt dderbyn yr ymyrraeth ac ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn derbyn yr ymyrraeth (y grwpiau rheoli). I bennu effeithiolrwydd yr ymyrraeth, caiff data o'r grwpiau rheoli ei gymharu â data o'r grwpiau ymyrraeth ar wahanol adegau. |
| Rhyngweithio cyson | Roedd yr oedolyn yn ymestyn meddwl y plentyn trwy drafod (> 4 tro) |
| Lles | Cyfeiriwn at les disgyblion trwy gydol yr adroddiad. Mesurwyd hyn gan ddefnyddio graddfa les Leuven. Mesur o les corfforol yw hwn at ei gilydd y gellir ei ddefnyddio wrth arsylwi plant unigol. |
| Gweithgaredd dosbarth cyfan/grŵp/unigol | Roedd y plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd dosbarth cyfan, grŵp neu unigol. |
| Gweithfan | Roedd y plentyn wrth weithfan (gallai gynnwys defnyddio desg, ond ychwanegwyd at hynny). |

## Diolchiadau

Hoffai'r tîm gwerthuso ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gwerthusiad neu a gyfrannodd ato. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r cannoedd o benaethiaid, ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion ac Arweinwyr y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir a ymatebodd i'n harolwg cenedlaethol, yr holl Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth a Chynghorwyr y Cyfnod Sylfaen mewn Awdurdodau Lleol a gytunodd yn garedig i gael eu cyfweld, a'r amryw randdeiliaid a sefydliadau a gytunodd i gymryd rhan hefyd. Ond rhaid diolch yn arbennig i'r 51 ysgol a lleoliad nas cynhelir a ariennir a wnaeth oll groesawu'r tîm gwerthuso'n gynnes ac yn agored i'w hysgolion, lleoliadau ac ystafelloedd dosbarth. Mawr yw ein dyled i'r holl ymarferwyr a phlant y gwnaethom eu harsylwi a siarad â hwy yn ystod ein hymweliadau. Mae croesawu ymchwilwyr cymharol anghyfarwydd i ystafelloedd dosbarth a lleoliadau yn ymrwymiad mawr, ond mae'n dangos yn glir werthfawrogiad o bwysigrwydd ymchwil yn y maes hwn. Rhaid diolch hefyd i'r cannoedd o ddisgyblion Blwyddyn 2 a gymerodd ran yn ein harolwg disgyblion a'r 1,000 a mwy o rieni a gofalwyr a gwblhaodd ein harolwg rhieni. Hoffai'r tîm gwerthuso ddiolch hefyd i aelodau ei grwpiau cynghori am eu harbenigedd gwerthfawr wrth gefnogi ac arwain y gwerthusiad. Yn olaf, diolchir i Launa Anderson, y rheolwr contract ar gyfer y gwerthusiad yn Llywodraeth Cymru, sydd wedi rheoli'r contract gwerthuso'n ganmoladwy, ond sydd hefyd wedi rhoi mewnbwn gwerthfawr drwy gydol y gwerthusiad.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

### *Cyflwyniad a Nodau'r Adroddiad*

1. Dyma adroddiad terfynol y gwerthusiad annibynnol tair blynedd o'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn yr adroddiad hwn, cyflwynwn brif ganfyddiadau'r gwerthusiad a thrafodwn eu goblygiadau. Mae'r adroddiad yn gorffen gyda 29 argymhelliad.
2. Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru, mewn gosodiadau gynhelir a nas gynhelir. Yn wahanol iawn i'r ymagwedd fwy ffurfiol, seiliedig ar gymhwysedd a oedd yn gysylltiedig â Chyfnod Allweddol 1 blaenorol y Cwricwlwm Cenedlaethol, cafodd ei gynllunio i ddarparu ymagwedd ddatblygiadol, dysgu trwy brofiad, seiliedig ar chwarae at ddysgu ac addysgu. Mae'r polisi wedi'i gyflwyno'n raddol fel yr oedd yn cynnwys yr holl blant 3 i 7 oed yng Nghymru erbyn 2011/12.
3. Ym mis Ebrill 2011, roedd Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, wedi gwahodd tendrau ar gyfer gwerthusiad annibynnol tair blynedd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm amlddisgyblaethol o ymchwilwyr, a arweiniwyd gan yr Athro Chris Taylor o Brifysgol Caerdydd a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal y gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2011.
4. Mae gan y gwerthusiad tair blynedd (2011-2014) bedwar prif nod, fel y'u hamlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei manyleb wreiddiol ar gyfer y tendr ymchwil:
    - gwerthuso pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu ac amlygu ffyrdd y gellir gwella (gwerthuso'r broses);
    - gwerthuso pa effaith y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael hyd yma (gwerthuso'r canlyniad);
    - asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (gwerthusiad economaidd); a

- sefydlu fframwaith gwerthuso ar gyfer olrhain allbynnau a chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (y fframwaith gwerthuso).

5. Mae deunaw adroddiad a chrynodeb ymchwil o'r gwerthusiad wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac maent ar gael ar y wefan ganlynol: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?lang=cy. Mae hyn yn cynnwys dau adroddiad blynyddol ar gyfer 2011/12 (Taylor *et al.* 2013) ac ar gyfer 2012/13 (Taylor *et al.* 2014). Mae'r rhain yn darparu cofnod o gynnydd, gan gynnwys manylion am y cynllun gwerthuso. Mae adroddiadau a chrynodebau eraill yn darparu manylion am yr holl ganfyddiadau o'r gwerthusiad.
6. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwerthusiad. Fe'u trefnir mewn pedair prif bennod: gweithredu'r Cyfnod Sylfaen; ymarfer y Cyfnod Sylfaen; effaith y Cyfnod Sylfaen; a dadansoddiad economaidd o'r Cyfnod Sylfaen.
7. Mae'r bennod olaf yn trafod goblygiadau'r canfyddiadau hyn gydag argymhellion cysylltiedig.

***Methodoleg***

8. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dulliau cymysg ac ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol a gafwyd o gasglu data sylfaenol a data gweinyddol presennol.
9. Mae'r prif gynllun gwerthuso wedi'i drefnu ar ddwy lefel ddaearyddol: ar lefel genedlaethol, ac ar lefel ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir unigol a oedd yn rhan o'r astudiaeth achos.
10. Mae prif nodweddion y cynllun gwerthuso'n cynnwys:
    - dadansoddi cynnwys dogfennau a deunyddiau cyfarwyddyd y Cyfnod Sylfaen;
    - datblygu Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen gysylltiedig;
    - arolwg cenedlaethol o benaethiaid ac ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir neu reolwyr canolfan;
    - dadansoddi data disgyblion cenedlaethol;
    - cyfweliadau ag ystod eang o ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2;

- arsylwi ystafelloedd dosbarth/lleoliadau yn systematig mewn 41 ysgol a ddewiswyd ar hap a 10 lleoliad nas cynhelir a ariennir;
- arolwg rhieni/gofalwyr;
- arolwg disgyblion Blwyddyn 2;
- a thrafodaethau grŵp ffocws gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

11. Mae'r brif ymagwedd ddadansoddol yn dilyn cynllun dilyniannol. Mae hyn yn manteisio ar ddull cyflwyno dilyniannol y Cyfnod Sylfaen ar draws ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl cymharu ysgolion ar wahanol gamau o weithredu'r Cyfnod Sylfaen a chymharu cyflawniadau addysgol disgyblion yn unol â pha un a oeddent yn profi'r Cyfnod Sylfaen ynteu Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

***Canfyddiadau Allweddol***

12. Mae mynd i ysgolion sy'n gwneud mwy o ddefnydd o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o gyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion disgyblion unigol a nodweddion eraill ar lefel ysgol (gan gynnwys mesur effeithiolrwydd blaenorol pob ysgol yng Nghyfnod Allweddol 1).
13. Mewn ysgolion sy'n gwneud mwy o ddefnydd o addysgeg y Cyfnod Sylfaen, gwelir lefelau uwch o gyfranogiad disgyblion a lles disgyblion yn ystod dysgu[1].
14. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o gyflawni Lefel 4 neu uwch yn Saesneg Cyfnod Allweddol 2 (mae hyn wedi'i seilio ar y tair carfan gyntaf o fwy na 1,500 o ddisgyblion mewn ysgolion Peilot sydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 bellach).
15. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig gyda chymhwyster gwell i ddisgyblion sy'n cymwys prydau ysgol am ddim ond nid ydy'r gwerthusiad wedi darganfod tystiolaeth i awgrymu ei fod wedi gwneud trawiad arsylweddol cyn belled a leihau anghydraddoldeb[2] mewn cymhwyster ar ddiwedd Cam Allweddol 2.

---

[1] Yn seiliedig ar ddadansoddiad systematig o ddata disgyblion mewn 41 ysgol astudiaeth achos.
[2] Ymhlith grwpiau o ddisgyblion yn seiliedig ar eu rhyw, ethnigrwydd neu gymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim.

16. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â gwelliannau mewn presenoldeb ysgol cyffredinol[3].

17. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid allweddol a gyfwelwyd ac a holwyd trwy arolygon yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar blant a dysgu (ymddygiad, lles ac agweddau at ddysgu).

18. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn credu bod y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at welliannau mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd.

***Argymhellion***

19. Mae'r gwerthusiad yn canfod bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at welliannau cyffredinol yng nghyfranogiad, lles a chyflawniad addysgol plant. Yn ogystal, gallai'r gwelliannau hyn arwain at hyd yn oed mwy o lwyddiant addysgol wrth i'r plant dyfu.

20. Felly, byddai'r gwerthusiad yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu a gwella'r Cyfnod Sylfaen. Byddai hefyd yn annog pob ysgol a lleoliad nas cynhelir a ariennir i wneud mwy i weithredu addysgeg a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

21. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'r gwerthusiad yn amlinellu 29 argymhelliad allweddol. Mae'r argymhelliadau yma yn perthnasol i nifer o hapddaliwyr, yn cynnwys: Llywodraeth Cymru, Estyn, consortia rhanbarthol, llywodraethau lleol, benaethiaid, rheolwyr gosodiad nas gynhelir, llywodraethwyr ysgol ac ymarferwyr.

Argymhelliad 1: Dylid rhoi gwybod i ymarferwyr a rhanddeiliaid am ganfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn amlygu'r farn gadarnhaol gyffredinol am y Cyfnod Sylfaen ymhlith y rhai hynny sy'n ei weithredu, ond hefyd er mwyn amlygu meysydd i'w gwella neu eu datblygu ymhellach.

Argymhelliad 2: Mae angen arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau pwysigrwydd ymarfer sy'n briodol yn ddatblygiadol ochr yn ochr â chwricwlwm statudol a lefelau cyflawniad disgwyliedig.

[3] Ond nid mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar.

Argymhelliad 3: Mae angen rhoi mwy o wybodaeth i rieni a gofalwyr am rôl asesiadau llythrennedd a rhifedd statudol ym Mlwyddyn 2 y Cyfnod Sylfaen, ochr yn ochr â'r pwyslais ar brofiadau dysgu mwy uniongyrchol, pleserus a datblygiadol briodol i'w plant.

Argymhelliad 4: Mae angen rhoi cyngor ymarferol i ymarferwyr ar sut i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yn arbennig, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar sut y gellir addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ystafelloedd dosbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau addysgeg a sut y gall y gwahanol ddulliau hyn ategu ei gilydd.

Argymhelliad 5: Dylid rhoi sylw penodol (trwy hyfforddiant ac arweiniad i ymarferwyr) ar sut i ddefnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen mewn Blwyddyn 1, ac yn enwedig dosbarthiadau Blwyddyn 2.

Argymhelliad 6: Dylid diwygio modiwlau hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen er mwyn gwella dealltwriaeth ymarferwyr o'r ymagweddau a'r dulliau addysgu sy'n cael eu pwysleisio bellach (efallai'n seiliedig ar ddeuddeg elfen addysgeg hanfodol y Cyfnod Sylfaen a amlygwyd gan y gwerthusiad). Yn arbennig, dylid diwygio modiwlau hyfforddi i sicrhau eu bod:

- yn cynnwys newidiadau diweddar i bolisïau addysg yng Nghymru (gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r pwyslais ar liniaru effaith tlodi ar gyflawniad addysgol trwy ddefnyddio adnodd ychwanegol fel y Grant Amddifadedd Disgyblion);
- yn cynnwys mwy o ddeunyddiau enghreifftiol i ategu dealltwriaeth yn hytrach na dangos enghreifftiau o arfer gorau yn unig; ac
- yn fwy strwythuredig a heriol.

Argymhelliad 7: Mae angen i ddeunyddiau hyfforddi ac arweiniad roi mwy o bwyslais ar: arsylwi ac asesu; defnydd effeithiol o'r awyr agored[4]; cyflwyno darpariaeth well; rolau athrawon ac ymarferwyr ychwanegol; a meysydd cyffredinol yn ymwneud â datblygiad plant.

[4] Yn ystod mis Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ychwanegol i ysgolion a sefydliadau blynyddoedd cynnar i ddatblygu ei ymarfer a darpariad tŷ allan yn y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru 2014a).

Argymhelliad 8: Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y Cyfnod Sylfaen mewn cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a chyrsiau proffesiynol eraill (gan gynnwys cyrsiau lefel Meistr). Dylai hyn gynnwys cwricwlwm ac asesu'r Cyfnod Sylfaen, ond mae angen rhoi sylw penodol i ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Argymhelliad 9: Dylid ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i holl benaethiaid, athrawon ac ymarferwyr ychwanegol y Cyfnod Sylfaen, ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ddilyn modiwlau hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen.

Argymhelliad 10: Dylai ysgolion ac Awdurdodau Lleol wneud mwy i fonitro presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithgareddau hyfforddi. Dylai fod gan ymarferwyr eu cofnodion hyfforddiant a dysgu eu hunain a dylent eu llenwi fel mater o drefn.

Argymhelliad 11: Mae angen gwneud mwy o waith dilynol ar ôl hyfforddiant yn y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, dylai Swyddogion Cymorth Hyfforddiant ymweld ag ymarferwyr yn eu hysgolion fel mater o drefn ar ôl iddynt gymryd rhan mewn modiwlau hyfforddi er mwyn eu cynorthwyo i weithredu'r hyn a ddysgwyd.

Argymhelliad 12: Dylid darparu hyfforddiant penodol i athrawon Cyfnod Allweddol 2 i gynorthwyo â pharhad a dilyniant wrth bontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

Argymhelliad 13: Dylid darparu arweiniad a chymorth arbenigol i uwch staff rheoli mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hefyd, yn enwedig o ran staffio, seilwaith, pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, ac olrhain a monitro.

Argymhelliad 14: Mae angen eglurhad ynghylch cynnydd a datblygiad Fframwaith Asesu a Proffil Cyfnod Sylfaen cysylltiol a Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, ynghyd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi sydd ynghlwm wrth ei weithredu. Bydd angen rhoi cymorth sylweddol i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen i'w helpu i weithredu'r Fframwaith newydd yn eu harfer yn y Cyfnod Sylfaen, ac yna defnyddio'r Fframwaith newydd yn effeithiol.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hwyluso ymchwil bellach i effaith y Cyfnod Sylfaen ar grwpiau penodol o ddisgyblion â

chyflawniad isel. Yn gysylltiedig â hynny, mae angen rhoi mwy o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir er mwyn llywio eu barn a'u gwerthusiadau ynghylch cynnydd disgyblion trwy'r Cyfnod Sylfaen.

Argymhelliad 16: Dylid parhau i ddarparu cyllid er mwyn sicrhau bod pob ysgol a lleoliad nas cynhelir a ariennir yn gallu gwella amgylchedd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Dylid rhoi sylw penodol i sicrhau bod mynediad di-dor rhwng ystafelloedd dosbarth a'r awyr agored (lle y bo'n bosibl) a datblygu mwy o 'barthau dysgu' dan do ac yn yr awyr agored.

Argymhelliad 17: Dylid rhoi cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir i'w cynorthwyo i ailgynllunio a/neu ailstrwythuro eu hystafelloedd dosbarth ac ardaloedd awyr agored. Efallai y bydd hyn yn galw am ddefnyddio ymgynghorwyr sy'n arbenigo ar gynllunio amgylcheddau dysgu.

Argymhelliad 18: Pan fydd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir wedi'u cyfyngu gan y datblygiadau y gallant eu gwneud i adeiladau, dylid caniatáu iddynt ddefnyddio cyllidebau cyfalaf yn fwy hyblyg. Er enghraifft, gallai cyllidebau cyfalaf gael eu defnyddio hefyd i ddarparu cludiant gwell ac amgylcheddau dysgu mwy symudol, ac i sefydlu partneriaethau â sefydliadau eraill a fydd yn annog mwy o ddefnydd o amgylcheddau dysgu mwy amrywiol yn yr awyr agored.

Argymhelliad 19: Dylid annog ymarferwyr i ddefnyddio amrywiaeth o 'barthau dysgu', dan do ac yn yr awyr agored, yn fwy aml. Dylid datblygu deunyddiau enghreifftiol ar y ffordd orau o ddefnyddio'r 'parthau dysgu' hyn fel y gall ymarferwyr gyfeirio atynt.

Argymhelliad 20: Dylid rhoi cyngor penodol i ymarferwyr er mwyn dangos sut y gall pynciau traddodiadol, fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth, gael eu hymgorffori mewn Meysydd Dysgu presennol.

Argymhelliad 21: Dylai'r cymorth ar gyfer cymarebau uwch o oedolion i blant yn y Cyfnod Sylfaen barhau, a dylai'r cymarebau argymelledig fesul Grŵp Blwyddyn sy'n adlewyrchu camau datblygiadol plant ifanc barhau. Fodd bynnag, dylid rhoi annibyniaeth i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir benderfynu sut i ddefnyddio'r ymarferwyr ychwanegol hyn ar draws gweithgareddau dysgu ac ar draws Grwpiau

Blwyddyn. Ond, law yn llaw ag annibyniaeth, dylai fod mwy o dryloywder a monitro er mwyn sicrhau bod cyllid ar gyfer ymarferwyr ychwanegol yn cael ei wario ar ymarferwyr ychwanegol.

Argymhelliad 22: Dylid datblygu enghreifftiau o arfer da sy'n dangos sut y gall cyflwyno Datblygu'r Gymraeg (mewn ysgolion Saesneg) gael ei ymgorffori ar draws amrywiaeth o weithgareddau dysgu ac sy'n defnyddio ystod ehangach o ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Argymhelliad 23: Mae angen arweiniad clir ar y dull mwyaf effeithiol o drochi yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen (yn dibynnu ar y brif iaith addysgu). Mae angen mwy o gydweithredu hefyd rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr o ran sut i nodi a datblygu arfer gorau sy'n cynnwys dull ac elfennau addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

Argymhelliad 24: Dylid rhoi mwy o sylw i rôl rhieni/gofalwyr a theuluoedd wrth ddarparu'r Cyfnod Sylfaen. Byddai enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer ymarferwyr yn fuddiol. Dylid rhoi sylw arbennig i sut y gallai rhieni/gofalwyr a theuluoedd gyfrannu at ddewis a chynllunio gweithgareddau dysgu.

Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir roi mwy o wybodaeth i rieni/gofalwyr yn rheolaidd, a chynnig mwy o gymorth i rieni/gofalwyr a theuluoedd i'w helpu i ddeall egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, sut mae eu plentyn yn datblygu, a sut y gallant gefnogi ei ddysgu gartref.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad proses ddilynol o'r 41 ysgol a'r 10 lleoliad nas cynhelir a ariennir yn yr astudiaeth achos wreiddiol ymhen pum mlynedd (h.y. ar ôl 2019/20).

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ail werthusiad o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio canlyniadau addysgol o ddata gweinyddol cenedlaethol (h.y. Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion) ar ôl 2015/16.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trydydd gwerthusiad o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio canlyniadau addysgol o ddata gweinyddol cenedlaethol (h.y. Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion) ar ôl 2018/19.

Argymhelliad 29: Dylai monitro a mesuriadau parhaus o ansawdd a safonau'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir fod yn gyson ag egwyddorion, dulliau addysgu a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, dylai Estyn ystyried defnyddio'r deuddeg elfen addysgeg wrth iddo arolygu'r Cyfnod Sylfaen.

# 1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiad

1.1 Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru, mewn gosodiadau gynhelir a nas gynhelir. Yn ymddangos yn wahanol iawn i'r ymagwedd fwy ffurfiol, seiliedig ar gymhwysedd wedi'i chysylltu â'r Cam Allweddol 1 blaenorol Cwricwlwm Cenedlaethol, cafodd ei chynllunio i ddarparu dynesfa ddatblygedig, brofiadol, seiliedig ar chwarae i addysgu a dysgu. Gan ddefnyddio tystiolaeth o raglenni da ym maes y blynyddoedd cynnar yn Sgandinafia, Reggio Emilia a Seland Newydd (Te Whãriki), sy'n awgrymu y gall mabwysiadu cwricwlwm rhy ffurfiol ac addysgu ffurfiol helaeth cyn chwech neu saith oed arwain at safonau cyrhaeddiad is yn y tymor hwy, cychwynodd i ddarparu ymagwedd dysgu trwy brofiad, seiliedig ar chwarae at ddysgu ar gyfer plant 3 i 7 oed. Mae'r dull yn pwysleisio canologrwydd y plentyn ac arwyddocâd lles plant, ac mae'n argymell cydbwysedd o weithgareddau a ddechreuir gan y plentyn ac a gyfarwyddir gan yr ymarferydd (neu a ddechreuir gan yr ymarferydd) mewn amgylcheddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored.

1.2 Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys saith Maes Dysgu: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLlADd); Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh); Datblygiad Mathemategol (DM); Datblygu'r Gymraeg (DG) (mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg); Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB); Datblygiad Corfforol (DCo); a Datblygiad Creadigol (DCr).

1.3 Rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith mewn tri cham: y cam Peilot o 22 ysgol a 22 lleoliad nas cynhelir a ariennir yn 2004/05; y cam Dechrau'n Gynnar o 22 ysgol a 22 lleoliad nas cynhelir a ariennir arall yn 2006/07; a'r holl ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir a oedd yn weddill yn ystod y cam Cyflwyno'n Derfynol yn 2009/10.

1.4 Ym mis Ebrill 2011, roedd Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, wedi gwahodd tendrau ar gyfer gwerthusiad annibynnol tair blynedd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm amlddisgyblaethol o ymchwilwyr, a arweiniwyd gan Brifysgol Caerdydd ar y cyd â Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal y gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2011.

1.5 Mae'r tîm ymchwil yn cynnwys arbenigwyr blaenllaw yn eu meysydd perthnasol ac o nifer o wahanol brifysgolion yng Nghymru a Lloegr:

- Yr Athro Chris Taylor (Cyfarwyddwr) (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Yr Athro Trisha Maynard (Cyd-gyfarwyddwr) (Prifysgol Canterbury Christ Church)
- Yr Athro Laurence Moore (Prifysgol Caerdydd a DECIPHer)
- Yr Athro Sally Power (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Yr Athro David Blackaby (Prifysgol Abertawe a WISERD)
- Yr Athro Ian Plewis (Prifysgol Manceinion)
- Mr Rhys Davies (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Dr Sam Waldron (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Dr Mirain Rhys (Prifysgol Caerdydd a WISERD)

1.6 Mae'r gwerthusiad yn defnyddio cynllun dilyniannol i fanteisio ar ddull cyflwyno dilyniannol y Cyfnod Sylfaen ar draws nifer o wahanol ysgolion a lleoliadau ar wahanol gyfnodau. Yn arbennig, mae llawer o'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar gymharu carfanau dilynol o blant sydd wedi bod trwy dair set o leoliadau ysgol ar wahanol gamau o'r broses weithredu: lleoliadau Cam Peilot, lleoliadau Dechrau'n Gynnar a lleoliadau Cyflwyno'n Derfynol. Mae'r gwerthusiad hefyd yn defnyddio ystod o ddulliau er mwyn sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth am gynifer o agweddau ar weithrediad, cyflwyniad ac effeithiau rhaglen y Cyfnod Sylfaen â phosibl.

1.7 Amlinellodd yr adroddiad blynyddol cyntaf (Taylor *et al.* 2013) gynllun a methodoleg y gwerthusiad yn fanwl ac adroddodd ar waith y gwerthusiad yn ystod ei flwyddyn gyntaf, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst 2011 a mis Gorffennaf 2012. Roedd hyn yn cyd-fynd â Cham I y cynllun gwerthuso. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed ac yn amlygu'r canfyddiadau allweddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

1.8 Roedd yr ail adroddiad blynyddol (Taylor *et al.* 2014) yn rhoi diweddariad technegol ar gynllun a methodoleg y gwerthusiad wrth iddo symud ymlaen i Gam II y cynllun gwerthuso. Cyhoeddir disgrifiad manylach o'r fethodoleg a'r offer casglu data a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad fel Adroddiad Technegol ar wahân (Taylor *et al.* 2015a). Mae hyn yn cynnwys yr holl offer ymchwil a ddefnyddiwyd, gan gynnwys yr amserlenni arsylwi a'r offerynnau arolygu.

1.9 Yn yr adroddiad terfynol hwn, cyflwynwn brif ganfyddiadau'r gwerthusiad. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

i. Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen
ii. Ymarfer y Cyfnod Sylfaen
iii. Effaith y Cyfnod Sylfaen
iv. Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen

1.10 Mae'r rhan fwyaf o'r canfyddiadau allweddol wedi'u cyhoeddi fel Crynodebau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (YGLl) neu Adroddiadau YGLl ar wahân, ac mae eu trefn yn cyfateb i raddau helaeth i brif strwythur yr adroddiad hwn (Tabl 1). Rhoddir rhestr lawn o adroddiadau gwerthuso yn Atodiad A.

1.11 Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn awyddus i bwysleisio'r cysylltiadau rhwng canfyddiadau allweddol ac yn rhoi mwy o dystiolaeth o'r gwerthusiad i'w cefnogi. Daw'r adroddiad i ben trwy ystyried datblygiad y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, gan gynnwys argymhellion allweddol a sut y dylai'r Cyfnod Sylfaen gael ei werthuso a'i fonitro yn y dyfodol.

1.12 Yn olaf, yn yr atodiadau, rhown rai enghreifftiau o'r gwerthusiad o ymarfer y Cyfnod Sylfaen er mwyn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu hymarfer yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i bwysleisio y dylai'r rhain gael eu defnyddio'n bennaf i helpu ymarferwyr i ddeall egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn hytrach nag fel cynlluniau gwersi i'w copïo.

**Tabl 1. Adroddiadau Gwerthuso a Chrynodebau (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru*)**

| Thema | Teitl yr adroddiad | Rhif |
|---|---|---|
| Methodoleg | Adroddiad Blynyddol 2011/12 | 43/2012 |
| | Diweddariad ac Adroddiad Technegol 2012/13 | 16/2014 |
| | Adroddiad Technegol Terfynol | *ar ddod* |
| Gweithredu | Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen | 37/2012 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 75/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Hyfforddiant, Cymorth ac Arweiniad | 54/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Staffio | 95/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Phlant a Theuluoedd | 94/2014 |
| Ymarfer | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Addysgeg a Dealltwriaeth | 43/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch yr Amgylchedd (Dan Do/Awyr Agored) | 53/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Gymraeg | 76/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Llythrennedd a Rhifedd | 10/2015 |
| Effaith | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Effeithiau a Nodwyd | 42/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Lles ac Ymglymiad Plant | 44/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynghylch Pontio ac Asesu | 74/2014 |
| | Canfyddiadau Allweddol ynglŷn â Datblygiad y Cyfnod Sylfaen yn y Dyfodol | 09/2015 |
| Canlyniadau | Deilliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1) | 43/2013 |
| | Canlyniadau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen hyd at 2011/12 (Adroddiad 2) | 01/2015 |

* Maent oll ar gael ar hyn o bryd o'r dudalen we hon: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/

1.13 Cyn cyflwyno’r canfyddiadau allweddol, amlinellwn y gwerthusiad a’i gynllun cyffredinol yn fyr iawn. Mae manylion ychwanegol ar gael yn Taylor *et al*. (2013, 2014). Yna mae’r bennod hon yn mynd ymlaen i amlinellu’r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys model rhesymeg polisi diwygiedig.

**Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad**

1.14 Roedd gan y gwerthusiad tair blynedd (2011-2014) bedwar prif nod:

- gwerthuso pa mor dda y mae’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu ac amlygu ffyrdd y gellir gwella (gwerthuso’r broses)
- gwerthuso pa effaith y mae’r Cyfnod Sylfaen wedi’i chael hyd yma (gwerthuso’r canlyniad)
- asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (gwerthusiad economaidd)
- sefydlu fframwaith gwerthuso ar gyfer olrhain allbynnau a chanlyniadau’r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (y fframwaith gwerthuso).

1.15 Mae *Gwerthuso’r Broses* yn ymwneud yn bennaf â gwerthuso’r broses o weithredu’r Cyfnod Sylfaen. Mae *Gwerthuso’r Canlyniad* yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau neu effeithiau’r Cyfnod Sylfaen ar alluoedd plant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r *Gwerthusiad Economaidd* yn ymgymryd â dadansoddiad o ganlyniadau a chostau’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r allbwn allweddol terfynol o’r gwerthusiad – y *Fframwaith Gwerthuso* – yn cyflwyno cynnig ar gyfer sut y gallai’r Cyfnod Sylfaen gael ei werthuso yn y blynyddoedd i ddod.


1.16 Ochr yn ochr â chanfyddiadau cyhoeddedig o’r ymchwil, mae’r gwerthusiad wedi cynhyrchu nifer o allbynnau pwysig eraill hefyd. Mae’r rhain yn cynnwys gwefan, cyflwyniadau amrywiol i ystod eang o gynulleidfaoedd, cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid amrywiol, ac

ysgoloriaeth ymchwil ddoethurol tair blynedd a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) i archwilio lles cymdeithasol ac emosiynol plant yn y Cyfnod Sylfaen yn fanylach (Taylor *et al.* 2014).

**Cynllun a Methodoleg**

1.17 Wrth ddatblygu'r fethodoleg a'r cynllun ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd nifer o ystyriaethau yn ymwneud â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn ddylanwadol. Y brif nodwedd a ddylanwadodd ar gynllunio'r gwerthusiad yw'r ffordd y cafodd y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno'n ddilyniannol dros amser. Felly, yn y gwerthusiad hwn, gwahaniaethwn rhwng ysgolion/lleoliadau ar dri cham gweithredu (Ffigur 1). Amlinellir nodweddion allweddol eraill y Cyfnod Sylfaen yn Taylor *et al*. (2013).

**Ffigur 1: Trosolwg o'r Cynllun Dilyniannol ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen**





1.18 Mae strwythur trosfwaol y gwerthusiad hwn yn dilyn cynllun dilyniannol (Brown a Lilford 2006; Hussey a Hughes 2007). Mae hyn yn manteisio ar ddull cyflwyno dilyniannol y Cyfnod Sylfaen ar draws nifer o ysgolion/lleoliadau ar dri cham gweithredu gwahanol, y cyfeirir atynt fel lleoliadau Peilot, Dechrau'n Gynnar a Chyflwyno'n Derfynol (gweler Ffigur 1). Mae hyn yn caniatáu i ni gymharu clystyrau o blant na

wnaethant ddilyn y Cyfnod Sylfaen o fewn yr un garfan. Mae hyn yn cyfrannu at ganlyniad y gwerthusiad.

1.19 Mae'r gwerthusiad yn defnyddio ystod eang o ddata a thystiolaeth, ansoddol a meintiol, ac mae wedi'i seilio ar gasglu data sylfaenol a defnyddio data sydd eisoes yn bodoli (gweinyddol ac arall). Trefnwyd hyn ar ddwy lefel ddaearyddol: ar lefel *genedlaethol*, ac ar lefel ysgolion a lleoliadau *astudiaeth achos* unigol (gweler Ffigur 2).

**Ffigur 2: Cynllun a Phrif Elfennau'r Gwerthusiad**




1.20 Trefnwyd y broses casglu data mewn tri cham yn ystod y gwerthusiad: Cam I (Ionawr 2012-Medi 2012); Cam II (Medi 2012-Mehefin 2013); a Cham III (Medi 2013-Ebrill 2014).

1.21 Roedd Cam I y gwerthusiad yn cynnwys:

(a) tystiolaeth ddogfennol yn ymwneud â chynllunio, cyflwyno a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen: roedd hyn yn cynnwys ystod eang o ddeunyddiau, fel dogfennau polisi, dogfennau arweiniad, deunyddiau hyfforddi a deunyddiau cwricwlwm. Datblygwyd fframwaith damcaniaethol i ddadansoddi'r dogfennau a oedd yn bodoli. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn yn bennaf i ddatblygu'r Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen cychwynnol ar gyfer gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen (Maynard et al. 2013);

(b) arolwg cenedlaethol o benaethiaid, rheolwyr canolfan ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen ar draws holl leoliadau'r Cyfnod Sylfaen: roedd hyn yn casglu gwybodaeth am, ac ymatebion i, gymwysterau staff, cymarebau staff:disgyblion, defnyddio cynorthwywyr ystafell ddosbarth, defnyddio'r amgylchedd awyr agored, meini tramgwydd rhag gweithredu, gwariant ariannol, rhwystrau rhag gweithredu, agweddau tuag at y Cyfnod Sylfaen;

(c) cyfweliadau â phersonél allweddol Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol: roedd hyn yn gwahodd cyfranogwyr i drafod cymorth ar gyfer athrawon, darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, strategaethau monitro a gwerthuso, a rhannu data; ac

(ch) dadansoddiad cychwynnol o ddata addysgol gweinyddol (y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (CDdGD)): roedd hyn yn ystyried effaith cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar bresenoldeb, asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a'r Cyfnod Sylfaen, ac asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

1.22 Roedd Cam II y gwerthusiad yn cynnwys samplu haenedig ar hap 41 o ysgolion yr astudiaeth achos a 10 lleoliad nas cynhelir a ariennir ledled Cymru. Rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2013, cynhaliodd y gwerthusiad:

(a) arsylwadau mynych mewn ystafelloedd dosbarth;

(b) cyfweliadau ag ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen, athrawon y Cyfnod Sylfaen, ymarferwyr ychwanegol a phenaethiaid cynradd; ac

(c) arolwg o ddisgyblion Blwyddyn 2 ym mhob un o'r 41 ysgol yn yr astudiaeth achos.

1.23 Roedd Cam III y gwerthusiad yn cynnwys:

(a) cyfweliadau ffôn ag athrawon Blwyddyn 3 (CA2) yn y rhan fwyaf o ysgolion yr astudiaeth achos;

(b) arolwg o rieni'r Cyfnod Sylfaen yn ysgolion a lleoliadau'r astudiaeth achos; ac

(c) roedd y gwerthusiad hefyd wedi ailymweld â saith ysgol o'r astudiaeth achos yn ystod 2013-14 (a ddewiswyd ar sail i ba raddau yr oedd yn ymddangos bod y Cyfnod Sylfaen wedi'i weithredu yn y 41 ysgol yn yr astudiaeth achos yn ystod y flwyddyn flaenorol). Yn ystod yr ymweliadau dilynol hyn, roedd y gwerthusiad wedi ymgymryd â grwpiau ffocws, teithiau ystafell ddosbarth a thasgau datrys problemau eraill gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

1.24 Mae Tabl 2 yn crynhoi'r prif dechnegau casglu data a ddefnyddiwyd yn nhri cham y gwerthusiad a maint cysylltiedig yr ymatebion ar gyfer pob grŵp.

1.25 Roedd y gwerthusiad wedi'i gynllunio i sicrhau ein bod ni'n cael sawl gwahanol safbwynt ar wahanol agweddau'r Cyfnod Sylfaen. Weithiau, mae hyn yn golygu ein bod ni'n gofyn cwestiynau tebyg i wahanol bobl neu randdeiliaid. Weithiau, mae'n golygu ein bod ni'n cymharu'r hyn y mae pobl (e.e. ymarferwyr) yn ei ddweud â'r hyn y maent yn ei wneud neu â mesurau 'gwrthrychol' eraill o'r un canlyniad. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'trionglu' mewn ymchwil gwyddor gymdeithasol.

1.26 Mae defnyddio cryn dipyn o 'drionglu' mewn gwerthusiad fel hwn yn arwain at dair prif fantais. Y fantais gyntaf yw ei fod yn gallu helpu i gadarnhau ac ychwanegu mwy o sail at ganfyddiad penodol. Yr ail brif fantais yw bod cyfuno'r safbwyntiau lluosog hyn yn debygol o arwain at ddealltwriaeth fanylach a mwy treiddgar o'r ffenomen neu'r canfyddiad. Y drydedd brif fantais yw lle y canfyddwn wrthddywediadau

ymddangosiadol rhwng gwahanol ffynonellau tystiolaeth. Yn y gwerthusiad hwn, ceir nifer o enghreifftiau pwysig iawn o hyn. Pan fydd gwrthddywediadau ymddangosiadol o'r fath yn digwydd, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn golygu bod y naill ffynhonnell dystiolaeth neu'r llall yn 'anghywir'. Yn hytrach, wrth geisio deall y gwrthddywediad neu'r paradocs, yn aml gallwn amlygu canfyddiadau newydd na fyddem wedi sylwi arnynt fel arall.

**Tabl 2: Crynodeb o Dechnegau Casglu Data a Chyfraddau Ymateb Cysylltiedig**

| Ymatebwyr, Cyfranogwyr ac Arsylwadau | Nifer* |
|---|---|
| ***Cam I*** | |
| Arolwg Cenedlaethol o Ysgolion | 361[a] |
| Arolwg Cenedlaethol o Ddarparwyr Nas Cynhelir a Ariennir | 243[b] |
| Cyfweliadau â Chynghorwyr y Cyfnod Sylfaen mewn Awdurdodau Lleol | 19 |
| Cyfweliadau â Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth Awdurdodau Lleol | 18 |
| Cyfweliadau â Sefydliadau Ambarél Lleoliadau Nas Cynhelir | 4 |
| ***Cam II*** | |
| Arsylwi Plant | 3,343 |
| Ystafelloedd Dosbarth a Arsylwyd | 131 |
| Sesiynau a Arsylwyd | 239 |
| Ymarferwyr a Arsylwyd | 824 |
| Arolwg Disgyblion Blwyddyn 2 | 671[c] |
| Cyfweliadau â Phenaethiaid | 41 |
| Cyfweliadau ag Athrawon | 118 |
| Cyfweliadau ag Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen | 37 |
| Cyfweliadau ag Arweinwyr Lleoliadau Nas Cynhelir | 10 |
| Cyfweliadau â Chynorthwywyr Addysgu a Dysgu mewn Lleoliadau Nas Cynhelir | 14 |
| Cyfweliadau â Chynorthwywyr Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion | 121 |
| ***Cam III*** | |
| Arolwg rhieni/gofalwyr | 1,008[d] |
| Cyfweliadau ag athrawon Blwyddyn 3 | 16 |
| Teithiau a arweiniwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 1 (tua 5 disgybl ar bob taith) | 6 |
| Grwpiau ffocws disgyblion Blwyddyn 2 (tua 4 disgybl fesul grŵp) | 7 |

* Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw arsylwadau na chyfranogwyr o dreialu'r offer casglu data
Cyfraddau ymateb: [a] 26%; [b] 30%; [c] 100%; [d] tua 15%.

1.27 Mae hefyd yn golygu y bu'n rhaid i'r gwerthusiad fabwysiadu cynllun dulliau cymysg (Gorard a Taylor 2004), gan gasglu amrywiaeth eang o wahanol fathau o ddata – ansoddol a meintiol.

1.28 Yn olaf, mae'r gwerthusiad wedi glynu wrth Ganllawiau Moesegol BERA ar gyfer Ymchwil Addysgol (2004) a Siarter Arfer Da BERA ar gyfer Cyflogi Ymchwilwyr Contract (2001). Cafwyd cymeradwyaeth foesegol o flaen llaw ar gyfer pob rhan o'r gwerthusiad gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd. Mae'r holl ymchwilwyr wedi cael archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT), ac mae'r holl waith wedi cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

1.29 Dylid nodi y rhoddwyd sicrwydd i'r holl ymatebwyr ac ysgolion a gymerodd ran y byddai cyfrinachedd yn cael ei gynnal wrth gyflwyno'r canlyniadau. Felly, nid enwir unrhyw aelod o staff nac ysgol mewn unrhyw adroddiadau gwerthuso, ac mae disgrifiadau o ysgolion neu leoliadau yn arwynebol fel na ellir eu hadnabod. Wrth gyrchu a dadansoddi data o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, darparodd Llywodraeth Cymru ddata dienw am ddisgyblion unigol gyda newidynnau'n unig sy'n sicrhau nad yw'n bosibl adnabod y disgybl unigol ac na ellir ei gysylltu â data arall a allai adnabod y disgybl unigol.

**Model Rhesymeg Polisi**

1.30 Mae trafodaeth fanwl ar ddatblygiad y Cyfnod Sylfaen a'r egwyddorion sy'n sail iddo wedi'i gyhoeddi eisoes (Maynard *et al*. 2013). Yn arbennig, gosododd hyn theori rhaglen a model rhesymeg polisi cychwynnol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddogfennau a deunyddiau arweiniad Llywodraeth Cymru a chyfweliadau cychwynnol â rhanddeiliaid allweddol. Roedd hyn, i bob pwrpas, wedi disgrifio'r Cyfnod Sylfaen fel yr oedd wedi'i *fwriadu*, o ran sut y dylai gael ei roi ar waith a pha ganlyniadau y disgwyliwyd iddo eu cyflawni.

1.31 Yn bwysig, roedd y dadansoddiad cychwynnol hwn yn awgrymu bod y Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd â nifer o elfennau allweddol Ymarfer sy'n Briodol yn Ddatblygiadol (YBD). O ran ei *ymagwedd*, daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

*"Gwelwn fod y dull sy'n ategu'r Cyfnod Sylfaen yn amlwg yn ddatblygiadol, gyda ffocws clir ar y plentyn unigol. Gwelir bod datblygiad yn llinol yn ei hanfod, er nad yw ynghlwm wrth oedran cronolegol, a'i fod yn cydnabod amrywiadau unigol o ran cyfradd o fewn ac ar draws yr holl feysydd datblygu a dysgu. Mae'r dull hwn yn ymwneud yn fras â theori dysgu luniadaethol."* (Maynard *et al.* 2013:v).

1.32 O ran *addysgeg*, daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

*"Gwelwn fod agweddau ar addysgeg a awgrymwyd hefyd yn adlewyrchu theori luniadaethol er bod syniadau sy'n cyd-fynd â safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol yn cael eu pwysleisio – er enghraifft, nodir rôl glir ar gyfer yr ymarferwr o ran cefnogi dysgu a datblygiad plant."* (Maynard *et al.* 2013:v).

1.33 Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd wedi nodi dwy her allweddol a allai wynebu ymarferwyr. Yr her gyntaf yw gwneud synnwyr o'r derminoleg a ddefnyddir o fewn ac ar draws dogfennau'r Cyfnod Sylfaen. Yr ail her yw sut y gall addysgeg newydd y Cyfnod Sylfaen gael ei hintegreiddio orau mewn cwricwlwm statudol manwl a Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol (Llywodraeth Cymru 2013a). Ymddangosodd y ddwy her hyn sawl gwaith yn ystod y gwerthusiad.

1.34 Yn sgil y gwerthusiad, gallwn ddiwygio'r Model Rhesymeg Polisi cychwynnol (gweler Maynard *et al.* 2013) yn seiliedig ar ddehongliad a chanfyddiadau ychwanegol. Crynhoir hyn yn Ffigur 1. Er nad yw cyd-destun cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a'i nodau ac amcanion wedi newid,

nodwn ychydig o fewnbynnau, prosesau a gweithgareddau ychwanegol.

1.35 Yn y rhan Mewnbynnau'r Cyfnod Sylfaen, nodwn bwysigrwydd deuddeg elfen addysgol ar gyfer ymarfer addysgu a dysgu y credwn eu bod yn ymgorffori egwyddorion ac arweiniad y Cyfnod Sylfaen. Amlygwyd y rhain gan y tîm gwerthuso yn seiliedig ar ddadansoddiad systematig o ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen a'n harbenigedd blaenorol ym maes addysg y blynyddoedd cynnar. Yna cadarnhawyd yr elfennau addysgol hyn gan arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill yng ngrwpiau Cynghori'r gwerthusiad. Presenoldeb y deuddeg elfen addysgol hyn sy'n helpu i ddiffinio ymarfer y Cyfnod Sylfaen (gweler pennod 3).

1.36 Dyma'r deuddeg elfen addysgol i'r Cyfnod Sylfaen, fel y'u hamlygwyd gan y gwerthusiad:

- a. Dewis/cyfranogiad y plentyn – plant yn ymglymedig mewn cychwyn a chyfarwyddo ei dysgu ei hun;
- b. Archwilio – plant yn dysgu trwy archwilio a profi;
- c. Uniongyrchol – plant yn dysgu gan profiad uniongyrchol a llaw-gyntaf;
- ch. Ymarferol – plant yn dysgu trwy gweithgareddau ymarferol;
- d. Cam nid oedran – dyle plant cael ei herio a chefnogi yn addas ac yn ôl ei cam (nid oedran) dysgu;
- dd. Cydbwysedd gweithgareddau parhaus/gwell/â ffocws – am y mwyafrif o ddysgu mae yna arae o weithgareddau gwahanol ar gael yn gyson i ddarparu cyflwyniad dysgu parhaol, mae hyn yn cael ei wella gan ddarpariad achlysurol o weithgareddau penodol o fewn darpariaeth barhaol i roi dysgu gwell (e.e. gan grocbren dysgu plant), ac yn achlysurol mae gweithgareddau dysgu ganolog yn cael ei darparu i sicrhau fod tasgau penodol yn cael ei gyflawni;
- e. Holi agored – cwestiynnau i blant sy'n wahoddi ymatebion amleiriog agored yn lle ymatebion caeedig un-gair;

f. Myfyrio – mae plant yn cael ei anog i feddwl am brofiadau dysgu ei hun;

ff. Gweithgarwch corfforol – mae plant yn cael y cyfle i symud o gwmpas wrth ddysgu;

g. Dysgu yn yr awyr agored – mae dysgu yn cymryd lle mewn amgylchedd dysgu tŷ allan a thŷ fewn;

ng. Arsylwi plant – dyle dysgu'r plant cael ei arolygu yn bennaf trwy arsylwad cyson;

h. Parthau dysgu – mae'r amgylchedd dysgu yn cynnal amrhyw o ardaloedd/gweithgareddau wahanol i blant cysylltu gyda.

1.37 Ychwanegiad arall i'r Model Rhesymeg Polisi o dan Brosesau a Gweithgareddau yw cyflwyno ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol mewn ystafelloedd dosbarth. Mae'n eithaf amlwg bod llwyddiant neu effaith y Cyfnod Sylfaen yn dibynnu'n drwm ar ba un a yw'n cael ei weithredu'n 'llawn' ar draws ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Felly, mae cyflwyno a defnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen mewn ystafelloedd dosbarth yn ganolog i'w werthuso.

1.38 Mae newid arall yn ymwneud ag un o'r prif Ganlyniadau, hynny yw, a fyddem yn disgwyl gweld gwelliannau yng nghyflawniad addysgol plant saith oed. Yn flaenorol, gwnaethom nodi na fyddem yn disgwyl gweld unrhyw newid yng nghyflawniad plant saith oed, gan adlewyrchu newid mewn pwyslais i ymarfer a chanlyniadau sy'n fwy priodol yn ddatblygiadol ar gyfer plant tair i saith oed. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn canfod tystiolaeth fod modd gwella cyflawniad plant saith oed yn sgil gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn 'llawn', yn ogystal â phlant deuddeg oed (gweler pennod 4).

1.39 Mae'r holl nodweddion yn y Model Rhesymeg Polisi diwygiedig hwn wedi'u trefnu ar sail cod lliw hefyd er mwyn adlewyrchu llwyddiant cymharol hyd yma wrth fodloni amcanion y Cyfnod Sylfaen.

1.40 Mae eitemau lliw oren yn dangos lle nad yw'n bosibl gwerthuso hyd yma a yw'r canlyniadau wedi'u bodloni.

1.41 Mae eitemau lliw porffor yn dangos agweddau ar y Cyfnod Sylfaen lle y ceir tystiolaeth o'r gwerthusiad i awgrymu eu bod wedi'u cyflawni. I'r gwrthwyneb, mae eitemau lliw glas yn dangos agweddau lle y ceir tystiolaeth i awgrymu nad ydynt wedi'u cyflawni. Eitemau lliw gwyrdd yw'r agweddau hynny ar y Cyfnod Sylfaen lle y ceir naill ai tystiolaeth rannol ynglŷn ag a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio, neu le y ceir tystiolaeth i awgrymu eu bod wedi'u cyflawni'n rhannol yn unig.

1.42 Mae eitemau newydd a ychwanegwyd at y Model Rhesymeg Polisi diwygiedig hwn wedi'u tanlinellu.

1.43 Felly, mae'r Model Rhesymeg Polisi diwygiedig hwn yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad. Fel y gellir gweld, mae'r rhan fwyaf o agweddau'r Cyfnod Sylfaen wedi'u bodloni'n llawn neu'n rhannol. Ond mae hefyd yn dangos meysydd o'r Cyfnod Sylfaen lle y ceir lle i wella o hyd. Trafodir y canfyddiadau hyn yn fanwl yng ngweddill yr adroddiad hwn.

**Ffigur 3: Model Rhesymeg Polisi (Fersiwn 2) ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen**

**Amodau a phroblemau cyd-destunol**
- Pryder ynglŷn â mabwysiadu ymagweddau ffurfiol at addysgu a dysgu mewn dosbarthiadau derbyn a CA1.
- Pryderon ynglŷn ag ansawdd a safonau, yn enwedig yn CA1.
- 'Dadrithio' tuag at addysg a dysgu ymhlith y rhai sy'n gadael yr ysgol.
- Cymariaethau rhyngwladol gwan o ran cyflawniad addysgol diweddarach.
- Anfantais gymdeithasol (gan gynnwys iechyd a lles) a'i pherthynas ag addysg.
- Pryderon ynglŷn â datblygiad y Gymraeg.

**Nodau ac amcanion**
- Codi safonau cyflawniad plant.
- Gwella eu hagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.
- Mynd i'r afael â'u hanghenion sy'n datblygu.
- Eu galluogi i elwa ar gyfleoedd addysgol yn ddiweddarach yn eu bywydau.
- Eu helpu i ddod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau.

**Sail resymegol**
Datblygu cwricwlwm newydd sy'n cysylltu a chryfhau egwyddorion ac arferion 'Canlyniadau Dymunol' cyn ysgol â rhaglenni astudio a datganiadau ffocws CA1. Defnyddio ymarfer sy'n briodol yn ddatblygiadol, ac ymagweddau lluniadaethol a chymdeithasol-ddiwylliannol at addysgu a dysgu.

**Mewnbynnau**
- Saith Maes Dysgu statudol.
- Asesiadau Diwedd Cyfnod.
- Cymarebau oedolyn:plentyn uwch (1:8 ar gyfer plant 3 i 5 oed, ac 1:15 ar gyfer plant 5 i 7 oed).
- Cyllid i wella amgylcheddau dysgu awyr agored.
- Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth a hyfforddiant cysylltiedig.
- 12 elfen addysgol y Cyfnod Sylfaen.

**Prosesau a gweithgareddau**
- Ymgynghoriad a Chynllun Gweithredu (2003).
- Cyflwyno'n raddol ar draws ysgolion o 2004/05 i 2008/09.
- Datblygu Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant a deunyddiau arweiniad ategol.
- Gwerthuso a monitro.
- Asesu wrth ymuno.
- Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol mewn ystafelloedd dosbarth.

**Allbynnau a chanlyniadau canolraddol**
- Pob plentyn 3 i 7 oed yn dilyn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd.
- Fframwaith a dogfennau arweiniad wedi'u cyhoeddi.
- Modiwlau hyfforddi'n cael eu cyflwyno.
- Asesiadau Diwedd Cyfnod.
- Newidiadau i amgylcheddau dysgu ffisegol (dan do ac awyr agored).

**Canlyniadau**
- Cyflawniad uwch ymhlith plant 7 oed yn gysylltiedig ag ysgolion sydd â gweithrediad 'uchel'.
- Cyflawniad addysgol uwch erbyn 12 a 15 oed.
- Llai o wahaniaethau o ran cyflawniad rhwng grwpiau breintiedig a difreintiedig.
- Cyfraddau is o ddiffyg presenoldeb ar gyfartaledd.
- Gwell datblygiad cymdeithasol ac emosiynol ymhlith plant ifanc.
- Cynnwys rhieni/gofalwyr yn effeithiol yn y profiad addysgol.
- Mwy o ddinasyddiaeth weithgar ymhlith pobl ifanc.

**Effeithiau**
- Gwell tueddiadau dysgu.
- Cynyddu cyfranogiad mewn addysg ôl-orfodol a dysgu gydol oes.
- Cynnydd mewn sgiliau sylfaenol yn y boblogaeth.
- Lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol i ddysgwyr.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.
- Llai o wahaniaethau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.
- Gwell profiad proffesiynol i'r gweithlu addysgu.

**Allwedd**
Tystiolaeth o gyflawniad
Dim tystiolaeth o gyflawniad
Tystiolaeth o rywfaint o gyflawniad neu heb ei gadarnhau eto
Dim modd cael tystiolaeth eto
Mae eitemau ychwanegol i'r fersiwn hon wedi'u tanlinellu

# 2 Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

2.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar weithredu'r Cyfnod Sylfaen ac yn ystyried y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys y prif fewnbynnau, prosesau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'i gyflwyno. Mae hyn yn cynnwys sut y derbyniwyd y Cyfnod Sylfaen yn y lle cyntaf gan awdurdodau lleol, ymarferwyr a rhieni. Yna mae'n mynd ymlaen i amlinellu'r prif newidiadau i seilwaith ysgolion, fel staffio a'r amgylchedd.

2.2 Yna mae'r bennod yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau mewn perthynas â chyflwyno gwell cymarebau oedolyn:plant, sef un o fewnbynnau allweddol y Cyfnod Sylfaen, cyn cyflwyno'r prif ganfyddiadau mewn perthynas â gweithredu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad. Mae'r bennod yn gorffen trwy amlygu'r prif faterion o ran gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

**Sut y Derbyniwyd y Cyfnod Sylfaen**

2.3 Roedd y mwyafrif helaeth o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol wedi croesawu cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn y lle cyntaf, yn aml gydag ymdeimlad o 'gyffro' ond hefyd 'rhyddhad'. Yn ôl yr arolwg cenedlaethol, dywedodd 54% o benaethiaid, 59% o ymarferwyr arweiniol mewn ysgolion a 42% o ymarferwyr arweiniol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir eu bod yn 'edrych ymlaen ato'. Dim ond 2% o staff a ddywedodd nad oeddent yn edrych ymlaen ato. Yn ogystal, roedd 97% o benaethiaid yn credu bod eu hymarferwyr Cyfnod Sylfaen yn croesawu ei gyflwyniad.

2.4 Fodd bynnag, roedd gan gyfran sylweddol o'r rhai hynny a holwyd rai amheuon cychwynnol ynglŷn â'i gyflwyno. Yn arbennig, adroddodd penaethiaid lai o frwdfrydedd yn gyffredinol tuag at y Cyfnod Sylfaen ymhlith eu staff addysgu Cyfnod Allweddol 2, a dywedodd 21% o

benaethiaid fod rhai rhieni wedi dangos ychydig o wrthwynebiad i'w gyflwyniad.

2.5 Er hynny, mae'n bwysig nodi bod y gwerthusiad yn canfod yn aml bod safbwyntiau athrawon y Cyfnod Sylfaen yn wahanol iawn i'w penaethiaid, gan adlewyrchu gwahaniaeth barn o ran blaenoriaethau addysgol, dealltwriaeth addysgol ac adnoddau.

2.6 Roedd penaethiaid ac ymarferwyr yn yr ysgolion Peilot hefyd gryn dipyn yn fwy brwdfrydig ynglŷn â'i gyflwyno na'u cymheiriaid mewn ysgolion eraill. Dywedodd 50% o benaethiaid yn yr ysgolion Peilot eu bod yn 'edrych ymlaen yn fawr ato' o gymharu â 26% o benaethiaid yn yr ysgolion Cyflwyno'n Derfynol.

2.7 Ceir gwahaniaethau hefyd o ran sut y derbyniwyd y Cyfnod Sylfaen i ddechrau mewn ysgolion Cymraeg, gyda 49% o'r penaethiaid hyn yn adrodd am amheuon, o gymharu â 39% o benaethiaid mewn ysgolion Saesneg. Fel y bydd yr adroddiad yn ei drafod yn ddiweddarach, mae hyn yn adlewyrchu pryder cyffredinol ynglŷn â throchi yn y Gymraeg yng nghyd-destun ymagwedd addysgol at ddysgu sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn ac yn cael ei dechrau mwy gan y plentyn.

2.8 Yn ystod cyfweliadau, dywedodd Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol eu bod yn fodlon iawn yn gyffredinol ar sut yr oedd y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei weithredu yn eu hardaloedd, er eu bod yn credu bod amrywiadau eithaf sylweddol rhwng ysgolion o ran i ba raddau y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu. Roeddent yn aml yn cysylltu'r amrywiad hwn mewn gweithredu i ddealltwriaeth a safbwyntiau cychwynnol o'r Cyfnod Sylfaen ymhlith ymarferwyr yn yr ysgolion hynny ac ofn ymhlith penaethiaid yn arbennig y bydd ei gyflwyno'n arwain at ddirywiad mewn cyflawniad addysgol ym maes llythrennedd a mathemateg, o leiaf ar gyfer plant saith mlwydd oed,

*“Roedd yn ymwneud ag ymarferwyr yn rhannol, ond credaf ei fod yn ymwneud yn rhannol â her penaethiaid gan eu bod yn ofni y byddai safonau’n gostwng ac, wrth gwrs, mae popeth yn cael ei reoli gan y sgorau a chyrhaeddiad erbyn hyn. Ac mae Llywodraeth Cymru’n rhoi pwyslais ar gyrhaeddiad. Ac rwy’n credu mai’r hyn yr oeddent yn ei weld neu’n ei ddehongli oedd bod plant yn chwarae trwy’r dydd a bod diffyg dealltwriaeth a gwahaniaeth rhwng chwarae, chwarae pur, a dysgu gweithredol.”* (Cynghorydd y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdod Lleol).

2.9 Yn ôl Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol, roedd unrhyw bryder ymhlith ymarferwyr y gallai’r Cyfnod Sylfaen arwain at ddirywiad mewn cyflawniad addysgol plant saith oed, wedi dwysáu yn dilyn cyflwyno’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) fel gofyniad cwricwlwm statudol ym mis Medi 2013 ac, yn arbennig, cyflwyno profion darllen a rhifedd statudol ym mis Medi 2014 ar gyfer plant saith oed yn y Cyfnod Sylfaen[5].

2.10 Fodd bynnag, pan holwyd penaethiaid am rwystrau rhag gweithredu’r Cyfnod Sylfaen yn eu hysgolion, dywedodd fwy na 60% ohonynt mai cyllid a seilwaith presennol yr ysgol oedd y ddau brif anhawster rhag ei weithredu.

2.11 Mae’r mwafrif llethol o benaethiaid yn dweud ei fod nhw’n bodloni gyda’r Cyfnod Sylfaen; gyda 54% yn dweud ei fod nhw yn fodloni’n fawr. Ond fel y nodwyd cynt, dywedodd 21% o benaethiaid fod rhai rhieni/gofalwyr wedi mynegi rhywfaint o wrthwynebiad i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn tebygol o fod yn rhif isel, fodd bynnag, gan mae dim ond 3% o rieni/gofalwyr a holwyd yn y gwerthusiad a ddywedodd eu bod yn anfodlon ar y Cyfnod Sylfaen.

2.12 Mae rhieni/gofalwyr yn mynegi cefnogaeth sylweddol i addysg eu plant fod yn ‘amrywiol a diddorol’, yn ‘archwiliol ac ymchwiliol’ ac yn

[5] Cyflwynwyd profion statudol cenedlaethol ar gyfer pob plentyn saith i bedair ar ddeg oed yng Nghymru yn 2012/13.

‘ymdrin ag ystod eang o sgiliau’. Dywedodd fwy nag 80% o rieni/gofalwyr eu bod yn cefnogi’r agweddau hyn yn gryf. Roedd rhieni/gofalwyr ychydig yn llai cefnogol, er yn dal i fod yn sylweddol gadarnhaol, tuag at eu plant yn gallu ‘dysgu ar eu cyflymder eu hunain’ neu gael ‘dewis yn eu dysgu’ (nid oedd oddeutu 30% o rieni/gofalwyr yn cefnogi’r nodweddion hyn).

2.13 Er gwaethaf cefnogaeth gyffredinol i’r Cyfnod Sylfaen a chefnogaeth gref i lawer o’i nodweddion ac egwyddorion allweddol, mae’r gwerthusiad yn canfod nad yw rhieni wedi bod yn rhan o’i weithredu neu ei ddatblygu yn aml. Dim ond 20% o benaethiaid ysgol a 18% o ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir a fynegodd fod gan rieni/gofalwyr rôl bwysig mewn gweithredu’r Cyfnod Sylfaen yn eu hysgol neu leoliad. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion/lleoliadau astudiaeth achos y mae’r gwerthusiad yn canfod bod rhieni’n ymwneud â sesiynau cynllunio gweithgareddau (gweler pennod 3).

2.14 Yn ogystal, mae cyfweliadau ag ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen a phenaethiaid yn dangos, ar y cyfan, nad yw’r berthynas rhwng rhieni a’r ysgol wedi newid o ganlyniad i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen.

**Staffio a’r Cyfnod Sylfaen**

2.15 Un o elfennau allweddol y Cyfnod Sylfaen oedd cyflwyno gwell cymarebau oedolyn:plant ar gyfer plant tair i saith oed – 1:8 ar gyfer plant tair i bump oed (h.y. lleoliadau nas cynhelir a ariennir a dosbarthiadau/grwpiau Meithrin a Derbyn) ac 1:15 ar gyfer plant pump i saith oed (h.y. Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2).

2.16 Roedd hyn yn golygu bod angen recriwtio nifer sylweddol o ymarferwyr ychwanegol wrth i’r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno. Erbyn 2011/12, roedd 15,923 o ymarferwyr yn gweithio gyda phlant oed Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion. Mae’r gwerthusiad yn

amcangyfrif bod hyn bron wedi dyblu nifer yr ymarferwyr a oedd yn gweithio yng Nghyfnod Allweddol 1 yn 2004/05.

2.17 Er gwaethaf pryderon ynglŷn â lefelau cymwysterau ymarferwyr ychwanegol yn Addysg Blynyddoedd Cynnar (e.e. gweler Adolygiad Nutbrown 2012), canfu'r gwerthusiad fod gan 81% o ymarferwyr ychwanegol yn ysgolion yr astudiaeth achos gymhwyster NVQ Lefel 3 neu uwch. I gymharu roedd hyn yn rhagori'n sylweddol ar y targed o 70% o ymarferwyr ychwanegol yn meddu ar gymwysterau Lefel 3 neu uwch yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr erbyn mis Medi 2015.

2.18 Roedd lefelau cymwysterau ymarferwyr yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn yr astudiaeth achos yn is na rhai ymarferwyr ychwanegol mewn ysgolion yn gyffredinol – roedd gan 68% o ymarferwyr ychwanegol mewn ysgolion gymhwyster NVQ Lefel 3 o leiaf (er bod hyn yn seiliedig ar sampl fach iawn)[6].

2.19 Yn 2013/14, dyrannodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £92 miliwn ar gyfer cyflogi ymarferwyr ychwanegol er mwyn helpu ysgolion i fodloni'r cymarebau oedolyn:plant argymelledig. Dyrennir y refeniw hwn i awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu poblogaeth ddisgyblion, ac yna maent yn ei ddosbarthu i ysgolion gan ddefnyddio eu fformiwlâu cyllido eu hunain.

2.20 O'r rhai hynny a holwyd, dywedodd 72% o benaethiaid a 79% o ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir na chawsant unrhyw broblemau o ran bodloni'r cymarebau oedolyn:plant argymelledig. Mae naw o bob deg pennaeth a ddywedodd eu bod wedi profi anawsterau wrth fodloni'r cymarebau oedolyn:plant

[6] Er gwaethaf y gyfran gymharol fawr o ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen sydd â lefelau uchel o gymwysterau, dylid nodi mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd mewn gwirionedd fod lefelau uwch o gymwysterau ymhlith ymarferwyr ychwanegol (Ymddiriedolaeth Sutton 2011) neu ymarferwyr cyn ysgol (Howes *et al.* 2008) yn gysylltiedig â gwell cyflawniad disgyblion.

argymelledig hefyd yn nodi problemau cyllido fel prif rwystr rhag gweithredu’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

2.21 Mewn cyfweliadau â phenaethiaid ysgolion yr astudiaeth achos, mae’n amlwg nad yw’r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o gyllid ychwanegol gan eu Hawdurdod Lleol i fodloni’r cymarebau argymelledig. Mae’r penaethiaid hyn yn dweud bod yn rhaid iddynt ddefnyddio gweddill cyllideb eu hysgol i ariannu’r diffyg mewn costau staffio.

2.22 O ran dosbarth Derbyn o ddeg ar hugain o blant, byddai hyn yn golygu’n nodweddiadol y dylai fod un athro cymwysedig ac *o leiaf* ddau ymarferydd ychwanegol. O ran dosbarth Blwyddyn 2 o ddeg ar hugain o blant, byddai hyn yn golygu’n nodweddiadol y dylai fod un athro cymwysedig ac un ymarferydd ychwanegol.

2.23 Gan fod nifer y plant ym mhob ystafell ddosbarth yn amrywio’n eithaf sylweddol ac oherwydd nad oes modd rhannu’r rhif hwn â’r cymarebau i gael rhif cyfan bob amser (h.y. un oedolyn amser llawn), ceir amrywiad eithaf mawr o ran yr union gymarebau oedolyn:plant ar draws Cymru. Yn ogystal, o’r 144,839 o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (2011/12), roedd 38% mewn ystafelloedd dosbarth oedran cymysg o ddisgyblion o unrhyw oedran rhwng tair a saith, ac roedd 11% mewn ystafelloedd dosbarth oedran cymysg a oedd yn cynnwys disgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd.

2.24 Yn ôl data gweinyddol cenedlaethol, mae’r cymarebau oedolyn:plant cyfartalog yn ysgolion y Cyfnod Sylfaen yn amrywio o 9.0 ar gyfer dosbarthiadau Meithrin 2 i 13.1 ar gyfer dosbarthiadau Blwyddyn 2 (Tabl 3). O ran y grwpiau oedran hŷn, lle y ceir data cymaradwy, mae hyn yn welliant sylweddol yn y cymarebau oedolyn:plant cyfartalog a arsylwyd yng Nghyfnod Allweddol 1 (2005).

2.25 Roedd y gwerthusiad hefyd wedi gofyn i benaethiaid ddarparu gwybodaeth fanylach am y cyfansoddiad oedolion a disgyblion ar gyfer pob un o'u hystafelloedd dosbarth Cyfnod Sylfaen. Mae'r cymarebau oedolyn:plant cyfartalog a gyfrifwyd yn ôl grŵp blwyddyn gan ddefnyddio'r ffynhonnell wybodaeth hon yn cynhyrchu canlyniadau tebyg (Tabl 3).

**Tabl 3. Cymarebau Oedolyn:Plant Cyfartalog mewn Ysgolion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (2012) ac yng Nghyfnod Allweddol 1 (2005), yn ôl Grŵp Blwyddyn**

| Grŵp Blwyddyn | Data Gweinyddol Cenedlaethol | | Arolwg Penaethiaid |
|---|---|---|---|
| | Cyfnod Sylfaen (2012)[1] | Cyfnod Allweddol 1 (2005)[2] | Cyfnod Sylfaen (2012)[3] |
| Dosbarth Meithrin 2 | 9.0 | dd/b | 8.9 |
| Dosbarth Derbyn | 9.7 | dd/b | 9.1 |
| Dosbarth Blwyddyn 1 | 12.8 | 19.3 | 13.4 |
| Dosbarth Blwyddyn 2 | 13.1 | 20.2 | 12.6 |
| Dosbarth oedran cymysg | 9.8 | 15.4 | 10.9 |

1 – Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 5,110 o ddosbarthiadau.
2 – Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 2,079 o ddosbarthiadau.
3 – Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 1,045 o ddosbarthiadau.

2.26 Yn hollbwysig, mae'r ddwy set o ganlyniadau'n dangos, ar gyfartaledd, nad yw'r cymarebau oedolyn:plant ar gyfer plant tair i bump oed (h.y. Meithrin a Derbyn) yn cael eu bodloni, tra bod y cymarebau oedolyn:plant ar gyfer plant pump i saith oed (h.y. Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2), ar gyfartaledd, yn rhagori ar y targed.

2.27 Gan ddefnyddio'r ddwy ffynhonnell wybodaeth, mae hefyd yn bosibl amcangyfrif canran yr ysgolion sy'n bodloni'r cymarebau argymelledig (Tabl 4). Mae hyn yn dangos bod rhwng 43% a 45% o ysgolion yn bodloni'r cymarebau argymelledig o 1:8 yn eu dosbarthiadau Derbyn a bod rhwng 87% a 90% o ysgolion yn bodloni eu cymarebau argymelledig o 1:15 ar gyfer dosbarthiadau Blwyddyn 2.

**Tabl 4. Canran yr Ysgolion yr Amcangyfrifir eu bod yn Bodloni'r Cymarebau Argymelledig (2012)**

| Grŵp Blwyddyn | Data Gweinyddol Cenedlaethol | Arolwg Penaethiaid |
|---|---|---|
| Dosbarthiadau Meithrin (cymhareb 1:8) | 48.7 | 64.0 |
| Dosbarthiadau Derbyn (cymhareb 1:8) | 45.4 | 43.0 |
| Dosbarthiadau Blwyddyn 1 (cymhareb 1:15) | 90.5 | 92.5 |
| Dosbarthiadau Blwyddyn 2 (cymhareb 1:15) | 87.2 | 89.6 |

2.28 Ceir cafeat amlwg i'r canlyniadau hyn, sef nad ydynt yn dweud llawer am yr gymarebau oedolyn:plant y mae disgybl yn eu profi o awr i awr neu o ddydd i ddydd. Er enghraifft, roedd llawer o ysgolion yr astudiaeth achos yn grwpio oedolion a disgyblion gyda'i gilydd yn eithaf creadigol yn aml, o fewn dosbarthiadau a rhwng dosbarthiadau (a grwpiau blwyddyn) (gweler Blwch 1 am enghraifft o hyn). Mae hyn yn aml yn golygu y gallai'r gymhareb argymelledig ar gyfer disgyblion weithiau fynd yn uwch ac yn is na'r lefelau argymelledig ar unrhyw adeg.

2.29 Ni waeth pa un a yw ysgolion unigol yn gallu bodloni'r cymarebau argymelledig yn llawn ai peidio, roedd presenoldeb oedolion ychwanegol yn amlwg iawn mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Yn wir, dywedodd y mwyafrif helaeth o benaethiaid ac athrawon a gyfwelwyd fod y cymarebau gwell wedi bod yn *hanfodol* i weithredu cwricwlwm ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

2.30 Fel y trafodir yn y bennod nesaf, arddangosir hyn hefyd yn ein harsylwadau ystafell ddosbarth, o ran rolau a chyfraniadau penodol ymarferwyr ychwanegol, ond hefyd o ran sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan mewn dulliau dysgu grŵp bach a dysgu trwy brofiad gyda chymorth ac arweiniad oedolyn.

**Blwch 1. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Defnydd Creadigol o Gymarebau Oedolyn:Plant**

**Ysgol #24**
Roedd ymarferwyr ychwanegol yn aml yn cael eu hystyried yn adnodd hanfodol wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus, yn enwedig pan oedd cymysgedd o weithgareddau parhaus, gweithgareddau gwell a gweithgareddau â ffocws wedi'u sefydlu.

Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr ychwanegol yn cydweithio â'r athro dosbarth i weithredu gweithgareddau â ffocws. Roedd y gweithgareddau hyn fel arfer gyda grŵp bach o blant, a byddent yn cael eu cylchdroi drwy gydol y sesiwn ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau parhaus a gweithgareddau gwell mewn gwahanol rannau o'r ystafell ddosbarth. Yn aml, gallai ymarferwyr ychwanegol a/neu athrawon fynd â'u grŵp bach i fan arall yn yr ysgol i wneud y dasg â ffocws; roedd y neuadd ac amgylcheddau dysgu amlddefnydd eraill yn cael eu defnyddio yn ogystal â llawer o fannau awyr agored.

Roedd dau grŵp blwyddyn yn cyfnewid ystafelloedd dosbarth bob pythefnos fel y gallai dwywaith y gweithgareddau a'r gwaith thematig gael eu cynnwys yn eu cwricwlwm. Roedd hyn yn galluogi ymarferwyr ychwanegol ac athrawon i dreulio amser gyda grwpiau bach mewn amgylchedd dysgu ehangach. Er enghraifft, natur a sut mae pethau'n tyfu oedd thema'r ystafell ddosbarth ar yr adeg arsylwi. Mewn un ystafell ddosbarth, roedd siop fferm gyda chynnyrch go iawn a chynnyrch ffug. Defnyddiwyd yr ardal hon ar gyfer tasg â ffocws ar fathemateg gyda grŵp bach lle'r oedd yr athro a'r plant yn 'mynd i siopa' am restr o eitemau ac yn datblygu sgiliau mathemategol fel adio a rhoi'r newid iawn. Yn yr ystafell ddosbarth arall, roedd tŷ gwydr bach lle y gallai grŵp bach blannu hadau gyda'r ymarferydd ychwanegol. Oherwydd bod y dosbarthiadau'n cael eu cyfnewid bob pythefnos, roedd y plant yn gallu dilyn twf eu hadau a'i gofnodi ar siart twf gyda chymorth yr ymarferydd ychwanegol.

2.31 Adroddwyd am fuddiannau eraill yn gysylltiedig â'r gwell cymarebau oedolyn:plant hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi'r cyfle i ymarferwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant neu ymgymryd â'u datblygiad proffesiynol eu hunain heb fod angen staff ychwanegol i gyflenwi yn yr ystafell ddosbarth[7]. Roedd presenoldeb mwy o ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn lliniaru effaith absenoldebau cyffredinol staff hefyd.

[7] Nid eglurwyd fyth pa gyllid ychwanegol yr oedd ysgolion wedi'i dderbyn neu y dylent fod wedi'i dderbyn i ddarparu athrawon cyflenwi er mwyn galluogi ymarferwyr i fynychu hyfforddiant ar fodiwlau'r Cyfnod Sylfaen.

2.32 Roedd penaethiaid yn ychydig dros hanner yr ysgolion a holwyd (54%) hefyd wedi adrodd eu bod wedi gwneud newidiadau strwythurol arwyddocaol i drefniadaeth eu staff rheoli a'u staff uwch. Yr enghraifft o hyn a roddwyd amlaf oedd penodi ymarferydd arweiniol y Cyfnod Sylfaen a oedd hefyd wedi dod yn aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol yn aml neu ddirprwy bennaeth yr ysgol.

2.33 Yn gysylltiedig, dywedodd nifer fach o benaethiaid eu bod wedi penodi Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel Uwch (CALU) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i ddarparu mwy o brofiad ymarfer nag a oedd gan lawer o'r ymarferwyr ychwanegol presennol.

2.34 Mae'n nodedig bod penaethiaid ac uwch aelodau staff ddim wedi cael unrhyw arweiniad pennodol fel arweinwyr ysgol ar sut i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn eu hysgol. Yn ysgolion yr astudiaeth achos, mae penderfyniadau ynghylch i ba raddau i ailstrwythuro'r timau rheoli neu ailddyrannu staff ysgol profiadol i'r blynyddoedd cynnar wedi'u cysylltu'n agos â'u brwdfrydedd a'u diddordeb personol yn y Cyfnod Sylfaen a gall hyn wedi achosi rhai o'r anghysondebau mewn gweithredu sydd wedi adnabod mewn mannau eraill yn y gwerthusiad.

**Hyfforddiant a Chymorth**


2.35 Elfen allweddol arall o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yw hyfforddiant a chymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen, a fwriadwyd yn bennaf ar gyfer athrawon cymwysedig, ymarferwyr ychwanegol ac ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen.

2.36 Mae'r ystod o hyfforddiant a chymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn helaeth. Mae'n cynnwys, yn bennaf, cynllunio a chynhyrchu wyth modiwl hyfforddi (gweler Atodiad B), deunyddiau arweiniad ar bob Maes Dysgu (Gweler Atodiad B), deunyddiau arweiniad

ychwanegol (fel Dysgu yn yr Awyr Agored), cyflogi Swyddog Hyfforddiant a Chymorth (SHCh) amser llawn ym mhob awdurdod lleol ac, mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir, mynediad at Athro Cyswllt 0.1 cyfwerth ag amser llawn (CALI) i gynorthwyo plant ac ymarferwyr yn y lleoliadau hynny. Yn ystod cam cyntaf y broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, roedd Llywodraeth Cymru wedi trefnu cynadleddau blynyddol ledled Cymru hefyd[8].

2.37 Rhwng 2004-05 a 2013-14, gwariodd Llywodraeth Cymru ychydig yn llai na £46 miliwn ar hyfforddiant a chymorth yn y Cyfnod Sylfaen. Cynyddodd hyn yn sylweddol yn 2007-08, gan gyd-daro â'i gyflwyno'n derfynol yn ystod y flwyddyn ganlynol, ac mae wedi aros yn gymharol gyson ers hynny (Ffigur 4).

**Ffigur 4. Cyllideb Hyfforddiant a Chymorth y Cyfnod Sylfaen, 2004-05 i 2013-14**





Ffynhonnell data: Llywodraeth Cymru

[8] Dylid nodi nad oedd y modiwlau hyfforddi a llawer o'r adnoddau hyn ar gael i ysgolion Peilot a Dechrau'n Gynnar wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd hyn i'w weld yn amlwg yn y gyfradd gyfranogiad is mewn hyfforddiant a ganfu'r gwerthusiad ymhlith staff yn yr ysgolion Peilot a Dechrau'n Gynnar.

2.38 Mae Ffigur 5 yn dangos costau'r Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth (SHCh) a'r Athrawon Cyswllt 0.1 CALl ar wahân i weddill y gyllideb hyfforddiant. Mae hyn yn dangos, er bod y gyllideb gyffredinol wedi aros yn gymharol gyson, bod costau'r SHCh ac, i raddau llai, yr Athrawon Cyswllt wedi golygu bod y gyllideb sydd ar ôl ar gyfer hyfforddiant wedi gostwng 14% yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigur 5. Dosbarthiad y Gyllideb Hyfforddiant a Chymorth, 2008-09 i 2013-14**





Ffynhonnell data: Llywodraeth Cymru

2.39 Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn fodlon iawn ar yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarparwyd iddynt (Ffigur 6 a Ffigur 7). Roedd tua 90% o'r ymarferwyr arweiniol mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn credu bod dogfennau Llywodraeth Cymru a hyfforddiant Awdurdodau Lleol yn 'ddefnyddiol' neu'n 'ddefnyddiol iawn'.


2.40 Roedd y rhan fwyaf hefyd yn credu bod y cymorth a'r cyngor gan Awdurdodau Lleol a deunyddiau hyfforddi Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol.

**Ffigur 6. Bodlonrwydd ar Hyfforddiant a Chymorth yn ôl Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion ***




* Roedd y nifer ddilys o ymatebion yn amrywio o 306 i 322. Lle nad oes ymarferydd arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol, byddai'r pennaeth wedi ateb y cwestiynau hyn.

**Ffigur 7. Bodlonrwydd ar Hyfforddiant a Chymorth yn ôl Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Lleoliadau Nas Cynhelir a Ariennir***




* Roedd y nifer ddilys o ymatebion yn amrywio o 219 i 237.

2.41 Roedd gan nifer gymharol lai o ymatebwyr farn am gynadleddau datblygiad proffesiynol parhaus Llywodraeth Cymru, ond o'r rhai oedd gyda barn roedd y rhan fwyaf yn credu y buont yn ddefnyddiol.

2.42 Cynhyrchwyd yr wyth modiwl hyfforddiant ar y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru. Ond Awdurdodau Lleol, eu Cynghorwyr Blynyddoedd Cynnar a'u Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth (SHCh) sy'n bennaf gyfrifol am eu cyflwyno. Dywedodd Cynghorwyr ac SHCh yn aml eu bod yn teilwra'r modiwlau hyfforddi i (a) wneud y deunyddiau'n fwy hygyrch a (b) i fodloni anghenion penodol eu hysgolion a sefydliadau nas cynhelir a ariennir, ymarferwyr a chyfranogwyr.

2.43 Yn lleoliadau'r astudiaeth achos ysgolion a nas cynhelir a ariennir gofynnwyd i'r holl ymarferwyr sawl un o'r wyth modiwl hyfforddi yr oeddent wedi'u cwblhau. Am ryw reswm, nifer eithriadol o isel o athrawon Blwyddyn 1 oedd wedi dilyn y modiwlau[9]. Ond canfu'r gwerthusiad fod tua 50% o'r holl athrawon eraill a thua 30% o'r holl ymarferwyr ychwanegol wedi cwblhau pob un o'r wyth modiwl.

2.44 Yn lleoliadau nas cynhelir a ariennir yr astudiaeth achos, canfu'r gwerthusiad fod oddeutu 61% o'r holl ymarferwyr a 100% o'r ymarferwyr arweiniol/rheolwyr wedi adrodd eu bod wedi cwblhau pob un o'r wyth modiwl.

2.45 Mae'r gwerthusiad wedi nodi'n flaenorol (Maynard *et al.* 2013) nad oedd unrhyw dargedau wedi'u gosod ar gyfer cwblhau'r modiwlau hyfforddiant cenedlaethol hyn. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chasglu'n genedlaethol ar y defnydd arnynt ychwaith. Gallai hyn fod yn bwysig iawn os bydd cyfraddau cyfranogiad yn y modiwlau hyfforddiant yn dechrau dirywio.

[9] Ar adeg yr arolwg. Wrth gwrs, gallai athrawon addysgu grwpiau oedran gwahanol o un flwyddyn i'r llall.

2.46 Mae bodlonrwydd cyffredinol ar y modiwlau hyfforddiant a’r deunyddiau arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, er engraifft.

*“Hapus iawn gyda’r gweithrediad pan ddechreuom ni'r cyfnod Sylfaen. Mae hyfforddiant wedi bod yn addysgiadol pob tro, a chefnogaeth o Gynghorwyr y Cyfnod Sylfaen, ayb. Wedi bod yn dda iawn”* (Ymateb o’r holiadur i ymarferwyr blaenorol nas cynhelir a ariennir)

2.47 Mae ymatebion i’r holiadur cenedlaethol yn dangos bod dim ond 27% o brif athrawon ysgolion a 14% o ymarferwyr blaenorol nas cynhelir a ariennir eu bod yn credu bod angen i’r deunyddiau hyfforddiant gael eu newid, yn adlewyrchu bodlondeb cyffredinol gyda hyn. Fodd bynnag, mae’r lleuafrif o ymatebwyr anfodlon yn aml yn critigol yn ei asesiad o’r dogfennau arweiniad a hyfforddi.

2.48 Er engraifft, mae’r lleuafrif yma wedi sylwi bod y dogfennau cyfarwyddyd yn rhy hir, bod gormod o llyfrynau, a ei fod nhw yn aml yn cyrraedd yn rhy hwyr i caniatáu ymarferwyr y cyfle i cyfarwyddo ei hyn gyda’r defnydd neu i ymgorffori nhw mewn i’w weithgareddau.

*“Rydw i’n meddwl bod y cefnogaeth a defnydd sydd wedi darparu yn llethol. Roedd o’n bwrw glaw gyda’r Cyfnod Sylfaen am misoedd. Mi fydda un neu dau lyfryn yn well”* (Prif athro astudiaeth achos)

2.49 Mewn cyfweliadau â staff yn ysgolion a lleoliadau’r astudiaeth achos, roedd y rhesymau dros hyn yn amrywio yn ôl y math o ymarferwyr. Er enghraifft, cyfeiriodd athrawon yn aml at amwysedd yr arweiniad a roddwyd, yn enwedig o ran y derminoleg a ddefnyddiwyd drwy gydol y dogfennau; pryder a amlygwyd gan y gwerthusiad yn flaenorol (Maynard *et al.* 2012). Mae enghraifft benodol iawn o hyn yn ymwneud â dealltwriaeth, pwysigrwydd a lle ‘chwarae’ yn neunyddiau arweiniad y Cyfnod Sylfaen. Amlygwyd pryderon tebyg ynglŷn â

therminoleg ddryslyd yn y gwerthusiad o’r peilot gan Siraj-Blatchford *et al.* (2005).

2.50 Awgrymodd y rhan fwyaf o Gynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol a rhai penaethiaid mai amwysedd neu ddryswch ynghylch nodweddion addysgol neu dermau allweddol y Cyfnod Sylfaen yn y deunyddiau hyfforddiant ac arweiniad hyn sy’n aml yn gyfrifol am roi’r argraff bod amrywiad sylweddol o ran gweithredu’r Cyfnod Sylfaen rhwng lleoliadau, ysgolion ac ystafelloedd dosbarth.

2.51 Ceir teimlad cyffredinol o bryder o hyd ymhlith ymarferwyr yn ysgolion a lleoliadau’r astudiaeth achos, ac maent yn teimlo’n ansicr ynglŷn â’u dealltwriaeth o’r Cyfnod Sylfaen ac felly sut i’w roi ar waith. Ceir galwad amlwg am arweiniad mwy strwythuredig a mynych sydd wedi’i deilwra’n benodol.

2.52 Roedd penaethiaid, ar y llaw arall, yn tueddu i ganolbwyntio eu beirniadaeth o’r deunyddiau arweiniad ar yr hyn yr oeddent yn eu hystyried yn ‘negeseuon cymysg’ yn y Cyfnod Sylfaen a datblygiadau polisi eraill,

*“Mae’r negeseuon gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn anghyson, sydd wedi golygu negeseuon cymysg gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyfforddiant wedi newid drwyddo draw, ac mae staff wedi drysu ac yn teimlo’n ddigalon o ganlyniad”* (Pennaeth un o ysgolion yr astudiaeth achos).

2.53 Ceir cysylltiad cryf rhwng y safbwynt hwn a phryderon a fynegwyd gan lawer o Gynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol, penaethiaid ac ymarferwyr ynglŷn â’r flaenoriaeth a’r pwyslais o’r newydd ar sgiliau sylfaenol trwy gyflwyno’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Roedd llawer yn credu y dylai deunyddiau hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen adlewyrchu’r pwyslais newydd hwn neu

o leiaf ddangos yn fwy penodol sut mae egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn gymesur â’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd[10].

2.54 Mae’r gwerthusiad yn canfod bod hyn yn gysylltiedig, i ryw raddau, â chanran ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion yr astudiaeth achos a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ychwanegol neu barhaus yn ymwneud â’r Cyfnod Sylfaen. Er bod tua 47% o athrawon mewn dosbarthiadau Meithrin neu Dderbyn yn parhau i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol o’r fath, dim ond tua 13% o athrawon o dosbarthiadau Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2 sy’n gwneud hyn. Mae’n bosibl bod y gyfradd sylweddol is hon o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y Cyfnod Sylfaen ymhlith athrawon yn y grwpiau oedran hŷn yn amlygu newid yn eu blaenoriaethau a’u hagweddau, ni waeth pa un a yw hynny’n angenrheidiol neu wedi’i fwriadu.

2.55 Yn olaf, mae’r rhan fwyaf o Gynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol a Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth (SHCh) y Cyfnod Sylfaen yn dweud pa mor ddefnyddiol yw’r Athrawon Cyswllt 0.1 CALl yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Yn arbennig, maent yn nodi eu bod yn rhoi cymorth y mae mawr angen amdano i ymarferwyr yn y lleoliadau hynny lle y mae’n anodd iddynt fynychu gweithgareddau hyfforddi eraill. Mae adnoddau o fewn y Cymhorthdal Cyfnod Sylfaen i orchuddio rhyddhad staff i fyned digwyddiadau hyfforddi yn ymddangos fel ei fod heb arwain ymlaen i leoliad nas cynhelir a ariennir.

2.56 Yn ogystal, mae rhai ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn dweud nad oedd lefel y cymorth cychwynnol a gawsant o’i lywodraeth lleol yn ddigonol yn gyffredinol, ond eu bod yn elwa’n fawr ar yr Athro Cyswllt 0.1 CALl.


---

[10] Mae’r Cyfnod Sylfaen wedi adlewyrchu yn barod yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Llywodraeth Cymru 2013a). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr nail ai yn anymwybodol o hyn neu yn cael trafferth rhoi'r arweiniad mewn i weithrediad.

**Amgylchedd yr Ysgol**

2.57 Mae'r elfen allweddol olaf i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn ymwneud nid yn unig â mwy o bwyslais ar yr amgylchedd awyr agored mewn addysgu a dysgu (gweler pennod 3), ond hefyd yr adnoddau ychwanegol i ysgolion ddatblygu eu hamgylcheddau dysgu awyr agored a dan do. Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o ychydig yn llai na £36 miliwn o grantiau cyfalaf ychwanegol rhwng 2004-05 a 2011-12[11] (Ffigur 8).

**Ffigur 8. Cyllideb Cyfalaf y Cyfnod Sylfaen, 2004-05 i 2011-12**




Ffynhonnell data: Llywodraeth Cymru

2.58 Sicrhawyd bod cyllideb cyfalaf y Cyfnod Sylfaen ar gael i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, yn gyffredinol ar gyfer datblygu darpariaeth awyr agored, mynediad i'r awyr agored, ffensys a newidiadau mewnol eraill.

[11] O 2012-13, trosglwyddwyd y Grant Cyfalaf i Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif. Er nad yw'n benodol ar gyfer datblygiadau cyfalaf y Cyfnod Sylfaen, mae gwariant ychwanegol yn y maes hwn yn dal i fod yn bosibl.

2.59 O ran ysgolion a lleoliadau'r astudiaeth achos, dyma'r pedair prif ffordd y maent wedi newid eu hamgylcheddau:

i. Creu neu gynyddu nifer y 'parthau dysgu' mewn ystafelloedd dosbarth;
ii. Mwy o hygyrchedd rhwng ystafelloedd dosbarth a'r awyr agored;
iii. Darparu mwy o adnoddau dysgu yn yr amgylchedd awyr agored; a
iv. Chreu (mwy o) amgylcheddau awyr agored pob tywydd.

2.60 Lle'r oedd hygyrchedd rhwng ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen a'r amgylchedd awyr agored yn anodd yn adeileddol, roedd hyn yn aml yn golygu y bu'n rhaid i ysgolion wneud gwaith ad-drefnu ffisegol mawr yn eu hysgolion.

2.61 Yn yr un modd, lle mae rhai ysgolion a lleoliadau wedi'u cyfyngu o ran faint o le sydd ar gael y tu allan, yn hytrach na gwneud newidiadau i'w hamgylchedd, maent yn aml yn sicrhau bod ganddynt fwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol (fel cludiant i ysgolion coedwig neu ddillad addas i blant er mwyn iddynt allu treulio cyfnod hirach oddi ar safle'r ysgol).

2.62 Dywedodd y penaethiaid a ymatebodd i'r arolwg fod eu hysgolion wedi gwario, ar gyfartaledd, £15,000 ar ddatblygu eu hamgylchedd dan do a £18,000 ar ddatblygu eu hamgylcheddau awyr agored. Dywedodd ymarferwyr arweiniol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir eu bod wedi gwario, ar gyfartaledd, £3,000 ar amgylcheddau dan do a £3,500 ar amgylcheddau awyr agored. Yn y ddau fath o leoliad, roedd dosbarthiad tebyg o wariant cyfalaf rhwng datblygiadau dan do ac awyr agored.

2.63 Mae tua 1,300 o ysgolion cynradd a 750 o leoliadau nas cynhelir a ariennir yng Nghymru. Os yw'r arolwg yn gynrychioliadol o'r holl ysgolion a lleoliadau, byddai hyn yn awgrymu bod cyfanswm y gwariant cyfalaf yn agos at £43 miliwn mewn ysgolion ac yn agos at

£5 miliwn mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Amcangyfrifir bod cyfanswm o £48 miliwn wedi'i wario ar ddatblygiadau cyfalaf - £12 miliwn yn fwy nag a ddarparwyd mewn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru[12].

2.64 Yn wahanol i'r adnodd ychwanegol ar gyfer staffio, byddai cost wirioneddol newid yr amgylchedd ffisegol ar gyfer ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn llawer anoddach i'w amcangyfrif. Er bod arweiniad ar sut i wneud newidiadau a gwella mannau awyr agored ar gyfer dysgu a chwarae ni chafodd y rhain ei chyfeirio ato gan benaethiaid neu rheolwyr lleoliad. Yn ogystal, nid yw'n ymddangos bod unrhyw arweiniad manwl wedi'i ddarparu a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwariant cyfalaf a dderbyniodd ysgolion a lleoliadau i wella eu hamgylcheddau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

2.65 O ystyried y diffyg ymddangosiadol mewn cyllidebau cyfalaf a nodwyd a'r ansicrwydd ynglŷn â pha newidiadau oedd eu hangen i'r amgylchedd, nid yw'n syndod bod y maes gweithredu hwn wedi tueddu i ddenu'r feirniadaeth fwyaf, fel y mae'r tri phennaeth hyn yn dangos,

*"Nid oedd ein hysgol yn barod yn ffisegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen – yn enwedig yr ardal awyr agored. Roedd goblygiadau cost mawr yn gysylltiedig â darparu ardal awyr agored, cyfleusterau cegin a man storio digonol. Roedd y cyllid ychwanegol ar gyfer cymarebau staffio yn ddigonol yn unig ac roedd y grant ychwanegol ar gyfer adnoddau yn ddefnyddiol iawn – ond nid yn agos at fod yn ddigon i ddarparu offer mawr"* (Pennaeth un o ysgolion yr astudiaeth achos);

[12] Wrth gwrs, mae hyn yn dibynnu ar y ffaith bod gwybodaeth gywir wedi'i darparu yn yr arolygon a bod yr ymatebwyr yn gynrychioliadol o'r holl ysgolion a lleoliadau yng Nghymru. Fodd bynnag, ni chanfyddwn unrhyw dystiolaeth o duedd systematig yn yr ymateb i'r arolwg yn seiliedig ar fath, maint, iaith, cyfansoddiad derbyn neu leoliad ysgol.

*“Mae cyllid ar gyfer ardaloedd awyr agored yn anodd er mwyn bodloni’r ddarpariaeth ar gyfer dosbarth awyr agored, ar ben costau staffio”* (Pennaeth un o ysgolion yr astudiaeth achos); ac

*“Mae gweithredu’r Cyfnod Sylfaen wedi gweithio’n dda yn ein hysgol. Mae problemau sydd wedi codi yn ymwneud â mynediad i’r awyr agored, maint ystafelloedd dosbarth ac ati, h.y. adeiladwaith ein hadeilad ysgol, nid cynnwys y Cyfnod Sylfaen ei hun”* (Pennaeth un o ysgolion yr astudiaeth achos).

2.66 Codwyd pryderon tebyg mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir,

*“Rydym ni’n lleoliad preifat a bu’n anodd ariannu ar gyfer rhai adnoddau gan fod yn rhaid i ni brynu pethau ein hunain. Mae’r ardd (h.y. adnoddau ffisegol – beiciau/fframiau dringo) yn ddrud, ac mae adnoddau amlddiwylliannol yn cyflwyno her hefyd.”* (Ymarferydd arweiniol un o leoliadau nas cynhelir a ariennir yr astudiaeth achos)

2.67 Er hynny, wrth ymateb i’r arolwg cenedlaethol, dywedodd bron pob pennaeth a 90% o ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir y bu rhywfaint o newid i’w hamgylcheddau dan do ac awyr agored. Yn arbennig, dywedodd 69% o benaethiaid y bu ‘newid mawr’ i’w hamgylcheddau awyr agored, fel y mae pennaeth yr ysgol Gymraeg hon o’r astudiaeth achos yn nodi,

*“…addasu’r ystafelloedd dosbarth i greu ardaloedd ‘Cyfnod Sylfaen’; prynu adnoddau hanfodol i ddatblygu sgiliau yn y meysydd dysgu. Gwariwyd llawer o arian ar ddatblygu’r ardal awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen e.e. offer ffisegol mawr, tŷ chwarae, offer tywod a dŵr a ffrâm ddringo”* (Pennaeth un o ysgolion yr astudiaeth achos).

2.68 Mae lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn adrodd y bu ychydig yn llai o newid i’w hamgylcheddau dan do ac awyr agored, gan adlewyrchu’r ffaith nad yw llawer o’r lleoliadau hyn yn berchen ar eu safleoedd neu

fod yn rhaid iddynt rannu eu safleoedd gyda defnyddwyr eraill (e.e. lleoliadau 'rhoi o'r neilltu').

**Materion yn ymwneud â Gweithredu**

2.69 Yn gyffredinol, roedd penaethiaid ac ymarferwyr arweiniol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn fodlon iawn ar weithrediad y Cyfnod Sylfaen yn eu lleoliadau. Ar raddfa o 1 (anfodlon) i 6 (cwbl fodlon), rhoddodd 70% o benaethiaid sgôr o 5 neu 6. Dim ond 3% o benaethiaid a awgrymodd sgôr o lai na 3 ar gyfer pa mor fodlon yr oeddent ar weithrediad eu hysgol o'r Cyfnod Sylfaen.

2.70 Mae lefel bodlonrwydd penaethiaid ac ymarferwyr arweiniol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ynglŷn â gweithrediad y Cyfnod Sylfaen wedi'i chysylltu'n agos â'u brwdfrydedd drosto. Er hynny, dim ond 9% o benaethiaid ac ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir a ddywedodd y byddent yn newid sut y gweithredwyd y Cyfnod Sylfaen yn eu lleoliadau.

2.71 Mae hyn yn cyferbynnu ychydig â'r lefelau bodlonrwydd ar y deunyddiau arweiniad (neu'r diffyg deunyddiau arweiniad mewn rhai achosion) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn hyn o beth, awgrymodd 40% o benaethiaid fod angen i'r cymorth a'r deunyddiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru gael eu newid. Dywedodd 26% o benaethiaid hefyd y byddent yn hoffi gweld hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen yn cael ei newid.

2.72 Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr arweiniol yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn fwy bodlon ar y deunyddiau arweiniad a'r hyfforddiant a gawsant, ond roedd lleiafrif nodedig (18%) ohonynt hwy hyd yn oed wedi dweud yr hoffent weld deunyddiau arweiniad Llywodraeth Cymru yn cael eu newid a hoffai 14% weld yr hyfforddiant yn cael ei newid.

2.73 Ond mae'r prif bryder ynglŷn â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â chyllid. Dywedodd 46% o ymarferwyr arweiniol yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir a 43% o benaethiaid ysgolion nad oedd y cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn ddigonol.

2.74 Mewn perthynas i cymarebau oedolyn:plant argymelledig, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'i ragflaenydd, hyn yn oed wrth ystyried nad yw'r cymarebau oedolyn:plant argymelledig yn cael eu bodloni bob tro a bod beirniadaeth am y diffyg ariannu i gwrdd â'r cymarebau argymell.

2.75 Yn hytrach, roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn ymwneud ag ariannu cost adnoddau dysgu newydd a/neu welliannau ffisegol i'r amgylcheddau dysgu (dan do ac awyr agored).

2.76 I rai ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, mae'r mater hwn yn ymwneud â chyfyngiadau eu hadeiladau a'u safleoedd presennol (e.e. adeiladau ysgol Fictoraidd rhestredig, diffyg lle y tu allan, safle a rennir). Ond y farn bennaf ymhlith llawer o rai eraill yw bod angen mwy o gyllid arnynt i greu'r hyn y maent yn ystyried yw'r amgylchedd dysgu priodol a'r nifer briodol o adnoddau dysgu i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol[13].

2.77 Mae materion eraill yn ymwneud â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys pa mor barod oedd ysgolion Peilot a Dechrau'n Gynnar, lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ymarferwyr i allu cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Er bod ysgolion a lleoliadau Peilot yn rhan annatod o ddatblygu llawer o'r adnoddau hyn, roedd llawer o'r rhai hynny a fu'n rhan o'r cam Dechrau'n Gynnar hefyd yn teimlo eu bod heb baratoi'n ddigonol.

2.78 Mae mater arall yn ymwneud â faint o arweiniad a gafodd penaethiaid, yn arbennig, i'w helpu i weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

[13] Mae'n anodd gwybod i ba raddau y mae'r pryderon hyn ynglŷn â lefelau cyllid yn ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen yn benodol yn hytrach â phryderon cyffredinol ynglŷn â lefelau cyllid addysgol mewn ysgolion cynradd.

Nododd ystod eang o randdeiliaid nad oes modiwl hyfforddi penodol ar gyfer penaethiaid.

2.79 Yn yr un modd, codir pryderon ynghylch y ffaith mai ychydig o athrawon Blwyddyn 3 (neu athrawon CA2 yn gyffredinol) sydd wedi cymryd rhan yn hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen, a allai achosi problemau wrth i ddisgyblion bontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 (gweler pennod 4).

2.80 Mae mater arall o ran gweithredu yn ymwneud â rôl rhieni/gofalwyr yn y Cyfnod Sylfaen. Un o nodau allweddol y Cyfnod Sylfaen yw cynnwys rhieni/gofalwyr mwy ym mhrofiad addysgol plant ifanc, ac mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu partneriaethau cadarnhaol â rhieni/gofalwyr.

2.81 Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd i ddangos bod rhieni wedi bod yn ymwneud â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ar y cychwyn neu eu bod yn parhau i wneud hynny. Yn wir, dywedodd ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen, ar y cyfan, nad yw'r berthynas rhwng rhieni a'r ysgol wedi newid ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

2.82 Dywedodd y mwyafrif helaeth o rieni/gofalwyr eu bod yn fodlon ar y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, canfu arolwg y gwerthusiad o rieni/gofalwyr fod oddeutu traean o rieni/gofalwyr naill ai ddim yn gwybod beth yw'r Cyfnod Sylfaen a'r hyn y mae'n ceisio ei hyrwyddo, neu'n ymddangos fel petaent wedi cael gwybodaeth anghywir amdano. Mae 14% o rieni/gofalwyr hefyd yn honni nad ydynt wedi derbyn unrhyw wybodaeth am y Cyfnod Sylfaen o unrhyw ffynhonnell, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen yn benodol ar gyfer rhieni/gofalwyr[14].

[14] Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw 28 tudalen i rieni/gofalwyr o'r enw 'Sut mae fy mhlentyn yn datblygu yn y Cyfnod Sylfaen? Canllaw i rieni a gofalwyr' (2014).

# 3 Ymarfer y Cyfnod Sylfaen

3.1 Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyflwyno neu ymarfer y Cyfnod Sylfaen, gan edrych yn benodol ar sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei addysgu mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Mae'n cyflwyno canfyddiadau ar newidiadau mewn ymarfer addysgu, newidiadau i'r cwricwlwm, defnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen, rôl plant, rôl rhieni, defnyddio'r amgylchedd, a'i gyfraniad penodol at addysgu a dysgu'r Gymraeg, llythrennedd a rhifedd. Mae'r bennod yn dod i ben trwy amlygu'r prif faterion yn ymwneud ag ymarfer y Cyfnod Sylfaen sy'n deillio o'r gwerthusiad.

**Newidiadau mewn Ymarfer Addysgu**

3.2 Yn ôl Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol, grwpiau blwyddyn hŷn (e.e. Blwyddyn 2) a brofodd y 'newid' addysgol lleiaf yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Er bod grwpiau blwyddyn hŷn wedi profi rhywfaint o newid, roedd Cynghorwyr Awdurdodau Lleol o'r farn bod pwysau eraill (e.e. pontio i CA2, profion, cymarebau uwch) wedi atal unrhyw newid arwyddocaol yn ymarferol.

3.3 Credir bod newidiadau i ddosbarthiadau Derbyn yn fwy, gyda'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn dweud bod cynnydd mewn gweithgareddau cyfranogol a gweithgareddau dysgu trwy brofiad, mwy o ryddid a gweithgareddau awyr agored ac addysgeg lai ffurfiol.

3.4 Fodd bynnag, mae hyn mewn cyferbyniad amlwg â'r canfyddiad ymhlith llawer o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen a oedd o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at y newid mwyaf mewn dosbarthiadau Blwyddyn 2 (dywedodd 65% eu bod yn sylweddol wahanol) a'r newid lleiaf mewn dosbarthiadau Meithrin (dywedodd 46% mai ychydig iawn o wahaniaethau sydd yn y rhain) (Tabl 5).

3.5 Cefnogir y farn hon hefyd gan gyfweliadau ag ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion, a oedd yn credu bod cyferbyniad amlwg o ran pa mor wahanol yw'r Cyfnod Sylfaen, o gymharu â CA1, yn y grwpiau blwyddyn hŷn. I'r gwrthwyneb, roedd ymarferwyr meithrin yn aml yn nodi pa mor debyg yw'r Cyfnod Sylfaen i'r hyn yr oeddent eisoes yn ei wneud.

**Tabl 5. Gwahaniaethau Canfyddedig mewn Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen Ymhlith Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen* (o gymharu â Chwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1)**

| Lleoliad | Oedran/ blwyddyn | % yr ymatebion dilys: Sylweddol wahanol | % yr ymatebion dilys: Rhai gwahaniaethau | % yr ymatebion dilys: Ychydig iawn o wahaniaeth | n (ymatebion dilys) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nas cynhelir a ariennir | 3 oed | 30.7 | 44.2 | 25.1 | 231 |
| | 4 oed | 27.4 | 46.3 | 26.2 | 164 |
| Ysgolion | Meithrin | 9.3 | 45.2 | 45.6 | 270 |
| | Derbyn | 15.6 | 56.5 | 27.9 | 308 |
| | Blwyddyn 1 | 56.8 | 40.0 | 3.2 | 310 |
| | Blwyddyn 2 | 64.9 | 31.2 | 3.9 | 308 |

* Lle nad oes ymarferydd arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol, byddai'r pennaeth wedi ateb y cwestiynau hyn.

3.6 Hefyd mewn cyferbyniad â barn Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol, roedd ymarferwyr arweiniol nas cynhelir a ariennir yn tueddu i adrodd am fwy o newidiadau yn eu lleoliadau (ar gyfer plant tair a phedair oed) nag a adroddwyd gan ymarferwyr arweiniol ysgolion ar gyfer dosbarthiadau Meithrin yn eu hysgolion. Adroddodd 31% a 9%, yn ôl eu trefn, y bu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol (Tabl 5).

3.7 Nododd rhai ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir a meithrin fod rhai elfennau o'u hymarfer, e.e. arsylwi ac asesu, wedi dod yn fwy ffurfiol ers gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, ond teimlwyd yn gyffredinol

bod y Cyfnod Sylfaen yn debyg iawn i'w hymarfer blynyddoedd cynnar presennol.

3.8 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod newidiadau i ymarfer wedi bod yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau, agweddau a dehongliadau unigolion o'r Cyfnod Sylfaen yn hytrach na ffactorau strwythurol neu systematig ehangach.

**Newidiadau i'r Cwricwlwm**

3.9 Roedd dros ddwy ran o dair o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn credu bod cwricwlwm newydd y Cyfnod Sylfaen a'r Meysydd Dysgu cysylltiedig yn welliant ar Gwricwlwm Cenedlaethol blaenorol Cyfnod Allweddol 1.

3.10 Mae Tabl 6 yn manylu ar ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion ar gyfer pob Maes Dysgu. Ceir canlyniadau tebyg iawn (nad ydynt wedi'u cyflwyno) ar gyfer ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir wrth gymharu â'r Canlyniadau Dymunol a'u rhagflaenodd.

3.11 Ystyriwyd mai un o'r prif welliannau i'r cwricwlwm o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen oedd ym maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, lle y dywedodd 51% o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen fod hyn yn welliant sylweddol. Roedd y gwelliant yr adroddwyd arno leiaf yn ymwneud â Datblygu'r Gymraeg, lle y dywedodd 32% o'r ymatebwyr nad yw'r Cyfnod Sylfaen yn wahanol nac yn waeth.

3.12 Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn credu bod y Cyfnod Sylfaen wedi golygu o leiaf rywfaint o welliant yn y Meysydd Dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' o gymharu â'u rhagflaenwyr.

**Tabl 6. Canfyddiadau o'r Cwricwlwm (gan Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion)**

| Meysydd Dysgu | % yr ymatebion dilys ymhlith ysgolion | | | | n (ymatebion dilys) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwelliant ar CA1 | | Dim gwahaniaeth o CA1 | Gwaeth na CA1 | |
| | Sylweddol | Ychydig | | | |
| DPChLIADd | 50.9 | 38.5 | 9.9 | 0.6 | 322 |
| DCr | 38.7 | 44.9 | 15.2 | 1.2 | 323 |
| DCo | 28.2 | 46.7 | 24.8 | 0.3 | 322 |
| GDB | 27.6 | 46.9 | 19.3 | 6.2 | 322 |
| ILICh | 24.9 | 44.2 | 18.6 | 12.3 | 317 |
| DG | 23.1 | 44.6 | 28.3 | 3.9 | 307 |
| DM | 19.4 | 47.3 | 21.9 | 11.3 | 319 |

DPChLIADd – Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; DCr – Datblygiad Creadigol; DCo – Datblygiad Corfforol; GDB – Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd; ILICh – Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; DG – Datblygu'r Gymraeg; DM – Datblygiad Mathemategol.

3.13 Er bod ymarferwyr o'r farn gyffredinol bod y Meysydd Dysgu newydd yn welliant ar Gyfnod Allweddol 1, dywedodd tua 34% eu bod yn credu bod rhai elfennau 'da' wedi'u 'colli', sef y pwyslais ar wyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth.

3.14 Roedd ymarferwyr o leoliadau nas cynhelir a ariennir yn rhannu pryderon tebyg ynglŷn â'r diffyg sylw a roddir i ysgrifennu, gwyddoniaeth a rhifedd. Ond, yn gyffredinol, yn wahanol i ymarferwyr mewn ysgolion, dywedodd 88% nad ydynt yn credu bod unrhyw beth 'da' wedi'i 'golli' trwy weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

3.15 Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr o ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir wedi dweud ei fod yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn rhy eang weithiau, a allai esbonio pam yr ydynt yn teimlo bod rhai o'r pynciau mwy 'traddodiadol' wedi'u 'colli' yn y cwricwlwm newydd.

**Defnyddio Addysgeg y Cyfnod Sylfaen**

3.16 Nid yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar draws ysgolion yr astudiaeth achos yn amrywio'n sylweddol yn ôl yr ardal o Gymru, maint yr ysgol (nifer ar y gofrestr), ardal wledig neu drefol, na statws economaidd-gymdeithasol (yn seiliedig ar gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

3.17 Yn gyffredinol, ychydig o amrywiad a geir hefyd o ran sut y cyflwynir y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg a lleoliadau nas cynhelir a ariennir.


3.18 Fodd bynnag, datgelodd arsylwadau'r astudiaeth achos fod ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn amrywio'n sylweddol ar draws dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn, ysgolion a meysydd dysgu. Er enghraifft, mae Ffigur 9 yn dangos y berthynas rhwng faint o addysgeg y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddir mewn ystafelloedd dosbarth a'u grŵp blwyddyn[15]. Mae hyn yn dangos yn eglur bod y Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o lawer o gael ei ddefnyddio mewn grwpiau blwyddyn iau na grwpiau blwyddyn hŷn.

3.19 Rhoddir enghraifft o ysgol sy'n defnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar draws pob grŵp blwyddyn ym Blwch 2.

3.20 Yn gyffredinol, arsylwyd addysgeg ymarferol ac uniongyrchol yn aml. Ond, fel y mae Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol wedi adrodd (gweler 3.2), po hynaf y grŵp blwyddyn, y lleiaf aml yr oedd mathau eraill o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael eu harsylwi (e.e. dewis gan y plentyn, gweithgarwch corfforol, dysgu yn yr awyr agored, darpariaeth barhaus).

[15] Rhoddir sgôr i bob sesiwn ystafell ddosbarth a arsylwir sy'n dangos i ba raddau y defnyddir addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 9. Ymarfer y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion, yn ôl Grŵp Blwyddyn**




3.21 Yn gyffredinol, arsylwyd dewis gan y plentyn, darpariaeth barhaus/gwell a dysgu yn yr awyr agored yn lleiaf aml, ac arsylwyd lefel gymedrol yn unig o amrywiaeth parth dysgu, archwilio a gweithgarwch corfforol.

3.22 Gellir esbonio amrywiad mewn ymarfer yn rhannol gan agweddau staff tuag at y Cyfnod Sylfaen. Yn benodol, ceir cydberthynas gadarnhaol rhwng pa mor ffafriol y mae'r pennaeth ac ymarferydd arweiniol y Cyfnod Sylfaen tuag at y Cyfnod Sylfaen, a'r graddau y caiff ei weithredu.

3.23 Ceir cydberthynas hefyd rhwng y graddau y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu mewn ystafelloedd dosbarth (fel yr arsylwyd ac y mesurwyd gan y tîm gwerthuso) a phresenoldeb nifer uwch o ymarferwyr ychwanegol yn yr ystafelloedd dosbarth (h.y. cymarebau oedolyn:plant uwch).

**Blwch 2. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Cydbwysedd Gweithgareddau Parhaus, Gweithgareddau Gwell a Gweithgareddau â Ffocws**

**Ysgol #8**

Er bod adeilad yr ysgol yn hen, mae'r amgylchedd dysgu sydd ar gael i'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol hon yn fawr ac agored. Mae gan bob athro ystafell ddosbarth sy'n cysylltu ag ardal ganolog a rennir.

Am dri phrynhawn yr wythnos, mae uned y Blynyddoedd Cynnar (o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2) yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ar sail cylchdro. Rhoddir grŵp (sy'n cynnwys cymysgedd o blant o bob grŵp blwyddyn) i bob ymarferydd, a defnyddir yr ardal ddysgu gyfan (ystafelloedd dosbarth ac ardal ganolog), yn ogystal ag ardaloedd gorlif (e.e. y neuadd neu'r ystafell gyfrifiaduron). Mae pob oedolyn yn gyfrifol am dasg wahanol, y maent yn ei gweithredu ar gyfer pob sesiwn brynhawn (3 i gyd). Caiff y plant eu cylchdroi unwaith yng nghanol sesiwn y prynhawn (gyda phob plentyn yn cwblhau pob tasg erbyn diwedd yr wythnos).

Ceir cydbwysedd o dasgau â ffocws, tasgau gwell a thasgau parhaus. Mae'r athrawon fel arfer yn canolbwyntio ar dasgau datblygu neu asesu â ffocws yn seiliedig ar lythrennedd neu rifedd, tra bod yr ymarferwyr ychwanegol yn canolbwyntio ar dasgau mwy thematig. Er enghraifft, y thema ar gyfer y tymor oedd Cymru, felly roedd *tasgau â ffocws* lle y gallai'r plant baratoi a choginio pice ar y maen neu greu eu dawns werin eu hunain. Roedd *tasgau gwell* lle y gallai'r plant geisio dod o hyd i luniau o gennin o'r un maint yn y tywod. Yn olaf, roedd *gweithgareddau parhaus* lle y gallai'r plant chwarae rôl yn y caffi Cymreig.

Ymdrinnir â phob Maes Dysgu o leiaf unwaith a datblygir y mathau o weithgareddau bob amser gan ddefnyddio 'tybiau siarad' gyda'r plant cyn cynllunio cylchred bythefnosol.

3.24 Roedd mwyafrif helaeth (78%) y gweithgareddau a gofnodwyd trwy arsylwadau ystafell ddosbarth wedi'u dechrau gan oedolion. Roedd trafodaethau ag ymarferwyr yn awgrymu bod rhai athrawon yn 'ofni' ymadael ag addysgeg ffurfiol draddodiadol CA1, gan bryderu y gallai'r Cyfnod Sylfaen arwain at ostyngiad mewn safonau petaent yn gwneud hynny.

3.25 Dywedodd llawer o ysgolion fod eu hymagwedd at y Cyfnod Sylfaen yn 'esblygu', yn enwedig of fewn dosbarthau Flwyddyn 2. Roedd hyn yn aml yn cynnwys (ail)gyflwyno sesiynau llythrennedd a rhifedd ffurfiol yn y bore er mwyn sicrhau bod plant yn gallu gwneud yn dda yn y profion darllen a rhifedd a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Blwyddyn 2.

3.26 Yn gyffredinol, arsylwyd darpariaeth â ffocws dan gyfarwyddyd oedolyn yn amlach o lawer na darpariaeth barhaus a gwell dan gyfarwyddyd plentyn, er gwaethaf arweiniad y Cyfnod Sylfaen ar hyn. Arsylwyd plant yn cydweithio â'u cyfoedion yn fwy aml yn ystod darpariaeth barhaus a gwell, ac arsylwyd cyd-greu a rhyngweithio cynaliadwy rhwng oedolion a phlant yn fwy aml yn ystod darpariaeth well.

3.27 Yn unol â'r defnydd llai aml o addysgeg y Cyfnod Sylfaen mewn grwpiau blwyddyn hŷn, mae'r defnydd o addysgu dosbarth cyfan traddodiadol wrth ddesgiau a darpariaeth â ffocws a ddechreuir gan oedolion yn parhau i fod yn gyffredin yn y grwpiau blwyddyn hŷn. Yr unig faes addysgeg y Cyfnod Sylfaen i gynyddu ar draws y grwpiau blwyddyn oedd myfyrio, yn aml oherwydd bod athrawon yn tybio bod plant hŷn yn gallu adolygu a myfyrio ar eu profiadau dysgu yn well.

**Rôl Plant yn y Cyfnod Sylfaen**

3.28 Un o brif nodau'r Cyfnod Sylfaen yw y dylai plant gymryd cyfrifoldeb am eu profiadau dysgu trwy, er enghraifft, gymryd rhan mewn cynllunio gweithgareddau a chyflawni rôl fwy cyfranogol yn yr ystafell ddosbarth.

3.29 O arsylwadau'r astudiaeth achos, roedd plant yn aml yn ymwneud â rhedeg y Cyfnod Sylfaen o ddydd i ddydd trwy rolau/cyfrifoldebau dyddiol a chynllunio ar y cyd. Er engraifft, roedd yn gyffredin gweld plant yn casglu gwybodaeth am giniawau poeth a helpu'r athro gyda'r

gofrestr. Roedd staff yn frwdfrydig ynghylch gweithgareddau o’r fath gan eu bod yn credu eu bod yn helpu plant i deimlo’n ‘rhan o’r broses’ a datblygu ymdeimlad o ‘berthyn’ i’r ystafell ddosbarth.

3.30 Ar y cyfan, roedd dysgu hyfforddwyd gan oedolyn yn cael ei weld yn fwy aml na dysgu wedi hyfforddi gan blant yn ddosbarthiadau a safleoedd astudiaeth achos. Fodd bynnag, o drafodaethau gyda phlant ym Mlynyddoedd 1 a 2, mae’n amlwg bod faint o ddewis a roddir i blant yn amrywio’n sylweddol o ddosbarth i ddosbarth ac o ysgol i ysgol. Er enghraifft, cyfeiriodd rhai plant at ddewis fel rhywbeth sy’n digwydd pan fyddant yn gorffen y gwaith a roddwyd iddynt yn unig, tra bod eraill yn sôn am adegau rheolaidd yn ystod y dydd a elwir yn ‘amser euraid’ pryd y cânt y rhyddid i gychwyn a chyfarwyddo eu dysgu (a ‘chwarae’ fel yr oeddent yn ei ddisgrifio’n aml).

3.31 O ddadansoddi’r data o’r teithiau o amgylch ystafelloedd dosbarth Blwyddyn 1, gwelir bod ‘heriau’ addysgol penodedig (a leolir yn aml mewn gwahanol rannau o ddarpariaeth well yr ystafell ddosbarth) yn gallu gweithio’n dda. Yn wir, mae’r data’n awgrymu, pan fydd plant yn cael digon o amser i ymgysylltu â heriau o’r fath, eu bod yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud ac yn frwdfrydig ynglŷn â’r gweithgareddau.

3.32 Adroddodd pum deg saith y cant o’r athrawon a arsylwyd gennym eu bod yn gwneud cryn dipyn o ymdrech i gynnwys plant wrth gynllunio. Er enghraifft, roeddent yn gadael i blant benderfynu ar bynciau/themâu eu hunain a chynnal mapiau meddwl a thybiau trafod ar ddechrau pynciau/themâu er mwyn archwilio i ba gyfeiriad yr hoffai plant fynd â’r thema (gweler Blwch 3 am enghraifft o hyn).

**Blwch 3. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Cynnwys Disgyblion wrth Gynllunio Gwersi**

**Ysgol #13**
Ar ddiwedd pob tymor yn yr ysgol hon, rhoddir cyfle i'r plant ddod ag un eitem o gartref yr hoffent siarad amdani. Rhoddir yr eitemau hyn yn y 'twb trafod' a, thrwy gydol wythnos olaf y tymor, neilltuir amser ar ddiwedd pob dydd i grŵp o blant siarad am eu heitem. Ar y diwrnod olaf, neilltuir y sesiwn brynhawn gyfan i'r gweithgaredd hwn; mae'r athro'n rhannu'r eitemau yn grwpiau themâu cyffredinol, ac yn cyflwyno pleidlais, gyda'r un a gaiff y nifer fwyaf o bleidleisiau'n cael ei ddewis yn thema ar gyfer y tymor nesaf. Ar ôl cyhoeddi canlyniad y bleidlais, anogir y plant i feddwl am yr hyn yr hoffent ei ddarganfod a'i ddysgu am y thema benodol a ddewiswyd.

Er enghraifft, y thema fuddugol yn y dosbarth a arsylwyd oedd 'Archarwyr'. Rhennir y plant yn grwpiau bach, gydag ymarferydd ychwanegol neu athro yn gweithredu fel ysgrifennydd ar gyfer pob un ohonynt, ac fe'u hanogir i greu map meddwl o syniadau am y thema ar ddarn mawr o bapur. Roedd rhai plant yn rhestru'r holl archarwyr yr oeddent yn gwybod amdanynt, a dywedodd yr athro y gallai'r rhain fod yn enwau grwpiau ar gyfer y tymor nesaf. Roedd grŵp arall o blant yn credu y byddai'n dda petaent yn gallu creu eu harcharwyr eu hunain ac ysgrifennu proffil arnynt fel ymarfer ysgrifennu. Roedd grŵp arall eisiau i'r ardal chwarae rôl gynnwys gwisgoedd archarwyr, ac roedd un arall eisiau creu gwahanol arddangosiadau wal i gynrychioli gwahanol bwerau archarwyr.

Pwysleisiodd yr athro y byddai'r rhan fwyaf o'r syniadau a gasglwyd yn cael eu defnyddio wrth gynllunio ar gyfer y tymor nesaf. Dewiswyd thema sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn ennyn diddordeb y dosbarth, ac oherwydd bod y thema wedi'i chyfateb i feysydd dysgu a nodau cyrhaeddiad presennol, gallai'r athro sicrhau y bydd y plant yn llwyddo'n academaidd hefyd.

3.33 Adroddodd ychydig dros un o bob pump eu bod yn gwneud ymdrech gyson (ond llai manwl/ystyrlon) i gynnwys plant wrth gynllunio gwersi. Er enghraifft, gwneud gwaith dilynol ar syniadau plant wrth iddynt godi os yw'n bosibl. Ond, i'r gwrthwyneb, nid oedd y chwarter o athrawon a oedd yn weddill ac a gafodd eu cyfweld yn gwneud llawer o ymdrech i gynnwys plant wrth gynllunio gwersi, neu ddim ymdrech o gwbl i wneud hynny. Weithiau, mae hyn oherwydd nad ydynt yn gweld llawer o werth iddo, neu oherwydd eu bod yn ei chael hi'n

anodd neilltuo amser neu ffyrdd o'i gyfateb i'w themâu a bennwyd o flaen llaw.

3.34 Ymarferwyr nas cynhelir a ariennir a adroddodd am gynnwys plant fwyaf wrth gynllunio, ac ymarferwyr dosbarthiadau Meithrin a adroddodd am gynnwys plant leiaf wrth gynllunio (gan ddweud yn aml eu bod yn credu bod y plant yn rhy ifanc). Mae cyfraddau cyfranogiad yn debyg mewn dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

3.35 Dywedodd llawer o athrawon ei bod yn bosibl cyfateb sgiliau ac amrediadau'r Cyfnod Sylfaen i'r rhan fwyaf o themâu, ac felly roeddent yn croesawu diddordebau plant i'r ystafell ddosbarth, tra bod eraill yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi gan gwricwlwm 'rhagnodedig'.

**Rôl Rhieni yn y Cyfnod Sylfaen**

3.36 Yn anaml iawn yr arsylwyd neu y dywedwyd bod rhieni/gofalwyr yn ymwneud â rhedeg y Cyfnod Sylfaen o ddydd i ddydd. Dim ond mewn lleiafrif bach o'r ysgolion yn yr astudiaeth achos a welsom neu a glywsom am wirfoddolwyr sy'n rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, pan fo hyn yn digwydd, mae staff addysgu'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'r rôl y gall gwirfoddolwyr o'r fath ei chwarae wrth gefnogi gweithgareddau'r ystafell ddosbarth a dysgu'r plant. Rhoddir enghraifft o hyn ym Blwch 4.

3.37 Mewn lleiafrif o'r ysgolion yn yr astudiaeth achos, roedd rhai aelodau staff yn gwahodd rhieni/gofalwyr i ymuno â'r plant a'r staff wrth osod themâu/gweithgareddau ar gyfer y tymor nesaf. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd hyn yn anghyffredin ac mae ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen o'r farn gyffredinol nad yw'r berthynas rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr wedi newid llawer (os o gwbl) o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen, er gwaethaf arweiniad gan Lywodraeth Cymru sy'n pwysleisio ei bwysigrwydd.

**Blwch 4. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Ymgysylltu â Rhieni**

**Ysgol #15**
Y thema bresennol ar gyfer Blwyddyn 2 yw Uganda. Yn gynharach y diwrnod hwnnw, roedd y plant wedi bod yn ymateb i'r gofrestr yn Swahili yn hytrach na Chymraeg, yn ogystal â chael trafodaeth gyda'u hathro ynglŷn â stori am fywydau dyddiol plant yn Uganda. Roedd hyn wedi arwain at weithgareddau llythrennedd a rhifedd yn seiliedig ar y pwnc.

Trwy fap meddwl cychwynnol a grëwyd ar ddechrau'r thema gyda chyfranogiad y plant, aeth yr athro ati i ddilyn awgrym y plant o gynnwys rhieni mewn gweithgareddau thematig. Felly, ar gyfer sesiwn y prynhawn, daeth rhiant i ddangos i grwpiau o blant sut i wau. Roedd y plant wedi sylwi ar sut yr oedd teuluoedd yn Uganda yn gwneud llawer o'u dillad eu hunain, ac roeddent am gael gwybod mwy.

O ganlyniad, anfonwyd llythyrau adref gyda'r plant yn esbonio'r thema bresennol, ac roedd rhieni/gofalwyr yn gallu mynegi eu diddordeb a dweud pa fath o weithgareddau y gallent eu cynnal. Dangoswyd fideo o fywyd cartref plentyn yn Uganda ar ddechrau'r sesiwn brynhawn nesaf, ac roedd gan y plant gwestiynau i'r rhieni am wau a chreu dillad yn seiliedig ar yr hyn yr oeddent wedi'i weld. Roedd gan bob plentyn bâr o weill a gwlân, a rhoddwyd cyfarwyddyd penodol iddynt gan y rhiant ar sut i bwytho. Roedd sgwrsio cyson rhwng y plant a'r rhiant ynglŷn â sut i bwytho a rhoddwyd rhyddid i'r plant benderfynu beth i'w wau.

Trefnwyd i'r gweithgaredd barhau unwaith yr wythnos tan ddiwedd y thema, ac erbyn hynny bwriadwyd y byddai pob plentyn wedi gwau darn gwlân a fyddai'n ffurfio arddangosfa ystafell ddosbarth.

3.38 Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion naill ai fod y berthynas â rhieni/gofalwyr wastad wedi bod yn anodd ac yn parhau i fod felly, neu wastad wedi bod yn dda ac yn parhau i fod felly.

**Defnyddio'r Amgylchedd yn y Cyfnod Sylfaen**

3.39 Fel yr adroddwyd yn y bennod flaenorol, mae gweithredu'r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at newid arwyddocaol yn yr amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored ar gyfer llawer o ysgolion/lleoliadau.

3.40 Oherwydd y pwyslais ar weithgareddau mwy uniongyrchol, archwiliol a gweithredol, mae ystafelloedd dosbarth wedi mabwysiadu ‘parthau dysgu’ yn aml i ganolbwyntio ar wahanol themâu o gymharu â gosodiad bwrdd a chadeiriau mwy traddodiadol, er enghraifft. Roedd cynnydd sylweddol yn y defnydd o’r awyr agored fel llwyfan dysgu hefyd.

3.41 Mae cynghorwyr y blynyddoedd cynnar a swyddogion cymorth hyfforddiant yn dweud, yn gyffredinol, eu bod wedi gweld mwy o ddefnydd o fannau awyr agored ers gweithredu’r Cyfnod Sylfaen. Mae rhai hefyd yn crybwyll bod ymarferwyr yn gwneud defnydd gwell o’r lle sydd ar gael iddynt, bod newid cyffredinol yn yr amgylcheddau dysgu, a bod adnoddau gwell ar gael erbyn hyn.

3.42 Canfu’r gwerthusiad fod mwy o ‘barthau dysgu’ mewn ystafelloedd dosbarth oedran cymysg y Cyfnod Sylfaen nag unrhyw grŵp blwyddyn arall. Cofnodir y gyfran isaf o ‘barthau dysgu’ ym Mlynyddoedd 1 a 2. Mae’n ymddangos bod y canlyniad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau eraill yr adroddwyd arnynt (gweler para. 3.2 a Ffigur 9), sef bod addysgeg grwpiau blwyddyn hŷn y Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod yn fwy ffurfiol a didactig.

3.43 Datgelodd arsylwadau’r astudiaeth achos fod defnydd gweithredol o ‘barthau dysgu’ niferus ac amrywiol yn golygu bod plant yn fwy tebygol o ymgysylltu â gweithgareddau cyfranogol ac archwiliol (gweler Blwch 5 am enghraifft o hyn).

3.44 Ceir cydberthynas gref hefyd rhwng cydbwysedd gweithgareddau parhaus, gweithgareddau gwell a gweithgareddau â ffocws, ac i ba raddau y mae ‘parthau dysgu’ ar gael yn yr ystafell ddosbarth.

**Blwch 5. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Parthau Dysgu**

**Ysgol #18**

Mae cymysgedd o blant Derbyn a Blwyddyn 1 yn defnyddio un ystafell ddosbarth yn yr ysgol hon, lle y ceir un athro ac un ymarferydd ychwanegol. Felly, nid oes llawer o le ar gael. Rhennir yr ystafell ddosbarth yn ofalus yn barthau dysgu, a dangosir pob parth gan label eglur ar y wal mewn arddangosfa ynghyd â gwaith y plant. Mae rhai o'r parthau wedi'u rhannu'n ffisegol; er enghraifft, caiff ardal wisgo gwisg ffansi ac ardal gemau eu rhannu gan gwpwrdd llyfrau sy'n cynnwys adnoddau'r athro. Mae cornel chwith bellaf yr ystafell ddosbarth wedi'i llenwi'n gyfan gwbl â chastell (thema'r tymor) a adeiladwyd ac a baentiwyd gan y plant ar gyfer ardal chwarae rôl newydd. Mae ardal datblygiad creadigol yr ystafell ddosbarth nesaf at yr ardal chwarae rôl, lle mae byrddau ac îsls yn darparu digon o le i grwpiau o blant baentio, gwneud lluniau a chreu. Yn gyfagos, mae byrddau darganfod lle y ceir gwahanol gestyll i blant eu harchwilio a siop rifedd lle y gall plant gyfrif arian a chofnodi eu gwaith.

Mae gwahaniaeth amlwg rhwng y gweithgareddau mwy gweithredol yma a'r rhai mwy rhagnodol ar ochr arall yr ystafell ddosbarth, lle y ceir bwrdd hanner cylch a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer tasgau â ffocws gyda'r athro, ac ardal garped ar gyfer amser cylch. Yma, ceir cornel ddarllen a bwrdd gwneud lluniau hefyd. Yn ogystal â hyn, ceir bwrdd gwyn rhyngweithiol, a defnyddir yr ardal lwyfan o flaen y bwrdd gwyn ar gyfer llawer o weithgareddau, gan gynnwys dangos a dweud.

Gall plant ddysgu'n annibynnol ym mhob parth gan fod heriau penodedig i'w cwblhau, gan gynnwys: creu coron glai ar gyfer Brenin neu Frenhines y castell yn yr ardal greadigol, neu ddod ag eitem o gartref a allai fodoli mewn castell ar gyfer dangos a dweud.

3.45 Er y gwelsom fod gan y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth o leiaf bedwar 'parth dysgu', mae'r dadansoddiad cydberthynas ac arsylwadau'r astudiaeth achos (gweler Blwch 2 a'r sesiynau enghreifftiol yn Atodiad C) yn pwysleisio mai'r elfen bwysicaf yw sut y defnyddir parthau dysgu, ac nid eu presenoldeb yn unig.

3.46 Mae'n ymddangos bod disgyblion sy'n profi mwy o ddulliau addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn fwy gwybodus am yr hyn y maent yn ei ddysgu yn y parthau dysgu amrywiol. Ar y llaw arall, mae plant sy'n profi llai o

ddulliau addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn aml yn ansicr ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol hyn o'u hystafelloedd dosbarth.

3.47 Yn gyffredinol, mae gan ystafelloedd dosbarth sy'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen i raddau mwy, amgylcheddau sy'n fwy atyniadol yn weledol lle yr arddangosir gwaith plant a lle mae deunyddiau ac adnoddau lliwgar ar gael.

3.48 Yn anaml y defnyddiwyd yr amgylchedd dysgu awyr agored fel estyniad parhaus o'r ystafell ddosbarth, ond roedd mwy o leoliadau nas cynhelir a ariennir yn defnyddio'r awyr agored o gymharu â dosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2.

3.49 Pan ofynnwyd iddynt, nododd ymarferwyr yn aml fod cyfleoedd dysgu awyr agored yn dibynnu ar y tywydd gan fwyaf. Er gwaethaf hyn, arsylwir plant yn ymwneud â gweithgareddau mwy egnïol a deinamig pan fyddant y tu allan. Roedd canran uwch o weithgareddau a ddechreuir ac a gyfarwyddir gan blant hefyd, a defnydd mwy cytbwys o ddarpariaeth â ffocws, darpariaeth barhaus a darpariaeth well (gweler Blwch 6 am enghraifft o hyn).

3.50 Dywedodd saith deg pump y cant o ymarferwyr eu bod yn defnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored o leiaf ddwy i dair gwaith yr wythnos, a dywedodd 34% eu bod yn ei ddefnyddio bob dydd (er bod adeg y flwyddyn yn effeithio ar ba mor aml y defnyddir yr amgylchedd dysgu awyr agored).

3.51 Roedd plant yn fwy tebygol o gael eu harsylwi y tu allan gydag ymarferydd ychwanegol, neu ar eu pennau eu hunain, yn hytrach na bod ym mhresenoldeb athro. O'r 410 o arsylwadau plant unigol a gofnodwyd y tu allan, roedd 51% gydag ymarferydd ychwanegol, ac 17% yn unig gydag athro. Cofnodwyd y 32% a oedd yn weddill fel 'plentyn yn gweithredu heb gymorth oedolyn'. Mae'n bosibl bod hyn

yn adlewyrchu gwerth canfyddedig dysgu awyr agored ymhlith athrawon yn arbennig.

**Blwch 6. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Defnydd Effeithiol o'r Awyr Agored**

**Ysgol #31**
Mae'r dosbarth Blwyddyn 1 yn defnyddio'r awyr agored bob dydd. Er nad oes llawer o le ar gael y tu allan, mae'r athro'n sicrhau bod drws yr ystafell ddosbarth bob amser ar agor a bod y gweithgareddau'n berthnasol i unrhyw dywydd.

Ar ôl cyflwyniad byr i weithgareddau'r bore, rhennir y plant yn grwpiau sy'n cael eu cylchdroi drwy gydol y sesiwn fel bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau (y tu mewn a'r tu allan).

Rhennir yr ardal awyr agored yn ddwy ran, lle y ceir ardal goncrit fach wedi'i gorchuddio yn llawn amrywiaeth o *weithgareddau gwell* a *pharhaus*. Thema'r tymor yw natur. Caiff îsls eu gosod ar y ffens fel bod plant yn gallu paentio blodau a welant yn yr ardal amgylchynol. Ceir bwrdd darganfod lle y gall plant chwarae rôl gyda gwahanol anifeiliaid sŵ. Mae *gweithgareddau parhaus* yn cynnwys cistiau tywod a dŵr, bwrdd tynnu lluniau a ryg chwarae gyda cheir. Yn ogystal, ceir ardal laswelltog lle mae ymarferydd ychwanegol yn helpu grŵp o blant i blannu hadau. Wrth ardal fwrdd pren, ceir grŵp arall o blant sydd wedi penderfynu chwilio am bryfed gyda chwyddwydr o dan foncyffion a ddefnyddir ar gyfer seddau.

Yn aml, mae'r dosbarth cyfan yn manteisio ar ardal goetir yr ysgol lle y maent yn actio storïau ar y llwyfan ar gyfer eu cyfoedion, ac yn archwilio'r pwll a'r ardal o'i amgylch am wahanol greaduriaid i wneud neu dynnu lluniau ohonynt ar gyfer eu thema.

3.52 Dangosodd teithiau o gwmpas ystafelloedd dosbarth Blwyddyn 1 fod plant yn mwynhau dysgu'n annibynnol, a'u bod yn fwy gwybodus am eu hamgylchedd dysgu pan roddir mwy o gyfleoedd a dewis iddynt mewn amrywiaeth o 'barthau dysgu' diddorol a chyfoethog. Dywedodd y rhan fwyaf o blant a gymerodd ran yn nheithiau ystafelloedd dosbarth Blwyddyn 1 mai anaml y maent yn gwneud unrhyw ddysgu y tu allan (er y gallai'r ffaith y cynhaliwyd y teithiau ym mis Ionawr fod wedi effeithio ar ymatebion y plant).

**Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen**

3.53 Arsylwyd bod y meysydd dysgu 'Datblygu'r Gymraeg' a 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir Cymraeg a Saesneg, yn ôl eu trefn, yn digwydd yn ystod gweithgareddau strwythuredig a gweithgareddau fwy 'nodweddiadol' y Cyfnod Sylfaen, fel gweithgareddau llaw-gyntaf, ymarferol a bywiog.

3.54 Fodd bynnag, roedd tuedd i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir ddatblygu sgiliau Cymraeg plant (i raddau amrywiol yn dibynnu ar yr oedran neu'r iaith ddysgu) yn ystod sesiynau amser cylch penodol yn y bore, lle y defnyddiwyd caneuon a rhigymau i ymarfer eu sgiliau ieithyddol[16]. Mewn ysgolion a lleoliadau Cymraeg a Saesneg, diben y gweithgareddau hyn oedd gwella datblygiad geirfa'r plant, ac weithiau roeddent wedi'u strwythuro i ganolbwyntio ar ffoneg.

3.55 Roedd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir Saesneg yn tueddu i ddatblygu sgiliau Cymraeg plant ar wahân, tra bod ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir Cymraeg yn mabwysiadu dull mwy trawsgwricwlaidd ar draws pob maes dysgu.

3.56 Adroddodd lleiafrif o ymarferwyr a rhanddeiliaid awdurdodau lleol fod ansawdd Cymraeg ymarferwyr ychwanegol (sy'n amrywio o ran rhugl der yn dibynnu ar iaith ddysgu'r ysgol) yn effeithio ar weithredu'r meysydd dysgu 'Datblygu'r Gymraeg' (ysgolion Saesneg) a 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Rhifedd' (ysgolion Cymraeg) yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r nifer isel o ymatebion yn ymddangos fel petai'n awgrymu bodlonrwydd cyffredinol ar sut mae caffael a datblygu'r Gymraeg yn cael ei gyflwyno a'i weithredu yn y Cyfnod Sylfaen.

[16] Er enghraifft, yn nodweddiadol, byddai hyn yn cynnwys diwrnodau'r wythnos, misoedd y flwyddyn, y tywydd a chyfrif, yn ogystal â dyletswyddau cofrestru a chinio.

3.57 Arsylwyd cyfran uchel o ryngweithiadau Cymraeg yn ystod gweithgareddau mwy nodweddiadol y Cyfnod Sylfaen, fel gweithgareddau uniongyrchol, ymarferol a gweithredol, mewn ysgolion a lleoliadau Cymraeg a Saesneg (gweler Blwch 7 am enghraifft o hyn). Mae hefyd yn werth nodi yr arsylwyd cyfran uchel o ryngweithiadau Cymraeg pan nad oedd oedolion yn bresennol.

**Blwch 7. Enghraifft o Arfer Gorau yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu'r Gymraeg**

**Ysgol #6**

Mae'r ysgol hon wedi'i lleoli mewn ardal led-wledig o Gymru lle mae cyfran fach o blant yn dod o gartrefi lle y siaredir Cymraeg. Mae cymysgedd o blant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn yr ystafell ddosbarth, a gefnogir gan athro a dau ymarferydd ychwanegol.

Prif nod y sesiwn oedd datblygu'r Gymraeg. Yn ogystal â *thasg â ffocws* a gyfarwyddwyd gan yr athro, roedd llawer o *weithgareddau gwell* a *pharhaus*. Gan fod trochi yn y Gymraeg yn bwysig iawn yma, roedd enghreifftiau o waith y plant yn gorchuddio'r waliau, ac roedd geiriau allweddol ar gyfer thema'r tymor wedi'u hamlygu nesaf atynt. Roedd label ar gyfer pob adnodd, a oedd yn helpu'r plant i weld ei ystyr Gymraeg, ac roedd ymarferwyr fel arfer yn cyfieithu termau allweddol ar y pryd ar gyfer y plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall.

Yn ogystal, roedd archarwr y Gymraeg yn cael ei ddewis bob dydd yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yr unigolyn hwn yn cael ei ddewis gan yr athro yn ystod amser cylch y bore i wisgo clogyn ac ymgymryd â rôl y 'Cymro Cryfa' yn seiliedig ar sut y gwelwyd ei fod yn hybu'r Gymraeg yn ystod y diwrnod blaenorol. Cynhelir seremoni gwisgo'r clogyn, sy'n debyg i'r seremoni gadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol, lle mae'r plant yn canu'r emyn cysylltiedig, gan annog datblygiad geirfa. Rôl archarwr y Gymraeg yw sganio'r ystafell ddosbarth bob hyn a hyn am enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith ei gyfoedion a rhoi gwybod i'r athro am ymddygiad o'r fath (sydd, yn ei dro, yn atgoffa pawb i ddefnyddio'r Gymraeg). Mae pob enghraifft gadarnhaol gan blant yn ennill 'tocyn iaith' i'w tîm. Caiff y rhain eu cyfrif ar ddiwedd yr wythnos, a'u gwobrwyo (e.e. gydag amser chwarae ychwanegol).

3.58 Adroddodd nifer fach o staff awdurdodau lleol ac athrawon ysgol fod addysgu'r Gymraeg yn fwy ffurfiol mewn ysgolion Saesneg yn

ymddangos yn fuddiol, ac roeddent o'r farn bod modelu iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn anodd pan fo plant yn dysgu'n annibynnol.

3.59 Yn ogystal, adroddodd nifer fach o randdeiliaid awdurdodau lleol ac athrawon ysgol fod trochi mewn iaith yn anodd pan fo canran uchel o blant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yn mynychu addysg Gymraeg, a'i bod yn fwy tebygol y bydd plant yn dychwelyd i ddefnyddio'r Saesneg. Fodd bynnag, fel y nodwyd, nid arsylwodd y gwerthusiad hyn yn aml iawn ac, yn hytrach, arsylwodd blant o gartrefi di-Gymraeg yn siarad Cymraeg â'i gilydd heb bresenoldeb oedolyn.

3.60 Roedd y ffordd yr oedd plant yn cael eu trochi[17] yn y Gymraeg, yn ogystal ag agweddau ymarferwyr a disgyblion tuag at ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg, yn amrywio ar draws ysgolion Cymraeg. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai trochi ffurfiol cychwynnol o fudd i weithredu'r Cyfnod Sylfaen gan y byddai plant yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r Gymraeg, a fyddai'n lliniaru problemau o ran trochi mewn iaith yn y dyfodol.


**Llythrennedd a Rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen**

3.61 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y Maes Dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' wedi'i ymsefydlu'n fwy mewn gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen na 'Datblygiad Mathemategol', sydd fel arfer i'w weld ar ffurf fwy 'penodol' mewn ystafelloedd dosbarth. Er enghraifft, gallai gweithgaredd 'Datblygiad Mathemategol' fod ar ffurf her mewn ardal gweithgareddau gwell, lle mae'r plant yn mesur y pellter rhwng mannau amrywiol yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio gwahanol brennau mesur. Fodd bynnag, yn rhan o'r gweithgaredd penodol hwn, mae plant yn cofnodi'r mesuriadau ar glipfwrdd, felly yn sicrhau fod elfennau o ddatblygiad mathemategol, fel cynrychioli a chyfathrebu a chysylltu, datblygiad llythrennedd wedi

[17] Er enghraifft, defnyddio'r Gymraeg yn unig, cyfieithu ar y pryd, ac ati.

mewnosod yn y gweithgaredd mathemategol. Gwelir hyn yn Ffigur 10, sy'n dangos mai 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' yw'r Maes Dysgu a arsylwyd fwyaf yn nosbarthiadau'r astudiaeth achos.

**Ffigur 10. Amlder Meysydd Dysgu a Arsylwyd, yn ôl Grŵp Blwyddyn**




DPChLlADd – Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; DCr – Datblygiad Creadigol; DCo – Datblygiad Corfforol; GDB – Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd; ILlCh – Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; DG – Datblygu'r Gymraeg; DM – Datblygiad Mathemategol.

3.62 Er bod gweithredu'r Meysydd Dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' yn y Cyfnod Sylfaen yn amrywio ar draws ysgolion ac ystafelloedd dosbarth, mae rhai tueddiadau'n parhau. Er enghraifft, roedd canran uwch o arsylwadau lle y gwelwyd plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd llythrennedd neu rifedd mewn sesiynau bore, ni waeth faint o addysgeg y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd gan yr ymarferwyr. O'r plant cafodd ei arsylwi yn wneud gweithgareddau ILlCh roedd tua 70% yn y bore. Adroddodd y rhan fwyaf o ymarferwyr fod plant yn canolbwyntio fwyaf yn y bore.

3.63 Er y nododd rhai ymarferwyr fod llythrennedd a rhifedd yn rhan bwysig o'r holl weithgareddau Cyfnod Sylfaen a wnânt, mae'r mwyafrif yn credu bod angen addysgu rhai elfennau mewn modd mwy ffurfiol a didactig er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

3.64 Nododd llawer o ymarferwyr hefyd fod eu harferion Cyfnod Sylfaen yn aml yn cael eu hategu gan raglenni rhagnodol a gynlluniwyd yn benodol i annog datblygiad sgiliau llythrennedd a/neu rifedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni fel 'Jolly Phonics', 'Big Maths', 'Big Writing' a 'Read Write Inc.', ond nid yn gyfyngedig iddynt.

3.65 Adroddodd Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol hefyd am ddychweliad i ganolbwyntio ar ddulliau mwy ffurfiol o addysgu llythrennedd a rhifedd (e.e. yn y bore), sydd, yn eu barn hwy, mewn ymateb i'r pwysau i godi safonau. Dywedasant y gallai hyn hefyd adlewyrchu camddealltwriaethau cyffredinol ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen ymhlith ymarferwyr.

3.66 Yn arbennig, mae'n ymddangos bod athrawon yn camddeall y cydbwysedd rhwng strwythur a chwarae yn hytrach na gweld hyn fel cydbwysedd rhwng darpariaeth barhaus, darpariaeth well a darpariaeth â ffocws. O ganlyniad, mae athrawon yn tueddu i ddefnyddio dull mwy strwythuredig a ffurfiol er mwyn osgoi'r hyn y maent hwy'n ei ystyried yn ostyngiad mewn safonau llythrennedd a rhifedd.

3.67 Mae dadansoddi ysgolion yr astudiaeth achos yn amlygu bod gweithgareddau 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' yn tueddu i fod yn fwy strwythuredig a didactig eu natur ar draws pob grŵp blwyddyn, o gymharu â meysydd dysgu eraill. Er enghraifft: roedd oedolion yn fwy tebygol o fod yn bresennol, gan ddechrau a/neu gyfarwyddo gweithgareddau; roedd llai o ryngweithio ymhlith plant; ac roedd mwy o ddefnydd o daflenni

gwaith. O gymharu, roedd gweithgareddau a gofnodwyd o dan Feysydd Dysgu eraill yn tueddu i gael eu cyfarwyddo mwy gan blant, lle'r oedd oedolyn yn llai tebygol o fod yn bresennol a chyda mwy o ryddid i'r disgyblion symud.

3.68 Mae'n ymddangos bod ystafelloedd dosbarth lle y gwneir mwy o ddefnydd o addysgeg y Cyfnod Sylfaen hefyd yn fwy tueddol o ddefnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen wrth addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd. Ond mae ystafelloedd dosbarth lle y gwneir llai o ddefnydd o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o barhau i ddefnyddio dulliau ffurfiol a didactig o addysgu a dysgu'r Meysydd Dysgu hyn.

3.69 Roedd athrawon a ddefnyddiodd ystod ehangach o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o ddefnyddio dulliau archwiliol, gweithredol ac ymarferol wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, roedd athrawon a ddefnyddiodd lai o addysgeg y Cyfnod Sylfaen, a/neu yn llai aml, yn defnyddio dull mwy 'traddodiadol' o addysgu llythrennedd a rhifedd, gan ddefnyddio mwy o weithgareddau dosbarth cyfan, yn eistedd wrth ddesg.

3.70 O arsylwadau ystafell ddosbarth, mae'n ymddangos bod ystafelloedd dosbarth lle y defnyddir mwy o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn tueddu i gynnwys gweithgareddau llythrennedd a rhifedd mewn carwsél o weithgareddau eraill yn ystod sesiwn. Mae ystafelloedd dosbarth lle y defnyddir llai o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn tueddu i ganolbwyntio ar dasg lythrennedd neu rifedd yn unig yn ystod sesiwn, er bod cyfle yn aml i blant ymwneud â gweithgareddau gwell a pharhaus yma hefyd hyd yn oed ar ôl cwblhau'r dasg â ffocws.

**Materion yn ymwneud ag Ymarfer y Cyfnod Sylfaen**

3.71 Yn ein harsylwadau, ni welwyd ymarferwyr yn arsylwi plant yn aml, er mwyn cael gwybod eu diddordebau a monitro eu cynnydd, er

enghraifft. Pan arsylwyd hyn, fe'i gwelwyd yn amlach yn ystod gweithgareddau â ffocws yn hytrach na gweithgareddau parhaus neu well. Yn ogystal, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn amrywio ar draws grwpiau blwyddyn y Cyfnod Sylfaen.

3.72 Canfuwyd bod staff mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn arsylwi plant hyd yn oed yn llai aml na staff mewn ysgolion.

3.73 Nododd nifer o Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth Awdurdodau Lleol fod llawer o ysgolion a lleoliadau yn ei chael hi'n anodd cynllunio ar gyfer arsylwi plant, gan fod ymarferwyr yn ansicr ynghylch pryd a sut y dylid gwneud hyn, a allai esbonio'r lefel isel o arsylwi a welwyd.

3.74 Roedd athrawon yn aml yn disgrifio ymarferwyr ychwanegol fel bod yn allweddol i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn enwedig ar gyfer gwaith grŵp bach. Fe'u harsylwyd hefyd yn defnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn amlach nag athrawon. Yn ogystal, dangosodd ein harsylwadau fod ymarferwyr ychwanegol yn treulio mwy o'u hamser yn cefnogi darpariaeth well a pharhaus nag yr oedd athrawon. Yn wir, gwnaethom arsylwi bod athrawon yn treulio 92% o'u hamser yn cefnogi gweithgareddau â ffocws yn unig.


3.75 Yn gyffredinol, roedd ystafelloedd dosbarth â llai o blant fesul oedolyn yn gweithredu addysgeg y Cyfnod Sylfaen i raddau mwy. Awgrymodd cyfweliadau â staff awdurdodau lleol ac athrawon ysgol fod y gymhareb oedolyn:plant uwch yn darparu profiad dysgu wedi'i deilwra'n fwy i bob plentyn. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn gallu treulio mwy o amser gyda llai o blant, yn datblygu a/neu wella eu gwybodaeth am bynciau penodol. Trafodir materion eraill yn ymwneud â staffio a chymarebau ym mhennod 2.

3.76 Yn rhai o ysgolion ein hastudiaeth achos, roedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n gyson ar draws pob ystafell ddosbarth Cyfnod

Sylfaen, ond mewn ysgolion eraill yn yr astudiaeth achos gwelwyd amrywiad sylweddol o un ystafell ddosbarth i'r llall.

3.77 Roedd tuedd hefyd, hyd yn oed yn yr un ystafell ddosbarth, i geisio 'cymysgu' dulliau addysgeg yn ystod y dydd, fel bod addysgeg fwy ffurfiol a didactig yn cael ei defnyddio yn y bore (fel y trafodwyd yn gynharach wrth gyflwyno llythrennedd, rhifedd a datblygu'r Gymraeg) a mwy o addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio yn y prynhawn. Mae Ffigur 11 yn dangos effaith hyn ar draws holl ddosbarthiadau'r astudiaeth achos – ym Mlynyddoedd 1 a 2 roedd tuedd i fwy o addysgeg y Cyfnod Sylfaen gael ei defnyddio yn y prynhawn nag yn y bore[18].

**Ffigur 11. Defnyddio Addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn y Bore a'r Prynhawn, wrth Grŵp Flwyddyn**




[18] Nid yw arsylwadau ystafelloedd dosbarth Meithrin yn y bore a'r prynhawn yn gymaradwy.

3.78 Mae agweddau athrawon, penaethiaid ac uwch reolwyr tuag at y Cyfnod Sylfaen yn gallu esbonio rhywfaint o'r amrywiad hwn mewn ymarfer rhwng ystafelloedd dosbarth a rhwng ysgolion. Mae'n ymddangos bod materion eraill yn ymwneud â hyfforddiant, cymorth ac arweiniad yn cyfrannu at yr amrywiad hwn hefyd (fel y trafodwyd ym mhennod 2).

3.79 O holl elfennau'r Cyfnod Sylfaen, y defnydd o ddysgu awyr agored yw'r hyn sy'n amrywio fwyaf ar draws ystafelloedd dosbarth ac ysgolion.

3.80 Er bod ymarferwyr yn aml yn dweud bod diffyg mynediad uniongyrchol i'r awyr agored yn rhwystr pwysig rhag defnyddio'r awyr agored fel estyniad parhaus o'r ystafell ddosbarth, ni chanfuom unrhyw berthynas rhwng hyn a lefel gweithredu'r Cyfnod Sylfaen rhwng ystafelloedd dosbarth. Mewn geiriau eraill, gwelir bod rhai ystafelloedd dosbarth yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen i raddau uchel er nad oes ganddynt unrhyw fynediad uniongyrchol i'r awyr agored.

3.81 Roedd data arsylwadol hefyd wedi amlygu mai plant mewn grwpiau blwyddyn hŷn oedd yn lleiaf tebygol o gael mynediad at ddarpariaeth awyr agored ac yn fwy tebygol o dreulio amser yn dysgu wrth ddesgiau.

# 4 Effaith y Cyfnod Sylfaen

4.1 Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar effaith y Cyfnod Sylfaen ar ddisgyblion. Bydd yn cyflwyno canfyddiadau ar ystod o ganlyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. Cyfranogiad a lles disgyblion yn ystod dysgu (gan gynnwys presenoldeb);
ii. Pontio i'r Cyfnod Sylfaen ac i Gyfnod Allweddol 2;
iii. Cyflawniad addysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2;
iv. Llythrennedd, rhifedd a datblygu'r Gymraeg;
v. Anghydraddoldebau mewn cyflawniad addysgol; ac
vi. Effaith tymor hir y Cyfnod Sylfaen


4.2 Yn y bennod hon, cyfeiriwn at ystod eang o safbwyntiau, gan gynnwys safbwyntiau ymarferwyr, plant a'u rhieni. Cyfeiriwn hefyd at ein harsylwadau ein hunain o'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, rhan allweddol o'r bennod hon yw dadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion – adroddwyd ar rywfaint o'r dadansoddi hyn yn fanylach mewn mannau eraill (gweler Davies *et al.* 2013 a Taylor *et al.* 2015b).

### Cyfranogiad a Lles Disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

4.3 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymarferwyr/rhanddeiliaid allweddol a gyfwelwyd ac a holwyd yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar blant a dysgu. Er engraifft, dwedodd 83% o ymarferwyr arweiniol cafodd ei arolygu for agweddau'r plant tuag at ddysgu wedi gwella fel canlyniad y Cyfnod Sylfaen (Ffigur 12). Mae Ffigur 12 hefyd yn dangos, mae ychydig iawn o ymarferwyr oedd yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith waeth ar ymddygiad a lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu na'i ragflaenydd, sef Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

4.4 Yn arbennig, roedd tua thri chwarter ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn gwella lles cymdeithasol ac emosiynol plant a'u hagweddau at ddysgu.

**Ffigur 12. Effaith Ganfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar Ymddygiad, Lles ac Agweddau at Ddysgu**





P – Penaethiaid (n = 344); ACS – Ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen (n = 256); NCA – Ymarferwyr arweiniol nas cynhelir a ariennir (n = 241)

4.5 Er nad oedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael llawer o effaith ar ymddygiad plant, naill ai y tu mewn neu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, roedd o leiaf 40% o ymarferwyr yn credu bod hyn yn gwella.


4.6 Yn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yr astudiaeth achos, arsylwyd lefelau lles a chyfranogiad plant yn ystod dysgu gan ddefnyddio Graddfeydd Leuven (Laevers 2005). Canfyddwn fod gan sesiynau ystafell ddosbarth lle y defnyddir mwy o addysgeg y Cyfnod Sylfaen lefel gyfartalog uwch fach ond ystadegol arwyddocaol o les a chyfranogiad plant (Ffigurau 13 a 14 yn ôl eu trefn). Yn ogystal,

canfyddir y perthnasoedd hyn ar draws pob grŵp blwyddyn yn y Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 13. Y Berthynas Rhwng Addysgeg y Cyfnod Sylfaen a Lles Plant**[19]




**Ffigur 14. Y Berthynas Rhwng Addysgeg y Cyfnod Sylfaen a Chyfranogiad Plant**




19 Mae'r gwerthoedd $R^2$ yn Ffigurau 13 a 14 yn fesur o'r berthynas rhwng dau newidyn ac fe'u gelwir yn 'gyfernod penderfynu' yn seiliedig ar gyfernod cydberthyniad moment lluoswm Pearson. Mae hyn yn dangos yn Ffigur 13, er enghraifft, y gellir cyfrif am 27.62% o'r amrywiad mewn lles cyfartalog plant gan yr amrywiad yn sgorau'r Cyfnod Sylfaen.

4.7 Canfuom hefyd fod gan fathau penodol o addysgeg y Cyfnod Sylfaen gysylltiad cryfach â lefelau lles a chyfranogiad plant nag eraill. Yn arbennig, roedd dewis gan blant ac addysgeg gorfforol weithredol, archwiliol ac uniongyrchol yn gysylltiedig â mwy o gyfranogiad a lles. Er enghraifft, canfuwyd bod cyfranogiad plant, ar gyfartaledd, 5% yn uwch pan oedd plant yn gorfforol weithredol (yn hytrach nag yn gorfforol anweithredol).

4.8 Canfuwyd bod gan addysgeg ymarferol, holi agored, cydweithio â chyfoedion a gweithio mewn grwpiau bach gysylltiad arwyddocaol yn ystadegol â lefelau uwch o gyfranogiad disgyblion, ond nid o reidrwydd lefelau uwch o les disgyblion. I'r gwrthwyneb, roedd gan brofiadau dysgu awyr agored gysylltiad arwyddocaol yn ystadegol â lefelau uwch o les plant ond nid o reidrwydd lefelau uwch o gyfranogiad.

4.9 Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi bod myfyrio (e.e. adolygu gweithgaredd) yn gysylltiedig â lefelau is o gyfranogiad a lles plant. Yn ddiddorol, canfuom fod myfyrio fel arfer yn digwydd ar ddiwedd sesiwn a'i fod yn aml yn cael ei gynnal ar sail dosbarth cyfan.

4.10 Pan arsylwyd 'addysgu uniongyrchol' mwy traddodiadol, a phan oedd taflenni gwaith yn cael eu defnyddio, gwnaethom arsylwi lefelau sylweddol is yn ystadegol o les plant, ond nid o reidrwydd lefelau is o gyfranogiad plant.

4.11 Roedd presenoldeb athro (gydag ymarferydd ychwanegol neu hebddo) hefyd yn gysylltiedig â lefelau uwch o gyfranogiad. Yn ogystal, canfuwyd bod cyfranogiad plant, ar gyfartaledd, 20% yn uwch pan oedd yn gysylltiedig â rhyngweithio cynnes (yn hytrach nag oer) rhwng oedolyn a phlentyn.

4.12 Ond nid oedd presenoldeb oedolion, na natur y rhyngweithio rhwng oedolion a phlant, bob amser yn gysylltiedig â lefelau uwch o les plant.

4.13 Er gwaethaf y cysylltiadau a arsylwyd rhwng mathau penodol o addysgeg a chyfranogiad a lles plant, ni chanfuom unrhyw gysylltiadau ystyrlon ag agweddau goddrychol plant Blwyddyn 2 eu hunain tuag at yr ysgol a dysgu a'u lles goddrychol[20].

4.14 Fodd bynnag, awgrymodd trafodaethau grŵp ffocws Blwyddyn 2 y gallai fod perthynas gadarnhaol rhwng addysgeg y Cyfnod Sylfaen a arsylwyd a brwdfrydedd plant dros ddysgu. Mae'n bosibl bod y dull grŵp ffocws mwy ansoddol yn gallu amlygu'r cysylltiadau hyn yn well.

4.15 Canfuom hefyd fod disgyblion Blwyddyn 2 y Cyfnod Sylfaen (a holwyd yn 2012/13) yn adrodd yn gyffredinol eu bod yn hoffi'r ysgol yn fwy na disgyblion Blwyddyn 2 Cyfnod Allweddol 1 a holwyd yn 2008 (hefyd yng Nghymru) yn rhan o Astudiaeth Carfan y Mileniwm.

4.16 Fodd bynnag, roedd disgyblion Blwyddyn 2 y Cyfnod Sylfaen yn llai cadarnhaol ynglŷn â darllen, ac wedi adrodd am fwy o broblemau ymddygiad a lefel is o les bywyd cyffredinol o gymharu â'u cyfoedion yn Astudiaeth Carfan y Mileniwm 2008, er y dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiadau hyn oherwydd y gwahaniaeth amser rhwng y ddau arolwg.

4.17 Mae llawer o ymarferwyr ysgolion yr astudiaeth achos a Chynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar a Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth mewn Awdurdodau Lleol yn nodi eu bod yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn fuddiol iawn i hyder plant. Mae hyn, wrth gwrs, yn gysylltiedig â'u lles, a dywedir yn gyffredinol ei fod yn gwella oherwydd bod plant yn cael

[20] Casglwyd agweddau goddrychol y plant hyn tuag at eu dysgu a'u lles trwy arolwg a gwblhawyd gan blant Blwyddyn 2 ym mhob ysgol yn yr astudiaeth achos.

mwy o gyfleoedd i roi cynnig ar bethau eu hunain a gwneud camgymeriadau heb ofni cael eu barnu gan oedolion.

4.18 Crybwyllodd nifer o ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill hefyd eu bod yn credu bod y Cyfnod Sylfaen, o gael ei ymarfer yn gywir, yn helpu i ddatblygu sgiliau plant o ran cydweithio â chyfoedion, datrys problemau a meddwl. Priodolwyd hyn yn aml i'r pwyslais uwch ar addysgeg archwiliol, a 'heriau rhaid gwneud' parhaus a gwell.

4.19 Dywedodd ymarferwyr yn aml eu bod yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn meithrin dysgwyr mwy annibynnol. Fodd bynnag, roedd rhai athrawon yn pryderu bod rhai plant yn dod yn rhy ddibynnol ar y nifer uwch o oedolion yn yr ystafell ddosbarth.

4.20 O'r holl blant Blwyddyn 2 a holwyd, dywedodd dros hanner eu bod yn hoffi darllen (54%), ysgrifennu (57%) a gwaith rhif (58%) 'llawer'. Ni chanfuwyd unrhyw gysylltiad rhwng mwynhad plant o'r pynciau hyn a'r graddau yr oedd addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio yn arolwg Blwyddyn 2. Fodd bynnag, roedd plant mewn ystafelloedd dosbarth a oedd yn defnyddio ystod fwy o addysgeg y Cyfnod Sylfaen ychydig yn fwy brwdfrydig ynglŷn â'u dysgu (a oedd yn canolbwyntio ar ddarllen, ysgrifennu a mathemateg) o gymharu â phlant mewn ystafelloedd dosbarth a oedd yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen i raddau llai.

4.21 Yn anffodus, mae rhai o'r canlyniadau mwy goddrychol hyn yn anodd eu cadarnhau neu'n anodd darparu cymharydd ar eu cyfer. Fodd bynnag, os yw agweddau tuag at ddysgu a lles yn yr ysgol wedi gwella, gallem ddisgwyl gweld rhywfaint o welliant mewn presenoldeb yn yr ysgol.

4.22 Er gwaethaf y farn gyffredinol ymhlith ymarferwyr ynglŷn â'r effaith gadarnhaol y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael ar blant, roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr a holwyd yn ansicr a oedd y Cyfnod Sylfaen wedi

cael unrhyw effaith ar bresenoldeb, er bod mwy yn credu ei fod wedi gwella na gwaethygu.

4.23 Fodd bynnag, fel yr ydym wedi adrodd mewn mannau eraill (Davies *et al.* 2013, Taylor *et al.* 2015b), mae'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yma yn awgrymu bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, o leiaf ymhlith y rhan fwyaf o'r ysgolion Cyflwyno'n Derfynol, yn gysylltiedig â gwelliant mewn lefelau presenoldeb cyffredinol disgyblion. Mesurir hyn yn nhermau cyfran y sesiynau y mae disgyblion yn yr ysgol, lefelau is o absenoliaeth barhaus a gostyngiad yn nifer yr achosion o absenoldeb anawdurdodedig.

4.24 Er enghraifft, ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion disgyblion ac ysgolion, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen tuag 20% yn llai tebygol o fod yn absennol heb awdurdod yn gyffredinol.

**Pontio i'r Cyfnod Sylfaen ac i Gyfnod Allweddol 2**

4.25 Roedd y mwyafrif helaeth o arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir, penaethiaid a rhieni/gofalwyr yn fodlon ar y trefniadau pontio i'r Cyfnod Sylfaen (o gartref, lleoliad cyn meithrin neu leoliad nas cynhelir). Fodd bynnag, nid oedd yn eglur a yw'r Cyfnod Sylfaen wedi cael unrhyw effaith ar hyn, er ei bod yn ddefnyddiol nodi nad oedd pontio i'r Cyfnod Sylfaen erioed wedi'i godi fel pryder neu her yn yr arolwg cenedlaethol o benaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen.

4.26 Nododd rhai penaethiaid, athrawon meithrin ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen fod plant sy'n profi rhyw fath o ddarpariaeth addysgol cyn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn ei chael hi'n haws addasu i'r ysgol.

4.27 Un o amcanion gwreiddiol y Cyfnod Sylfaen oedd cyflwyno math o asesiad sylfaenol ar adeg mynediad. Cyflwynwyd y Proffil Asesu Datblygiad Plant (PADP) i ddechrau, ond o fewn 12 mis dilëwyd ei natur statudol yn dilyn adolygiad cyflym o'r offeryn gan yr Athro Iram Siraj-Blatchford (2012) ar gyfer y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, sef Leighton Andrews AC. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod PADP yn rhy fanwl a beichus, nad oedd yn ddefnyddiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ymhellach, nad oedd yn cynnwys cysylltiadau eglur â Chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a bod ei ddiben craidd wedi'i ddiffinio'n wan.

4.28 Y brif feirniadaeth o PADP ymhlith ymarferwyr yn y gwerthusiad hwn oedd ei fod yn rhy feichus ac yn golygu gormod o waith papur.

4.29 Er gwaethaf y pryderon hyn, canfu'r gwerthusiad fod 11% o ysgolion yn dal i ddefnyddio PADP yn llawn a bod 36% yn defnyddio rhai elfennau ohono. Dim ond 36% a ddywedodd eu bod yn defnyddio offeryn asesu arall ar adeg mynediad. Roedd y 17% a oedd yn weddill yn ansicr pa fath o asesiad ar adeg mynediad yr oeddent yn ei ddefnyddio.

4.30 Roedd rhai penaethiaid yn rhwystredig ynglŷn â'r oedi wrth ddisodli PADP, ac yn teimlo y gallai'r anghysondebau presennol o ran sut mae ysgolion yn asesu llinellau sylfaen fod yn fwy niweidiol mewn gwirionedd. Mae'n bwysig nodi hefyd bod tynnu PADP yn ôl wedi achosi i lawer o ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir amau hyder Llywodraeth Cymru yn y Cyfnod Sylfaen fel polisi addysg.

4.31 Mae cynllun newydd yn lle PADP yn cael ei ddatblygu a'i dreialu ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyflwyno mewn ysgolion ym mis Medi 2015.

4.32 Roedd llawer o ymarferwyr o'r farn y dylai unrhyw asesiad sylfaenol newydd ar adeg mynediad gysylltu'n benodol â chanlyniadau'r

Cyfnod Sylfaen, ac awgrymodd rhai ymarferwyr y dylai un system gael ei defnyddio i olrhain cynnydd parhaus o'r Cyfnod Sylfaen ar hyd yr ysgol gynradd (ac efallai uwchradd).

4.33 Mae llawer o wahanol ddulliau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i olrhain cynnydd disgyblion, a mynegodd ymarferwyr eu rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg arweiniad cyffredinol yn hyn o beth.

4.34 Fodd bynnag, croesewir yr egwyddor o offeryn asesu ar adeg mynediad yn gyffredinol. Er enghraifft, roedd rhai arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn credu bod y gofyniad i rannu data asesu sylfaenol ar adeg mynediad yn darparu posibiliadau mawr ar gyfer cyfathrebu ystyrlon ag ysgolion (er nad oedd hyn yn cael ei wireddu bob amser ar hyn o bryd).

4.35 Roedd diffyg offeryn asesu hyfyw ar adeg mynediad hefyd yn arwain at ansicrwydd sylweddol ymhlith ymarferwyr ynglŷn â'r ffordd orau o olrhain cynnydd plant trwy'r Cyfnod Sylfaen. Yn wir, canfuom fod ysgolion yr astudiaeth achos yn defnyddio nifer o wahanol fathau o offer ar gyfer hyn, ond nid yw'n ymddangos bod yr un ohonynt yn cysylltu cynnydd yn agos â Chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

4.36 Yn benodol, roedd ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn credu bod un o'r Meysydd Dysgu craidd – Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol – yn arbennig o anodd mesur ac olrhain cynnydd ynddo, a bod unrhyw ymdrechion i wneud hynny yn rhy oddrychol. Roedd ymarferwyr yn credu, ar y cyfan, ei bod yn briodol i'r Maes Dysgu hwn fod yn ganolog i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ond roeddent yn teimlo bod angen llawer mwy o gymorth i'w fesur.

4.37 Er bod arsylwi'n un o elfennau craidd ymarfer y Cyfnod Sylfaen, ychydig o enghreifftiau a ganfuom o arsylwi gan ymarferwyr (9% o'r holl arsylwadau disgyblion) neu asesu gan ymarferwyr (3% o'r holl

arsylwadau disgyblion)[21]. Nid yw'n syndod, efallai, bod y rhain yn tueddu i ddigwydd yn ystod gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar lythrennedd neu rifedd.

4.38 Canfuom hefyd fod ymarferwyr ychwanegol yn fwy tebygol o gael eu gweld yn ymgymryd ag arsylwi ac asesu nag athrawon. Yn wir, mae ymarferwyr ychwanegol o'r farn bod hyn yn ddatblygiad pwysig yn eu rolau yn y Cyfnod Sylfaen a'i fod yn cyfrannu at 'ethos tîm cyfan' cryfach yn yr ystafell ddosbarth.

4.39 O ran pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 (CA2), roedd 25% o athrawon Blwyddyn 3 a gyfwelwyd yn ysgolion yr astudiaeth achos yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar baratoi plant ar gyfer CA2. Yn arbennig, maent yn cyfeirio at welliannau mewn dysgu annibynnol, sgiliau llafaredd, hyder, a chydweithio â chyfoedion, a bod gan blant fwy o awydd i ddysgu.

4.40 Fodd bynnag, mae bron i un o bob pump o athrawon Blwyddyn 3 (19%) yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith negyddol ar baratoi plant ar gyfer CA2, tra bod y 56% arall o athrawon Blwyddyn 3 a gyfwelwyd wedi mynegi ansicrwydd neu farn gymysg ynglŷn â hyn.

4.41 Yr hyn sy'n achos pryder penodol ymhlith yr athrawon Blwyddyn 3 hyn yw bod plant yn rhy ddibynnol ar gael ymarferwyr ychwanegol i'w cynorthwyo, bod ganddynt lefelau canolbwyntio is a bod cyflwyniad eu gwaith (e.e. ysgrifennu) yn waeth. Roedd nifer fach o athrawon Blwyddyn 3 hefyd yn credu nad yw anghenion addysgol arbennig plant yn cael eu hadnabod mor gynnar, efallai oherwydd y diffyg asesu arsylwadol.

[21] Wrth gwrs, mae'n bosibl bod ymarferwyr yn arsylwi ac asesu mewn modd distaw neu anuniongyrchol, ac felly mae'n anodd 'arsylwi' hyn yn digwydd. Fodd bynnag, os yw'n cael ei wneud yn ddistaw neu'n anuniongyrchol, mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â pha mor gywir a/neu dryloyw ydyw.

4.42 Fodd bynnag, gallai safbwyntiau gwahanol ynglŷn â phontio o'r Cyfnod Sylfaen i CA2 ddibynnu hefyd ar yr hyn y mae athrawon CA2 yn ei wneud i helpu'r pontio hynny. Er enghraifft, dywedodd 44% o athrawon Blwyddyn 3 eu bod yn gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn addysgu disgyblion blaenorol y Cyfnod Sylfaen. Yn arbennig, maent yn dweud eu bod yn defnyddio mwy o weithgareddau ymarferol, yn rhoi mwy o ddewis i blant ac yn gwneud sesiynau'n fyrrach.

4.43 I'r gwrthwyneb, dywedodd 31% o athrawon Blwyddyn 3 fod newidiadau i addysgeg yn cael eu gwneud ym Mlwyddyn 2 y Cyfnod Sylfaen er mwyn helpu i baratoi plant ar gyfer CA2. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mynnu bod plant yn eistedd am gyfnodau hwy ac yn ysgrifennu mwy, a chynnig llai o ddewis iddynt yn raddol.

4.44 Adlewyrchir hyn i ryw raddau yn y canfyddiadau ynglŷn ag ymarfer y Cyfnod Sylfaen yr adroddwyd arnynt ym mhennod 3. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rhai o'r plant yn ein grwpiau ffocws wedi dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r lleihad yn y defnydd o addysgeg y Cyfnod Sylfaen wrth iddynt dyfu. Ond, i'r un graddau, datgelodd rhai plant eu bod yn mwynhau 'heriau ychwanegol' gwaith 'caletach' (cyn belled ag y bo'r gweithgareddau'n dal i fod yn amrywiol a diddorol).

4.45 O ystyried lefel y pryder neu'r ansicrwydd ynglŷn â phontio i CA2, roedd bron i ddwy ran o dair (62%) o'r athrawon Blwyddyn 3 a gyfwelwyd yn gefnogol tuag at y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol.

4.46 Fodd bynnag, awgrymodd llawer o athrawon Blwyddyn 3 y gallai unrhyw fuddion posibl y Cyfnod Sylfaen gael eu colli oni bai bod y cwricwlwm a'r dulliau addysgu a ddefnyddir yn CA2 yn canolbwyntio ar agweddau dysgu cadarnhaol hefyd.

4.47 Roedd rhieni/gofalwyr yn cefnogi'r pontio o'r Cyfnod Sylfaen i CA2 hefyd ar y cyfan. Roedd wythdeg y cant o'r rhieni/gofalwyr a holwyd yn credu bod eu plentyn wedi ymgartrefu'n dda ym Mlwyddyn 3 ac adroddodd 46% fod mwynhad eu plentyn o ddysgu wedi cael ei gynnal yn CA2. Roedd traean (36%) yn credu bod mwynhad eu plentyn wedi cynyddu. Dim ond 15% oedd yn credu ei fod wedi lleihau[22].

**Cyflawniad Addysgol yn y Cyfnod Sylfaen**

4.48 Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn fodlon ar yr Asesiadau Canlyniad Diwedd Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, fel y nodwyd adroddodd rhai ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen fod y Maes Dysgu 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' yn arbennig o anodd ei fesur ac felly ei asesu.

4.49 Canfuom hefyd fod bron i un o bob pump (18%) o athrawon yn pryderu ynglŷn â sut i gyfleu canlyniadau'r Asesiad Canlyniad Diwedd Cyfnod Sylfaen i rieni/gofalwyr, ac amlygodd sawl un faterion yn ymwneud â mapio canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen i 'lefelau' Cyfnod Allweddol 2.

4.50 Mater arall a amlygwyd yn flaenorol (Davies *et al.* 2013) yw'r graddau y mae lefelau cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen yn gymesur â lefelau cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 1, ac felly'n gymaradwy â hwy.

4.51 Y bwriad oedd y byddai Lefel 2 asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 1 yn gyfwerth â Deilliant 5 asesiadau athrawon y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mewn ysgolion Peilot a Dechrau'n Gynnar yn arbennig, nid oedd llawer o gysondeb ar draws y ddwy gyfundrefn asesu. Er ei bod yn ymddangos bod hyn wedi gwella yn yr ysgolion


[22] Roedd 3% yn ansicr a oedd eu plentyn yn mwynhau CA2 yn fwy neu'n llai na'r Cyfnod Sylfaen.

Cyflwyno'n Derfynol, mae'n dal i olygu ei bod hi'n anodd cymharu lefelau cyflawniad yn y Cyfnod Sylfaen â CA1 a'i rhagflaenodd.

4.52 Er hynny, roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn credu y bu gwelliannau mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), yn enwedig o ran sgiliau llafaredd a chyfathrebu plant, a rhifedd (Ffigur 15), er bod cyfran sylweddol o benaethiaid ac ymarferwyr arweiniol nas cynhelir a ariennir yn credu na fu newid o ran lefelau cyflawniad.

4.53 Yn ddiddorol, roedd penaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Cymraeg yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi gweld gwelliant mewn sgiliau llythrennedd Cymraeg plant ers gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 15. Effaith Ganfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar Lythrennedd a Rhifedd**




P – Penaethiaid (n = 344); ACS – Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen (n = 256); NCA – Ymarferwyr arweiniol nas cynhelir a ariennir (n = 241)

4.54 Mae'n bosibl mai'r hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r ffaith bod oddeutu 20% o benaethiaid yn credu bod lefelau llythrennedd a

rhifedd yn waeth yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, roedd rhai ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn credu bod camddehongli arweiniad y Cyfnod Sylfaen gan rai athrawon wedi arwain at ddirywiad mewn safonau llythrennedd a rhifedd oherwydd gormod o bwyslais ar ddewis gan blant ar draul canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol.

4.55 Er gwaethaf pryderon ynglŷn â sut i asesu 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' plentyn, roedd llawer o ymarferwyr yn credu bod safonau yn y maes hwn wedi gwella hefyd.

4.56 Roedd llawer llai o gytundeb ymhlith ymarferwyr ynglŷn ag effaith y Cyfnod Sylfaen mewn Meysydd Dysgu eraill, h.y. ym Meysydd Dysgu 'Datblygiad Creadigol', 'Datblygiad Corfforol' a 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd'.

4.57 Roedd barn gymysg hefyd ynglŷn ag effaith y Cyfnod Sylfaen ar 'Ddatblygu'r Gymraeg, ond roedd 58% o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen a holwyd, a 42% o'r rhai hynny a gyfwelwyd yn credu bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at welliant mewn datblygu sgiliau Cymraeg plant mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg.

4.58 Yn wir, er gwaethaf pryderon ynglŷn â thensiwn posibl rhwng datblygu'r Gymraeg a'r Cyfnod Sylfaen, canfuom fod defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn gyffredin yn y rhan fwyaf o ysgolion Saesneg, ac yn dal i fod yn bresennol ar lafar (e.e. yn ystod amser cinio) ac yn ddi-eiriau (e.e. ar arddangosiadau wal) o amgylch ysgolion.

4.59 Am y rhesymau a nodwyd cynt, nid yw'n bosibl cadarnhau'r effaith ganfyddedig ar gyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o gymharu â'i ragflaenydd, sef CA1. Fodd bynnag, gallwn archwilio'r berthynas rhwng lefelau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a chyflawniad

disgyblion. Mewn geiriau eraill, a yw disgyblion sy'n mynd i ysgolion sydd wedi gweithredu mwy o egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o gyflawni'n uwch mewn asesiadau athrawon o gymharu â disgyblion mewn ysgolion nad ydynt wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen i'r un graddau?

4.60 Gellir ymgymryd â'r dadansoddiad hwn ar gyfer ychydig dros 1,000 o ddisgyblion yn unig a gyrhaeddodd ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y 41 ysgol yn astudiaeth achos y gwerthusiad yn 2011/12[23]. Fodd bynnag, mae canlyniadau hyn yn awgrymu, ar ôl rheoli ar gyfer nifer o nodweddion allweddol y disgyblion a'u hysgolion, po fwyaf lefel gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn eu hysgol, y mwyaf tebygol yw disgyblion o gyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)[24].

4.61 Mae Tabl 7 yn cyflwyno canlyniadau tri dadansoddiad atchweliad deuaidd logistaidd sy'n ceisio amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd disgyblion yn cyflawni'r DCS. Ar gyfer pob newidyn a ystyriwyd yn y ddwy set o ganlyniadau, cyflwynir y Gymhareb Ods – hynny yw, y tebygolrwydd y bydd disgybl sydd â'r nodwedd hon yn cyflawni'r DCS o gymharu â disgyblion eraill tebyg nad oes ganddynt y nodwedd benodol hon (*mewn llythrennau italig*).

4.62 Os nad oes gwahaniaeth yn y tebygolrwydd y bydd disgybl yn cyflawni'r DCS o gymharu â phlant eraill sydd heb y nodwedd honno, byddai'r gymhareb ods yn cyfateb i 1.0. Mae unrhyw werth islaw 1.0 yn awgrymu eu bod yn llai tebygol o gyflawni'r DCS, ac mae gwerth o fwy nag 1.0 yn awgrymu eu bod yn fwy tebygol o gyflawni'r DCS.

[23] Mae hyn oherwydd bod gan y gwerthusiad wybodaeth yn ymwneud â lefelau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn y 41 ysgol hyn yn yr astudiaeth achos yn unig.
[24] Cyflawnir Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) os bydd disgybl yn cyflawni Deilliant 5 neu uwch ym Meysydd Dysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg), Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

**Tabl 7. Amcangyfrif y Tebygolrwydd o Gyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS), 2011/12**

| Atchweliad Logistaidd Deuaidd: DCS | | Model A | Model B | Model C |
|---|---|---|---|---|
| Achosion dilys | | 1,091 | 1,065 | 794 |
| Achosion coll | | 10 | 26 | 297 |
| $R^2$ Cox & Snell | | 0.268 | 0.275 | 0.257 |
| **Newidyn** | | **Disgwyliedig (B) (Cymarebau Ods)** | | |
| Cysonyn | | 16.55 | 20.60 | 28.58 |
| **Sgôr y Cyfnod Sylfaen (safonedig)** | | | **1.55*** ** | **1.67** ** |
| Effeithiolrwydd ysgol blaenorol (CA1, 2010/11) | | | | 4.38*** |
| Rhyw | *Gwrywaidd* | | | |
| | Benywaidd | 1.37 | 1.37 | 1.21 |
| Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) | *D PYDd* | | | |
| | PYDd | 0.62* | 0.61* | 0.83 |
| Ethnigrwydd | *Gwyn Prydeinig* | | | |
| | Heb fod yn Wyn Prydeinig | 0.76 | 0.76 | 0.72 |
| Darpariaeth AAA | *Dim AAA* | | | |
| | AAA | 0.05*** | 0.05*** | 0.03*** |
| Consortia rhanbarthol | *Gogledd Cymru* | | | |
| | De-orllewin a Chanolbarth Cymru | 0.56 | 0.54 | 0.52 |
| | Canol De Cymru | 0.75 | 0.65 | 0.50 |
| | De-ddwyrain Cymru | 1.54 | 1.58 | 1.14 |
| % y disgyblion ysgol: | | | | |
| sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | | 0.97*** | 0.97*** | 0.98* |
| sydd â darpariaeth AAA | | 1.03*** | 1.03*** | 1.03** |
| nad ydynt yn Wyn Prydeinig | | 1.00 | 1.00 | 1.00 |

* p<0.05, ** p<0.01, *** p<0.001

4.63 Cynrychiolir graddau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yma gan Sgôr y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn seiliedig ar gyfres o arsylwadau ystafell ddosbarth ym mhob un o ysgolion yr astudiaeth achos. Sgôr safonedig yw hon fel bod y gymhareb ods yn cyfateb i gynnydd mewn un gwyriad safonol yn Sgôr y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Sgôr yn ddangosydd o'r graddau y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu mewn ysgolion yn unig. Felly, nid yw'r graddau y mae'n amrywio

rhwng ysgolion yn bwysig yma. Yn hytrach, ein prif ddiddordeb yw (a) a yw cynnydd yn Sgôr y Cyfnod Sylfaen (h.y. mwy o ddefnydd o addysgeg y Cyfnod Sylfaen) yn gysylltiedig â chynnydd neu ostyngiad yn yr ods neu'r tebygolrwydd y bydd disgybl yn cyflawni'r DCS, a (b) a yw'r canlyniadau hyn yn ystadegol arwyddocaol.

4.64 Mae'r canlyniadau ar gyfer Model A yn Nhabl 7 yn darparu'r cymarebau ods o gyflawni'r DCS heb ystyried Sgôr y Cyfnod Sylfaen (h.y. amrywiadau yn y lefel gweithredu). Felly, mae hyn yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn sylweddol lai tebygol (cymhareb ods = 0.62, $p<0.052$) o gyflawni'r DCS na disgyblion cyfatebol nad ydynt yn gymwys i gael PYDd. Mae disgyblion PYDd 38% yn llai tebygol o gyflawni'r DCS o gymharu â disgyblion nad ydynt yn cael PYDd.

4.65 Mae Model B yn ailadrodd yr un dadansoddiad heblaw ei fod yn cynnwys Sgôr y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol a fynychodd y disgybl i gynrychioli'r amrywiad mewn gweithredu.

4.66 Yr hyn sydd bwysicaf yw bod cysylltiad arwyddocaol rhwng cynnydd yn y lefel gweithredu a chynnydd yn y tebygolrwydd bod disgybl wedi cyflawni'r DCS yn 2011/12 (a amlygwyd mewn **teip trwm**) (cymhareb ods = 1.55, $p< 0.001$). Yn wir, mae graddau hyn yn eithaf sylweddol – mae'r canlyniadau'n awgrymu bod rhai disgyblion dros 50% yn fwy tebygol o gyflawni'r DCS o gymharu â disgyblion tebyg yn seiliedig ar y graddau y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i weithredu yn eu hysgol[25].

4.67 Yn olaf, mae Model C yn ceisio rheoli ar gyfer effeithiolrwydd blaenorol ysgol yn seiliedig ar lefelau cyflawniad CA1 y garfan flaenorol yn 2010/11. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn dangos bod ysgolion a oedd yn fwy 'effeithiol' nag ysgolion eraill yn flaenorol yn parhau i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd disgybl yn

[25] Mae cynnydd un gwyriad safonol yn sgôr y Cyfnod Sylfaen yn cyfateb yn fras i symud o fod yn ysgol 'gyffredin' i fod yn ysgol sydd ymhlith y pumed gorau o ysgolion sy'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

cyflawni'r DCS. Yn wir, mae dadansoddi pellach yn dangos bod ysgolion y barnwyd eu bod yn 'effeithiol' yn flaenorol yn fwy tebygol o fod wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, ar gyfartaledd, nag ysgolion sy'n ymddangos fel petaent wedi bod yn llai 'effeithiol', o leiaf yn y sampl fach hon o ysgolion.

4.68 Er hynny, hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer 'effeithiolrwydd' blaenorol ysgol (i'r graddau y mae'n bosibl gwneud hynny), mae'n dal i fod yn wir bod disgyblion sy'n mynd i ysgolion sydd â lefelau cymharol uchel o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol o lawer o gyflawni'r DCS (cymhareb ods = 1.67, $p<0.001$).

4.69 Mae dadansoddi pellach yn dangos nad oes cysylltiad cadarnhaol rhwng amrywiadau mewn cymarebau oedolyn:plant rhwng ysgolion a chynnydd yn y tebygolrwydd y bydd disgybl yn cyflawni'r DCS. Mewn gwirionedd, ceir gostyngiad bach yn y tebygolrwydd, sy'n golygu bod cynnydd 10% yn y tebygolrwydd na fydd disgybl yn cyflawni'r DCS am bob pump yn llai o ddisgyblion fesul oedolyn (h.y. cymarebau oedolyn:plant gwell) ar draws blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen mewn ysgol[26].

4.70 Mae cymhariaeth fanwl o'r berthynas rhwng deuddeg elfen addysgeg gwahanol y Cyfnod Sylfaen a chyflawniad addysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn awgrymu mai'r cyfuniad o wahanol elfennau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwell i blant yn hytrach nag unrhyw elfen addysgol benodol unigol. Mewn geiriau eraill, y Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd sy'n cyfrannu at y cyflawniad hwn a gofnodwyd.

4.71 Fodd bynnag, canfyddwn fod plant ddwywaith mor debygol o gyrraedd lefelau disgwyliedig (h.y. Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen neu uwch) mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad

[26] Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn golygu bod gan gymharu cymarebau oedolyn:plant rhwng y Cyfnod Sylfaen a'i ragflaenydd, sef CA1, gysylltiad negyddol â chyflawniad addysgol. Mae'n cymharu amrywiad rhwng ysgolion mewn cymarebau oedolyn:plant yn unig yng nghyd-destun gwelliant cyffredinol mewn cymarebau oedolyn:plant.

Mathemategol' os addysgir y Meysydd Dysgu hyn gyda lefel gymharol uchel o ddewis a chyfranogiad gan blant.

**Cyflawniad Addysgol yng Nghyfnod Allweddol 2**

4.72 O ran effaith tymor canolig y Cyfnod Sylfaen, roedd y rhan fwyaf o athrawon Blwyddyn 3 a gyfwelwyd yn ansicr a oedd y Cyfnod Sylfaen wedi cael unrhyw effaith ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 2 neu a fyddai'n cael unrhyw effaith arnynt.

4.73 Fodd bynnag, mae dadansoddi'r tua 1,500 o ddisgyblion cyntaf a fynychodd ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen ac a gyrhaeddodd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2) rhwng 2008/09 a 2010/11 yn awgrymu bod eu lefelau cyrhaeddiad yn CA2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella o gymharu â chyrhaeddiad disgyblion tebyg na wnaethant gymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen (Taylor *et al.* 2015b).

4.74 O ran Saesneg, ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion unigol allweddol y disgyblion a'r ysgolion y maent yn mynd iddynt, amcangyfrifwn fod cyfran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch yn CA2 yn cynyddu 5.5% pwynt o leiaf yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gyda gwelliant 3.5% pwynt o leiaf mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae gwelliannau mewn cyflawniad mathemateg yn CA2 yn llai amlwg o lawer (er yn welliant o hyd) – amcangyfrifwn fod 0.4% pwynt yn fwy o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn mathemateg ar ôl cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen.

**Anghydraddoldebau mewn Cyflawniad Addysgol**

4.75 Amcan ymhlyg o'r Cyfnod Sylfaen a hefyd wedi cadarnhau mewn *Adeiladu Cymunedau* (Llywodraeth Cymru 2013b) yw lleihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau cymdeithasol ac addysgol. Er enghraifft, sefydlodd Llywodraeth Cymru amcan i leihau'r bwlch

mewn lefelau cymhwyster rhwng dysgwyr o 7 mlwydd oed sy'n gymwysterol am brydau ysgol am dim a'r rhai sydd ddim yn gymwysterol am brydau ysgol am ddim, sy'n cyflawni lefelau disgwyliedig erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, fel sydd wedi mesur can y Dangoswr Cyfnod Sylfaen, o fewn 10 y cant erbyn 2017 [o 18.3% yn 2012] (Llywodraeth Cymru 2013b:14).

4.76 Mae eisoes wedi'i adrodd ei bod yn ymddangos y bu rhywfaint o welliant arwyddocaol mewn presenoldeb ysgol ac absenoliaeth barhaus yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad yn canfod llawer o welliant yn y gwahaniaethau mewn presenoldeb ysgol rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r holl ddisgyblion eraill (Taylor *et al.* 2015b).

4.77 O ran effaith y Cyfnod Sylfaen ar anghydraddoldebau mewn cyflawniad addysgol, roedd tua hanner y penaethiaid (47%) a'u hymarferwyr arweiniol yn y Cyfnod Sylfaen (54%) yn credu ei fod yn helpu i leihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad. Fodd bynnag, roedd cyfran fawr (43% o benaethiaid a 38% o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen) nad oeddent yn credu ei fod yn cael unrhyw effaith ar leihau anghydraddoldebau mewn cyflawniad.

4.78 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg (e.e. 53% o ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen) yn credu bod plant sy'n byw mewn tlodi yn elwa ar y Cyfnod Sylfaen, roedd gwahaniaeth barn sylweddol yn hyn o beth.

4.79 Dywedodd rhai penaethiaid fod plant sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn elwa ar y Cyfnod Sylfaen gan ei fod yn cynnig mwy o ddysgu trwy brofiad sy'n brin iawn gartref. Yn yr un modd, roedd rhai o'r farn ei fod yn cynnig addysgeg fwy 'pleserus' a 'phwysau isel' sy'n golygu bod plant yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu er eu bod ar ei hôl hi o gymharu â'u cyfoedion.

4.80 Ond, i'r gwrthwyneb, roedd ymarferwyr eraill yn credu bod y diffyg strwythur ac amgylchedd dysgu mwy anffurfiol yn golygu nad yw plant sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn datblygu eu sgiliau sylfaenol (llythrennedd a rhifedd) sydd, yn ei dro, yn rhoi eu dysgu dilynol dan anfantais.

4.81 Yn ogystal, gofynnwyd i benaethiaid, eu hymarferwyr arweiniol yn y Cyfnod Sylfaen ac ymarferwyr arweiniol lleoliadau nas cynhelir a ariennir, pa effaith yr oeddent yn credu yr oedd y Cyfnod Sylfaen yn ei chael ar grwpiau eraill o blant. Crynhoir y canlyniadau ar gyfer ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion yn Nhabl 8 (ceir canlyniadau tebyg iawn ar gyfer grwpiau eraill o ymarferwyr).

**Tabl 8. Effaith Ganfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar Wahanol Grwpiau o Ddisgyblion (gan Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn Ysgolion)**

| | | | % o ymatebwyr |
|---|---|---|---|
| | Dan anfantais | Dim newid | Wedi elwa |
| Bechgyn | 6 | 9 | 85 |
| AAA | 6 | 16 | 78 |
| Iaith gyntaf heb fod yn Gymraeg/Saesneg | 4 | 34 | 62 |
| Ganwyd yn yr haf | 3 | 35 | 62 |
| Heb gael eu haddysgu yn eu hiaith gyntaf | 4 | 38 | 58 |
| Mwy galluog a thalentog | 13 | 31 | 56 |
| Merched | 5 | 42 | 53 |
| Byw mewn tlodi | 2 | 45 | 53 |
| Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 2 | 59 | 39 |
| Cefndiroedd breintiedig | 3 | 58 | 39 |

Wedi seilio ar 256 o ymatebion dilys

4.82 Credwyd bod bechgyn, plant ag Anghenion Addysgol Arbennig, plant yr oedd y Gymraeg/Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt a phlant a anwyd yn yr haf yn elwa ar y Cyfnod Sylfaen. Amlygwyd y grwpiau hyn gan Gynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdodau Lleol

hefyd, a oedd o'r farn bod y cynnydd yn y defnydd o'r amgylchedd awyr agored a dysgu mwy gweithredol yn arbennig o fuddiol i fechgyn.

4.83 Roedd grwpiau ffocws gydag ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig a/neu sydd ag anghenion ieithyddol ychwanegol yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn gallu cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn, os caiff ei weithredu'n gywir.

4.84 Yn arbennig, gwnaethant nodi bod pwysigrwydd ymagwedd ddatblygiadol tuag at ddysgu, mwy o hyblygrwydd yn y cwricwlwm a sicrhau bod y blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio mwy ar y plentyn, yn arwain at fuddion arwyddocaol i blant AAA a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY). Roeddent hefyd o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn annog yr addysgeg fwy deniadol ac amlsynhwyraidd sydd ei hangen ar y plant hyn yn aml.

4.85 Roedd nifer o ymarferwyr AAA hefyd yn credu bod mwy o ysgolion prif ffrwd yn fwy parod i dderbyn plant ar sail ran-amser o ysgolion arbennig oherwydd bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn gallu darparu ar gyfer eu hanghenion.

4.86 Fodd bynnag, roedd rhai ymarferwyr AAA a SIY yn fwy pwyllog, gan awgrymu bod rhai grwpiau penodol o blant AAA, fel y rhai hynny ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol neu sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth, yn teimlo fel petaent yn cael eu 'gorlethu' o bosibl gan 'ddiffyg strwythur' canfyddedig i'w dysgu.

4.87 Mae pryder arall yn ymwneud â phwynt a wnaed yn flaenorol, sef bod rhai plant ag AAA mwy ysgafn (h.y. lle nad ydynt yn cael unrhyw gymorth ychwanegol ffurfiol) yn dod yn fwy dibynnol ar y nifer uwch o oedolion yn yr ystafell ddosbarth, sy'n cyflwyno her pan fyddant yn dechrau Cyfnod Allweddol 2.

4.88 Mae dadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (CDdGD) yn dangos nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, hyd yma, yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y gwahaniaethau mewn canlyniadau addysgol rhwng disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn seiliedig ar eu rhyw, eu hethnigrwydd neu eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (dangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol) (Davies *et al.* 2013, Taylor *et al.* 2015b).

4.89 Er enghraifft, mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif bod merched dros 40% yn fwy tebygol na bechgyn o gyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Saesneg CA2 cyn y Cyfnod Sylfaen. Ond, ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, maent bellach bron 75% yn fwy tebygol o gyflawni Lefel 4 neu uwch o gymharu â bechgyn.

4.90 O ran disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif eu bod bron 30% yn llai tebygol o gyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Saesneg CA2 na disgyblion eraill. Ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, mae'r gwahaniaeth hwn yn parhau yr un fath.

4.91 Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn gyfyngedig i nifer gymharol fach o blant a fynychodd ysgolion Peilot y Cyfnod Sylfaen yn gynnar yn y broses o'i weithredu ac sydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2[27]. Yn ogystal, ni all y dadansoddiad hwn ystyried amrywiadau mewn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen rhwng ysgolion, y canfuwyd ei fod yn gysylltiedig â chyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, fel y dangoswyd yn flaenorol.

4.92 Er gwaethaf hyn, mae'n werth nodi bod y cyfraddau cyfranogiad a lles plant a arsylwyd yn ysgolion yr astudiaeth achos yn uwch yn

[27] Mae dadansoddiad o gyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi'i gyflwyno mewn mannau eraill yn seiliedig ar y niferoedd bach hyn o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad wedi'i seilio ar is-grwpiau hyd yn oed yn llai o ddisgyblion, ac felly ceir mwy o ansicrwydd ynglŷn â dilysrwydd y canlyniadau hyn.

gyffredinol ar gyfer merched na bechgyn[28], hyd yn oed mewn ysgolion sydd wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen i raddau helaeth. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o ffordd i fynd o hyd cyn y gall y Cyfnod Sylfaen fynd i'r afael yn llawn â gwahaniaethau mewn profiadau addysgol bechgyn a merched.

[28] Nid oedd yn bosibl edrych yn systematig ar gyfranogiad a lles disgyblion ar gyfer grwpiau eraill o blant.

# 5 Gwerthusiad Economaidd o'r Cyfnod Sylfaen

5.1 Mae'r bennod hon yn yr adroddiad yn rhoi gwerthusiad economaidd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn benodol, mae'n amlinellu pa wariant newydd sydd ynghlwm wrth y Cyfnod Sylfaen a sut mae hwnnw'n cymharu ag ymyriadau eraill a chost addysg y blynyddoedd cynradd yn gyffredinol. Yna, mae'r bennod yn amcangyfrif yr effaith hirdymor bosibl ar ganlyniadau diweddarach mewn addysg ac yn y farchnad lafur. Mae hyn yn bwysig wrth helpu i bennu cyfanswm costau a buddion cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

5.2 O ran y testunau economaidd ar fuddion addysg, mae Heckman yn eiriol o blaid buddion ymyriadau addysgol cynnar, yn enwedig mewn grwpiau difreintiedig. Mae wedi darganfod bod buddsoddi mewn addysg y blynyddoedd cynnar, yn benodol, yn gallu hybu effeithlonrwydd a lleihau anghydraddoldeb. Nid yw effeithlonrwydd unrhyw ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar, fodd bynnag, yn debygol o gael eu cynnal oni bai bod rhaglenni dysgu o ansawdd uchel yn eu holynu (Cunha a Heckman (2007) a Heckman (2007)).

5.3 Yn ogystal, mae Heckman yn nodi bod mwy i brofiad addysgol o safon na dim ond gwelliannau mewn profion cyflawniad, a byddai hefyd yn cynnwys ffactorau anwybyddol sydd ynghlwm wrth lwyddiant yn ddiweddarach mewn bywyd, yn y farchnad lafur ac mewn meysydd eraill. Awgryma fod sgiliau economaidd-gymdeithasol (h.y. sgiliau cymeriad, fel dyfalbarhad, astudrwydd, symbyliad, hunanhyder, cymdeithasgarwch, rheoli awyddau ac ati), yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, wrth bennu llwyddiant mewn bywyd. Mae addysg hefyd yn gallu dylanwadu ar y sgiliau hyn. Gall y sgiliau hyn fod yn hynod bwysig wrth bennu cyflogaeth, cyrhaeddiad galwedigaethol, cyflog, iechyd, lles, hapusrwydd a gweithgarwch troseddol.

5.4 Dywed Heckman fod modd cymryd camau cywirol yn ddiweddarach mewn bywyd, ond bydd hynny'n llawer mwy costus a llai effeithiol. O ganlyniad, mae ef ac eraill yn darganfod adenillion cymharol uchel yn sgil buddsoddi mewn addysg, yn enwedig addysg yn y blynyddoedd cynnar ac yn enwedig pan gaiff ei chyfeirio at grwpiau difreintiedig. Mae tystiolaeth yn y Deyrnas Unedig hefyd wedi darganfod bod profiadau'r blynyddoedd cynnar yn gallu hybu datblygiad cyffredinol plant (Trysorlys EM 2004 a Melhuish 2004).

5.5 Wrth reswm, mae ceisio dal a mesur *holl* fanteision y Cyfnod Sylfaen yn hynod anodd. Mae rhai manteision yn weddol benodol a byrdymor, fel gwella canlyniadau dysgu erbyn 7 oed, tra bod eraill yn eang iawn a hirdymor, fel cynyddu addysg ôl-orfodol a lleihau gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. O gofio nad oes disgwyl i lawer o'r canlyniadau buddiol disgwyliedig hyn ddod i'r golwg tan ymhell yn y dyfodol, nid yw gwerthusiad cynhwysfawr o bob agwedd ar y Cyfnod Sylfaen yn bosibl ar hyn o bryd ac, felly, dyma yw ffocws yr argymhellion ar gyfer gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, a amlinellir ym mhennod 6.

5.6 Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes gan Heckman, mae sgiliau'n ennyn sgiliau ac mae cyrhaeddiad addysgol yn y dyfodol yn adeiladu ar gyrhaeddiad cynt. Felly, ystyrir amcangyfrifon ynghylch sut gallai gwelliannau i lefelau cyrhaeddiad yn 7 oed ddylanwadu ar berfformiad mewn TGAU yn y dyfodol. Yn ddamcaniaethol, gellid ymestyn y dadansoddiad hwn i welliannau tebygol mewn cyfraddau cyfranogi mewn addysg ôl-orfodol, fel addysg bellach ac addysg uwch, ynghyd â gwelliannau cysylltiedig mewn cyflogau a gostyngiad yn y tebygolrwydd o gael cyfnodau'n ddi-waith. Gellid neilltuo gwerth ariannol i hyn oll. Byddai rhoi gwerth ariannol ar unrhyw welliant cysylltiedig mewn lles unigol yn fwy o broblem.

5.7 Felly, o ystyried natur fras iawn rhai o ganlyniadau targedig y Cyfnod Sylfaen, nid yw dull cost a budd llawn yn realistig. Yn ogystal â bod

yn anodd eu mesur, mae llawer o fanteision y rhaglen hefyd yn rhai sydd wedi'u targedu i ymddangos yn y dyfodol pell. Er y gellid cyfrif yn briodol am fanteision yn y dyfodol sydd wedi'u mesur, byddai hyn yn awgrymu manwl gywirdeb i raddau na ellir ei gyfiawnhau.

5.8 Yn lle hynny, rydym yn cynnal Dadansoddiad Cost a Chanlyniad dangosol nad yw'n gofyn am gyfrif am gostau a buddion yn y dyfodol, yn wahanol i Ddadansoddiad Cost a Budd, felly gellir eu mesur yn yr un unedau. Yn hytrach, mae'n amlinellu bod rhai costau a buddion yn anodd eu mesur ond na ddylid eu hanwybyddu gan y gallant fod yn adborth pwysig i lunwyr polisi. Gall buddion o'r fath gael eu hamlygu gan benaethiaid, athrawon, rhieni, plant, o grwpiau ffocws ac o arsylwadau gwerthuswyr ac, er ei bod hi'n anodd rhoi gwerth ariannol arnynt, ni ddylid eu hanwybyddu.

5.9 I daflu goleuni ar y materion hyn, rydym hefyd yn ystyried mesur Gwerth am Arian y Cyfnod Sylfaenol ac, yn benodol, y 3E yn Saesneg – darbodaeth (lleihau cost adnoddau), effeithlonrwydd (pa mor dda y mae mewnbynnau'n cael eu troi'n allbynnau) ac effeithiolrwydd (i ba raddau y caiff amcanion eu bodloni) (DfID 2011).

5.10 Fodd bynnag, mae amcangyfrif y buddion economaidd yn fanwl gywir yn anodd iawn, yn enwedig o ran yr effeithiau ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn, gan fod y buddion i'r farchnad lafur, er enghraifft, gryn amser i ffwrdd o ffynhonnell y budd cychwynnol. Felly, mae asesu gwerth am arian, neu gostau a buddion, y Cyfnod Sylfaen yn anodd iawn ac mae nifer o gyfyngiadau'n perthyn iddo. Serch hynny, mae'n rhoi awgrym o effaith hirdymor bosibl y Cyfnod Sylfaen a sut gellir cymharu buddion hyn â chostau cynyddol y Cyfnod Sylfaen.


**Costau'r Cyfnod Sylfaen**

5.11 Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, mae tri phrif faes gwariant ychwanegol gan ysgolion ynghlwm wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, sef:

i. Staffio;
ii. Hyfforddiant a chymorth; a
iii. Datblygiadau cyfalaf.

5.12 Dangosir cyfanswm cost y Cyfnod Sylfaen (a'r gost fesul disgybl sy'n cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen) yn Ffigur 16[29]. Mae hyn yn dangos bod cyfanswm lefel y gwariant rheolaidd ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ychydig o dan £100 miliwn ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i £1,000 ychwanegol y disgybl y flwyddyn yn y Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 16. Dyraniadau Refeniw'r Cyfnod Sylfaen (cyfanswm a fesul disgybl), 2004-05 i 2011-12/2014-15**




[29] Mae'n bwysig nodi nad yw dyraniadau cyllideb o reidrwydd yn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei wario (h.y. gwariant). Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn seiliedig ar ddyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ym mhennod 2, awgrymom y gallai cost prosiectau datblygiadau cyfalaf mewn ysgolion fod yn fwy na'r dyraniad cyllideb cenedlaethol. Fodd bynnag, gellid dadlau bod unrhyw ffynonellau gwariant eraill eisoes yn y system; felly, rydym yn canolbwyntio'n bennaf fan hyn ar y costau ychwanegol. Serch hynny, nid yw hyn yn awgrymu nad oes unrhyw gostau cyfle na fu'n bosibl cyfrifo amdanynt rywle arall yn y system addysg.

5.13 Un ffordd o roi'r costau hyn mewn cyd-destun yw cymharu cost y Cyfnod Sylfaen â mentrau perthynol eraill. Er enghraifft, cost Sure Start yn Lloegr oedd £1,300 fesul plentyn cymwys y flwyddyn yn 2009-10 (Meadows 2011). Mae Tabl 9 yn amlinellu cyfanswm costau rheolaidd nifer o fentrau addysgol mawr eraill. Wrth reswm, mae'r Cyfnod Sylfaen yn 'ymyrraeth' bwysig yn yr ystyr hon.

**Tabl 9. Crynodeb o Grantiau Addysg yng Nghymru**

| Grant | Sefydlwyd | Cyllideb | Nifer y plant | Amcan o'r gost y plentyn y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 2011-12 | £32.6M | 452,000 | £72 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion[1] | 2012-13 | £32.4M | 70,000 | £463 |
| Grant y Cyfnod Sylfaen | 2004-05 | £95.0M | 103,000[2] | £922 |

1 – Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion.
2 – Nid yw hyn yn cynnwys plant oedran Meithrin yn y Cyfnod Sylfaen.

5.14 Fodd bynnag, i gymharu cost y Cyfnod Sylfaen â chostau addysg cyn ei gyflwyno, mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif bod cyfanswm cost addysg y blynyddoedd cynradd i Lywodraeth Cymru ar gyfer plentyn yng Nghymru wedi codi o £25,241 i £28,019 y disgybl (ar sail ffigurau 2012-13). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd 11% yng nghostau cenedlaethol addysg y blynyddoedd cynnar.

**Buddion Hirdymor y Cyfnod Sylfaen**

5.15 Er mwyn pennu buddion hirdymor posibl y Cyfnod Sylfaen, mae'r dadansoddiad yn defnyddio gwelliannau a welwyd mewn cyflawniad yn CA2 (ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) (a grynhoir yn y bennod flaenorol ac yn fanwl yn Taylor *et al.* 2015b) i ragweld pa

effaith y gallai'r gwelliannau hyn ar ddiwedd ysgol gynradd ei chael ar raddau TGAU yn ddiweddarach. Gwnawn hyn gan ddefnyddio'r camau canlynol:

i. Ailgyfrifo nifer y disgyblion a fyddai wedi cyflawni Lefel 4 yn CA2 petaent wedi cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen;
ii. Defnyddio cyfraneddau blaenorol o ddisgyblion Lefel 4 sy'n cyflawni graddau TGAU er mwyn ailgyfrifo cyfanswm nifer y disgyblion Lefel 4 sy'n cyflawni graddau TGAU. Mae hyn yn darparu ffin isaf yr amcangyfrifon; a
iii. Chaiff ffin uchaf yr amcangyfrifon ei chyfrifo trwy amcangyfrif nifer diwygiedig y disgyblion sy'n cyflawni islaw Lefel 4 yn CA2 sydd yna'n cyflawni graddau TGAU (ar sail cyfraneddau blaenorol) ac ychwanegu hyn at y ffin is.

5.16 Mae canlyniadau'r uchod yn cael eu cyflwyno yn Nhabl 10. Er enghraifft, gyda'r gwelliannau a welwyd yn lefelau cyflawniad CA2 mewn Saesneg, amcangyfrifir y gellid gweld cynnydd o rhwng 1.6 a 3.4 o bwyntiau canran yng nghyfrannedd y disgyblion sy'n cyflawni graddau C neu uwch mewn Saesneg TGAU (h.y. y gwahaniaeth yn y gyfrannedd na fuont drwy'r Cyfnod Sylfaen a ffiniau is ac uwch yr amcan o gyfraneddau'r rhai a fuodd drwy'r Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni'r graddau hyn).

**Tabl 10. Effaith Ragweledig y Cyfnod Sylfaen ar Raddau TGAU (gan ddefnyddio Gwahaniaethau wedi'u Haddasu)**

| TGAU | % yn cyflawni A+ | | % yn cyflawni C+ | | % yn cyflawni G+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Heb fod drwy'r CS | *CS* | Heb fod drwy'r CS | *CS* | Heb fod drwy'r CS | *CS* |
| Saesneg | 16.9 | *18.0* | 66.8 | *68.4-70.2* | 99.3 | *88.3-99.4* |
| Mathemateg | 15.7 | *15.8* | 61.7 | *60.2-61.9* | 98.0 | *84.1-98.0* |
| Gwyddoniaeth | 19.5 | *20.2-20.3* | 68.8 | *70.1-70.9* | 98.5 | *93.8-98.7* |

5.17 Yn anochel, mae'n anodd iawn trosi'r gwelliannau addysgol hyn yn fuddion economaidd, nid lleiaf oherwydd y gallai buddion y Cyfnod Sylfaen fod yn rhai cyffredinol (h.y. yn berthnasol i bob plentyn yng Nghymru). Fodd bynnag, os rhagdybir y gallai'r Cyfnod Sylfaen gynyddu cyfrannedd y disgyblion sy'n cyflawni TGAU gyda graddau C neu uwch rhwng 1% a 4% pwynt, byddai hyn yn cyfateb i ryw 310-1,240 o ddisgyblion ychwanegol yn cyrraedd trothwyon Lefel 2 bob blwyddyn.

5.18 Yn ôl dadansoddiad gan yr ONS (2011), roedd bwlch o 7% yng nghyflog oedolion â chymwysterau Lefel 2 o gymharu â chymwysterau Lefel 1 yn 2010, gyda chyflog canolrifol yr awr o £8.68 ac £8.07 yn y drefn honno. Ar sail nifer cyfartalog yr oriau sy'n cael eu gweithio yn y DU (1,652 yn ôl yr OECD), mae hyn gyfwerth â £1,008 o gyflog yn ychwanegol y flwyddyn i'r rhai sy'n elwa o'u cyflawniad mewn TGAU. Mae hyn rhwng £312,480 a £1,249,920 y flwyddyn mewn cyfanswm enillion ychwanegol i'r rhai sy'n elwa o gyrraedd Lefel 2 yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

5.19 Er nad yw'r amcan hwn o enillion ychwanegol yn agos at gost flynyddol reolaidd y Cyfnod Sylfaen (rhwng £95 a £99 miliwn), nid yw hyn yn cyfrif am (a) enillion cronnus y rhai sy'n elwa o'r Cyfnod Sylfaen, (b) enillion ychwanegol disgyblion eraill y Cyfnod Sylfaen a allai hefyd fod wedi elwa o'r Cyfnod Sylfaen, ac (c) buddion neu arbedion economaidd eraill sydd ynghlwm wrth gynnydd mewn enillion.

**Darbodaeth ac Effeithlonrwydd y Cyfnod Sylfaen**

5.20 Mae'n anodd iawn amcangyfrif effeithlonrwydd y Cyfnod Sylfaen gan ei fod yn bolisi cyffredinol ac nid oes unrhyw gynlluniau cyfatebol wedi'u costio ar gael at ddiben cymharu. At hynny, fel y trafodwyd cynt, mae'n anodd iawn gwahanu costau'r Cyfnod Sylfaen oddi wrth gostau blaenorol addysg y blynyddoedd cynradd, yn enwedig o

safbwynt yr elfennau sy'n ei ffurfio. Serch hynny, yn yr adran hon, ystyriwn a fyddai'r Cyfnod Sylfaen wedi gallu cael ei weithredu'n fwy effeithlon, heb gael effaith andwyol ar y buddion y mae wedi'u cyflawni.

5.21 Fel yr amlinellir cynt, bu prif wariant y Cyfnod Sylfaen ar ddarparu staff ar gyfer y cymarebau oedolyn:plant newydd a argymhellwyd. Yn 2012/13, roedd hyn yn cyfrif am 93% o gyfanswm refeniw'r Cyfnod Sylfaen, gyda'r 7% arall ar gyfer hyfforddiant a chymorth. Nid yw'n glir faint o'r buddion o ran canlyniadau addysgol a amlinellwyd yn yr adran flaenorol sydd o ganlyniad i'r gwelliant yn y gymhareb oedolyn:plant, y defnydd ar ddulliau addysgu newydd, y cwricwlwm newydd, yr hyfforddiant a'r cymorth newydd a ddarparwyd (yn enwedig yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir) neu 'effaith' y datblygiadau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen ac ati. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn taflu rhywfaint o oleuni ar hyn.

5.22 Mae'r gwerthusiad yn darganfod rhywfaint o dystiolaeth bod y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol gwell, yng Nghyfnod Allweddol 2 ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn holl bwysig, mae'r gwerthusiad yn darganfod bod disgyblion sy'n mynychu ysgolion sy'n rhoi dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn fwy tebygol o gyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed, os yw pob peth arall yn gyson. Hefyd, mae'r gwerthusiad yn darganfod tystiolaeth sy'n awgrymu bod y Cyfnod Sylfaen yn elwa'n sylweddol o gymarebau oedolyn:plant isel. Mae'r buddion i'w gweld nid yn unig o safbwynt lefelau cyflawniad addysgol, ond hefyd o ran ymwneud plant â'u dysgu, eu lles yn y dosbarth ac mewn lleoliadau, a'u presenoldeb yn yr ysgol.

5.23 Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd yn darganfod bod llai na hanner yr ysgolion wedi bodloni'r cymarebau oedolyn:plant argymelledig, sef 1:8 mewn dosbarthiadau Meithrin a Derbyn. Ond,

mae'r gwerthusiad yn darganfod bod y cymarebau oedolyn:plant ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2 yn well na'r hyn a argymhellir, yn gyffredinol.

5.24 Nid yw'n glir i ba raddau y mae ysgolion yn 'ailddosbarthu' staff o blant 3-5 oed i blant 5-7 oed. I ryw raddau, gallai'r gwahaniaethau rhwng cymarebau oedolyn:plant y ddau grŵp oedran hyn fod o ganlyniad i rifyddeg dyrannu aelodau staff cyfan i ddosbarthiadau â'r uchafswm statudol, sef 30 blant. Hynny yw, bydd unrhyw ddosbarth â llai na 30 o ddisgyblion bron bob amser â chymhareb oedolyn:plant sy'n llai nag 1:15. Gall y gwrthwyneb fod yn wir i blant 3-5 oed, pan fydd yn fwy tebygol y bydd tri aelod o staff mewn dosbarth (uchafswm y gymhareb fydd 1:10) yn hytrach na phedwar aelod o staff (uchafswm y gymhareb fydd 1:7.5).

5.25 Hefyd, mae'r gwerthusiad yn darganfod sawl enghraifft o ysgolion sy'n defnyddio'u staff yn hyblyg ar draws dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn. Mae'r gyfrannedd sylweddol o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen sydd mewn dosbarthiadau oedran cymysg yn cymhlethu hyn ymhellach – er enghraifft, rydym yn darganfod bod 19% o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant oedran y Cyfnod Sylfaen hefyd â phlant Cyfnod Allweddol 2 yn eu dosbarthiadau.

5.26 At hynny, mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif bod 1,639 o Ymarferwyr Ychwanegol yn gweithio mewn dosbarthiadau Derbyn ar hyn o bryd. I fodloni'r cymarebau argymelledig, sef 1:8, byddai angen 2,112 o Ymarferwyr Ychwanegol yn y grŵp blwyddyn hwn (473 o oedolion ychwanegol)[30]. Pe bai'r gymhareb argymelledig, er enghraifft, yn cael ei chodi i 1:10, rydym yn amcangyfrif y byddai angen 1,528 o Ymarferwyr Ychwanegol. Byddai hyn yn gofyn am 111 yn llai o oedolion, sy'n cyfateb i ostyngiad 8% yn nifer yr Ymarferwyr Ychwanegol, a dim ond 4.5% o ostyngiad yng nghyfanswm nifer yr

[30] Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u seilio ar gyfrifiad y 'plentyn aur', yn yr ystyr y byddai un plentyn ychwanegol uwchlaw'r gymhareb argymelledig yn sbarduno'r angen am oedolyn ychwanegol. Byddai hyn yn sicrhau na fydd y cymarebau fyth yn uwch na'r cymarebau argymelledig.

oedolion (gan gynnwys athrawon â SAC) sy'n gweithio mewn dosbarthiadau Derbyn.

5.27 Mae dwy ffordd y gallwn gyfrifo'r arbedion costau o gael cymhareb o 1:10 ar gyfer plant 3-5 oed. Yn gyntaf, ar sail yr arbedion a wneir pe bai'r cymarebau argymelledig ar gyfer plant 3-5 oed yn cael eu bodloni ac, yn ail, ar sail y cymarebau presennol ar gyfer plant 3-5 oed. O ran y cyntaf, byddai hyn yn cyfateb i arbed tuag 19% o gost staff ychwanegol, ond yn yr ail, byddai hyn yn cyfateb i arbed tua 6% o gost staff ychwanegol[31].

5.28 Y cyfyngiad pennaf o safbwynt yr arbedion hyn sydd wedi'u hamcangyfrif yw mai ychydig iawn o wybodaeth gywir sydd ar gael am sut mae Refeniw'r Cyfnod Sylfaen sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer staff ychwanegol yn cael ei wario mewn ysgolion ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid yw'n glir beth fyddai effaith gostwng costau staff ar y buddion a amlinellwyd eisoes. Er enghraifft, os yw costau staff yn cael eu hailddosbarthu o blant 3-5 oed i blant 5-7 oed mewn ysgolion, a bod ailddosbarthu'r adnodd fel hyn yn bwysig ar gyfer sicrhau bod rhai o fuddion neu holl fuddion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gwireddu, yna gallai gostwng costau staff cyffredinol gael effaith niweidiol ar y buddion a welwyd.

5.29 Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn cynnig cipolwg arall a allai fod yn ddefnyddiol fan hyn. Er gwaethaf yr amrywiadau rhwng cymarebau oedolyn:plant mewn ysgolion, nid yw'r gwerthusiad yn darganfod unrhyw dystiolaeth bod yr amrywiadau hyn yn gysylltiedig â gwahaniaethau yn lefelau cyflawniad addysgol disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, eto ar ôl rheoli am ffactorau eraill. Byddai hyn yn awgrymu efallai na fyddai newidiadau cymedrol yn y cymarebau oedolyn:plant yn cael effaith niweidiol ar lefelau cyflawniad plant yn 7 oed.

[31] Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u seilio ar y rhagdybiaethau (a) bod costau staff ychwanegol y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Ymarferwyr Ychwanegol yn unig a (b) bod tua dwy ran o dair o gostau'r staff ychwanegol wedi'u cyfeirio at blant 3-5 oed.

5.30 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad i'r adran hon, mae prinder tystiolaeth yn parhau ynghylch gwerthuso effeithlonrwydd a buddion costau staffio yn y Cyfnod Sylfaen. Yn wir, gallai fod ffyrdd eraill mwy buddiol neu fwy effeithlon o wario Refeniw'r Cyfnod Sylfaen ar staffio. Mae hyn yn cynnwys a fyddai rhyw fudd i'w gael o ailddosbarthu costau staff i ddosbarthiadau Blwyddyn 3, neu a fyddai'n fwy buddiol cael cymarebau oedolyn:plant uwch ond mwy o athrawon â SAC yn gweithio gyda disgyblion 3-7 oed. Mae'r dystiolaeth ynghylch gwahanol drefniadau staffio yn brin iawn ac yn aml yn gwrthddweud ei hun. Er enghraifft, dywed Y Sylfaen Gwaddol Addysg fod buddion addysgol yn gysylltiedig ag addysgu grwpiau bychain (Torgerson et al. 2014) ond dywed hefyd nad yw presenoldeb cynorthwywyr addysgu (neu well cymarebau oedolyn:plant) yn cael unrhyw effaith fesuradwy ar gyrhaeddiad disgyblion (Blatchford et al. 2004).

5.31 O ran hyfforddiant a chymorth, mae'r gwerthusiad yn darganfod tystiolaeth bod lefelau hyfforddiant uwch ymhlith staff yn gysylltiedig â mwy o ddefnydd ar ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen mewn dosbarthiadau a lleoliadau, yn enwedig o ran gweithgareddau mwy ymarferol, corfforol a gweithgareddau awyr agored. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn darganfod hefyd mai dim ond 66% o athrawon ac, yn bwysicach na hynny, 37% o Ymarferwyr Ychwanegol ysgolion sydd wedi cwblhau pob un o wyth modiwl hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

5.32 Felly, gellid dadlau pe bai mwy o ymarferwyr yn ymgymryd â'r hyfforddiant hwn a'u bod yna'n fwy tebygol o ddefnyddio dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen yn eu hymarfer, gallai lefelau cyflawniad disgyblion wella'n fwy na'r hyn a welir ar hyn o bryd. Byddai hyn yn awgrymu y gallai arbedion o ran costau hyfforddiant a chymorth gael effaith niweidiol ar unrhyw fuddion pellach a gaiff y Cyfnod Sylfaen. Yn wir, mae'r gwerthusiad yn argymell bod llawer mwy o sylw'n cael ei roi i hyfforddi a chynorthwyo ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen.

5.33 Mae’r trydydd prif faes costau yn y Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â gwariant cyfalaf. Mae’r gwerthusiad wedi darganfod bod defnyddio amrywiaeth o barthau dysgu a mannau awyr agored yn annog disgyblion i ymddiddori mewn gweithgareddau cyfranogol ac archwiliadol yn fwy a’u bod yn fwy tebygol o fod yn weithgar yn gorfforol. Yn eu tro, mae disgyblion yna’n fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu a chael lefelau lles uwch. Fel y nodir cynt, mae tystiolaeth i awgrymu bod ysgolion a lleoliadau’n gwario mwy ar ddatblygiadau cyfalaf i’r Cyfnod Sylfaen nag a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru.

5.34 Wrth reswm, mae’n bosibl bod amcangyfrifon o wariant wedi’u goramcanu. Mae’n bosibl hefyd bod rhywfaint o’r gwariant cyfalaf wedi’i wario ar gynnal a chadw’r amgylchedd ffisegol, a allai fod wedi digwydd heb i’r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae’r gwerthusiad yn argymell bod gwelliannau ffisegol pellach yn cael eu gwneud i’r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.

5.35 O gofio bod Grant Cyfalaf y Cyfnod Sylfaen wedi’i drosglwyddo i Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif o 2012/13 ymlaen, nid yw’n glir a all Llywodraeth Cymru wneud arbedion pellach mewn gwariant cyfalaf yn y Cyfnod Sylfaen mewn gwirionedd. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu y gallai fod angen darparu adnoddau pellach yn y maes hwn, yn hytrach na llai. Hefyd, mae’r gwerthusiad yn cynnig y dylai gwariant cyfalaf gael ei ddefnyddio’n fwy hyblyg i annog mwy o ddefnydd o’r awyr agored, yn enwedig mewn ysgolion a lleoliadau sy’n wynebu cyfyngiadau oherwydd faint o le sydd ganddynt yn yr awyr agored.

5.36 Yn olaf, nid yw’r gwerthusiad yn dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod datblygiadau i’r amgylchedd awyr agored a dan do wedi bod yn ddiangen. Serch hynny, mae’n darganfod efallai nad yw’r awyr agored yn cael ei ddefnyddio i’r graddau gorau bosibl, hyd yn oed lle y gwnaed gwelliannau i’r amgylchedd dysgu awyr agored. Mae hyn

yn arbennig o wir o ran y gallu i symud heb gyfyngiad rhwng yr amgylchedd dysgu awyr agored a'r amgylchedd dysgu dan do. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn argymell y dylid annog mwy o ddefnydd o amrywiaeth o amgylcheddau dysgu er budd dysgwyr, gan awgrymu na allai gwariant yn y maes hwn fod wedi cael ei wario'n fwy effeithlon.

**Casgliadau**

5.37 O ran y costau, mae tystiolaeth o adborth gan athrawon, penaethiaid, arsylwadau disgyblion a'n dadansoddiad o ddata gweinyddol cenedlaethol, yn awgrymu y gellid bod wedi gwneud arbedion ym maes costau staffio ychwanegol, yn enwedig o ran cynyddu'r cymarebau oedolyn:plant ar gyfer plant 3-5 oed.

5.38 Hefyd, mae rhywfaint o dystiolaeth yn y gwerthusiad sy'n awgrymu efallai na fydd arbedion cymedrol yn y maes hwn yn cael llawer o effaith niweidiol ar lefel cyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfiawnhad dros hyn wedi'i seilio ar y ffaith bod y cymarebau oedolyn:plant ar gyfer plant 3-5 oed mewn llawer o ysgolion a lleoliadau eisoes ddim yn cwrdd yr cymarebau argymelledig.

5.39 Mae rhai canlyniadau pwysig yn sgil hyn. Yn gyntaf, nid yw'n glir ymhle na sut mae'r 'tanwario' posibl wrth fodloni'r cymarebau oedolyn:plant argymelledig ar gyfer plant 3-5 oed yn cael ei ddefnyddio. Mae'n bosibl bod yr adnodd hwn yn cael ei ailddosbarthu i rannau eraill o'r Cyfnod Sylfaen sydd, yn ei dro, o fudd i ganlyniadau disgyblion. Felly, gallai unrhyw ostyngiad cyffredinol mewn cyllid fod yn niweidiol.

5.40 Yn sicr, mae'n bosibl ad-drefnu rhywfaint o'r adnoddau a ddarperir – fel symud adnoddau o staffio i gymorth a hyfforddiant. Ond, efallai bod annog mwy o annibyniaeth a defnydd mwy hyblyg ar gostau

staffio presennol ar draws y Cyfnod Sylfaen cyfan ac efallai ymlaen i Flwyddyn 3 yr un mor fuddiol.

5.41 Nid yw'r gwerthusiad yn darganfod fawr ddim tystiolaeth o arbedion posibl yn y gorffennol neu'r dyfodol yn y ddau faes gwariant arall – hyfforddiant a datblygiadau cyfalaf. Yn wir, mae'r gwerthusiad yn darganfod i raddau helaeth y gallai fod angen adnoddau ychwanegol ar y meysydd hyn, yn hytrach na llai.

5.42 Er nad oedd unrhyw ddadansoddiad cost a budd ffurfiol yn bosibl, o ystyried y deunydd sylweddol sy'n amlinellu pwysigrwydd cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar a'r adenillion sylweddol cysylltiedig, mae darganfod bod y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu lefelau cyrhaeddiad, ac y gallai'r buddion cronnus posibl i'r farchnad lafur fod yn sylweddol fwy na'i gostau, yn awgrymu bod y rhaglen yn gost effeithiol, hyd yn oed heb ystyried gwelliannau mewn lles cyffredinol.

5.43 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r gwerthusiad yn gallu ystyried a allai'r adnoddau ychwanegol hyn fod wedi cael eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn ffyrdd eraill ac i gefnogi polisïau addysg eraill.

## 6 Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Mae'r gwerthusiad yn canfod for cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen ar y cyfan wedi arwain i welliant mewn cymwysterau addysgol, lles ac ymglymiad plant. Heblaw hyn, mae'r gwelliannau hyn gyda'r potensial i arwain at lwyddiant addysgol fwy wrth i'r plant tyfi lan.

6.2 Mae'r gwerthusiad felly yn annog Llywodraeth Cymru i barhau gyda datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Mae o hefyd yn annog pob ysgol a sefydliadau nas cynhelir a ariennir i wneud mwy i weithredu addysgeg a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

6.3 Er mwyn cwblhau'r uchelgeisiau yma mae'r gwerthusiad yn gosod 29 argymhelliad allweddol. Mae'r argymelliadau yn berthnasol i nifer o hapddaliwr, yn cynnwys: Llywodraeth Cymru, Estyn, consortia rhanbarthol, llywodraethau lleol, benaethiaid, rheolwyr gosodiad nas gynhelir, llywodraethwyr ysgol ac ymarferwyr.

6.4 Mae cefnogaeth eang yn parhau i'r Cyfnod Sylfaen ymhlith ymarferwyr a rhieni, yn enwedig gan fod parch tecach tuag at sgiliau/gwybodaeth (e.e. Llythrennedd/Rhifedd) a Datblygiad Personol/Cymdeithasol. Ond, oherwydd natur y Cyfnod Sylfaen, mae'n rhy gynnar eto i ddeall ei effaith yn llawn, yn enwedig o ran y buddion addysgol a chymdeithasol tymor canolig i dymor hwy i ddisgyblion.

**Argymhelliad 1: Dylid rhoi gwybod i ymarferwyr a rhanddeiliaid am ganfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn amlygu'r farn gadarnhaol gyffredinol am y Cyfnod Sylfaen ymhlith y rhai hynny sy'n ei weithredu, ond hefyd er mwyn amlygu meysydd i'w gwella neu eu datblygu ymhellach.**

6.5 Mae tensiwn a gwrth-ddweud posibl yn parhau rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a gyflwynwyd yn

ddiweddar, ac, yn benodol, yr asesiadau cenedlaethol i ddisgyblion Blwyddyn 2. Ar y naill law, mae'r Cyfnod Sylfaen yn annog dysgu trwy brofiad ac ymarfer sy'n briodol yn ddatblygiadolMae'r arweiniad am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd hefyd yn cyfeirio'n eglur at dysgu plant ar sail gam ac nid oedran datblygu. Fodd bynnag, mae o dal yn cyflwyno datganiadau disgwyliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn cynnwys asesiadau statudol cenedlaethol sy'n cynhyrchu sgôr yn ôl oedran i bob plentyn, ac felly yn creu tensiwn athronyddol i nifer o ymarferwyr.

6.6 Nododd y gwerthusiad eisoes fod dull y Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio fel a ganlyn, "gwelir bod datblygiad [disgyblion] yn llinol yn ei hanfod, er nad yw ynghlwm wrth oedran cronolegol, a'i fod yn cydnabod amrywiadau unigol o ran cyfradd o fewn ac ar draws yr holl feysydd datblygu a dysgu. Mae'r dull hwn yn ymwneud yn fras â theori dysgu luniadaethol." (Maynard *et al.* 2013:v). Fodd bynnag, roedd dadansoddiad pellach o'r dogfennau canllaw yn cydnabod bod "datganiadau 'sgiliau ac ystod' Meysydd Dysgu penodol yn llawer mwy eglur wrth roi manylion am gynnwys sy'n gysylltiedig â phwnc a dilyniant plant mewn perthynas â hyn." (Maynard *et al.* 2013:vi). Daethom i'r casgliad, felly, mai un o'r prif heriau a oedd yn wynebu ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen oedd sut y gallai dull addysgeg newydd sy'n ymgorffori theorïau dysgu lluniadaethol gael ei integreiddio orau â chwricwlwm statudol manwl.

6.7 Yn sicr, mae'r tensiwn ymddangosiadol rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn poeni llawer o ymarferwyr (gweler hefyd Hathway 2014). Fodd bynnag, byddem yn awgrymu bod y tensiwn hwn yn gynhenid yn nyluniad a datblygiad y Cyfnod Sylfaen (gweler Maynard *et al.* 2013), heb ystyried cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac asesiadau statudol.

6.8 Felly, mae'n fwy cywir gofyn (a) a yw ymarferwyr yn ymwybodol bod arweiniad y Cyfnod Sylfaen yn gofyn am rywfaint o barhau ag

addysgu uniongyrchol, yn enwedig ym meysydd llythrennedd a rhifedd, a (b) a yw cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac asesiadau statudol bellach yn rhoi gormod o bwyslais, efallai'n anfwriadol, ar 'sgiliau ac ystod' Meysydd Dysgu penodol, ar draul 'dysgu i ddysgu' a Meysydd Dysgu eraill (yn enwedig datblygiad personol a chymdeithasol, a lles).

**Argymhelliad 2: Mae angen arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau pwysigrwydd ymarfer sy'n briodol yn ddatblygiadol ochr yn ochr â chwricwlwm statudol a lefelau cyflawniad disgwyliedig.**

**Argymhelliad 3: Mae angen rhoi mwy o wybodaeth i rieni a gofalwyr am rôl asesiadau llythrennedd a rhifedd statudol ym Mlwyddyn 2 y Cyfnod Sylfaen, ochr yn ochr â'r pwyslais ar brofiadau dysgu mwy uniongyrchol, pleserus a datblygiadol briodol i'w plant.**

**Argymhelliad 4: Mae angen rhoi cyngor ymarferol i ymarferwyr ar sut i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yn arbennig, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar sut y gellir addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ystafelloedd dosbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau addysgeg a sut y gall y gwahanol ddulliau hyn ategu ei gilydd.**

6.9 Yn gysylltiedig â hyn, mae'r gwerthusiad yn gweld amrywiaeth sylweddol yn y graddau y mae dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu hymarfer mewn ystafelloedd dosbarth gyda'r grwpiau oedran hŷn (h.y. Blwyddyn 1 ac yn arbennig Blwyddyn 2). Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi bod llawer o'r amrywiaeth hon wedi bodoli cyn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac asesiadau statudol. Awgrymwn fod hyn yn adlewyrchu rhywfaint o ansicrwydd ymhlith ymarferwyr am briodoldeb dull y Cyfnod Sylfaen o ran paratoi disgyblion ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.

**Argymhelliad 5: Dylid rhoi sylw penodol (trwy hyfforddiant ac arweiniad i ymarferwyr) cael ei rhoi ar sut i ddefnyddio addysgeg y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarthau Blwyddyn 1, ac yn enwedig Blwyddyn 2.**

6.10 Yn yr un modd, mae angen mwy o eglurder i ymarferwyr ynghylch agweddau penodol ar arweiniad y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys cyngor ar sut a phryd i gydbwyso elfennau amrywiol o'r Cyfnod Sylfaen yn briodol.

6.11 Mae meysydd ansicrwydd neu ddryswch penodol yn perthyn i:

- Addysgu 'ffurfiol' ac 'anffurfiol';
- 'Dysgu trwy chwarae';
- Darpariaeth barhaus, darpariaeth well a darpariaeth â ffocws;
- Gweithgareddau wedi'u dechrau gan y plentyn, gweithgareddau wedi'u dechrau gan yr ymarferydd a gweithgareddau dan gyfarwyddyd ymarferydd; ac
- Arsylwi.

**Argymhelliad 6: Dylid diwygio modiwlau hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen er mwyn gwella dealltwriaeth ymarferwyr o'r ymagweddau a'r dulliau addysgu sy'n cael eu pwysleisio bellach (efallai'n seiliedig ar ddeuddeg elfen addysgeg hanfodol y Cyfnod Sylfaen a amlygwyd gan y gwerthusiad). Yn arbennig, dylid diwygio modiwlau hyfforddi i sicrhau eu bod:**

- **yn cynnwys newidiadau diweddar i bolisïau addysg yng Nghymru (gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r pwyslais ar liniaru effaith tlodi ar gyflawniad addysgol trwy ddefnyddio adnodd ychwanegol fel y Grant Amddifadedd Disgyblion);**
- **yn cynnwys mwy o ddeunyddiau enghreifftiol i ategu dealltwriaeth yn hytrach na dangos enghreifftiau o arfer gorau yn unig; ac**

- **yn fwy strwythuredig a heriol.**

**Argymhelliad 7: Mae angen i ddeunyddiau hyfforddi ac arweiniad roi mwy o bwyslais ar: arsylwi ac asesu; defnydd effeithiol o’r awyr agored[32]; cyflwyno darpariaeth well; rolau athrawon ac ymarferwyr ychwanegol; a meysydd cyffredinol yn ymwneud â datblygiad plant.**

**Argymhelliad 8: Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y Cyfnod Sylfaen mewn cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a chyrsiau proffesiynol eraill (gan gynnwys cyrsiau lefel Meistr). Dylai hyn gynnwys cwricwlwm ac asesu’r Cyfnod Sylfaen, ond mae angen rhoi sylw penodol i ddulliau addysgu’r Cyfnod Sylfaen.**

6.12 Mae’r gwerthusiad yn cydnabod buddion eglur cwblhau holl fodiwlau hyfforddi’r Cyfnod Sylfaen, ond mae hefyd yn nodi bod nifer yr athrawon ac ymarferwyr eraill sy’n ymgymryd â’r holl fodiwlau yn gymharol isel.

**Argymhelliad 9: Dylid ystyried ei gwneud hi’n ofynnol i holl benaethiaid, athrawon ac ymarferwyr ychwanegol y Cyfnod Sylfaen, ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ddilyn modiwlau hyfforddi’r Cyfnod Sylfaen.**

**Argymhelliad 10: Dylai ysgolion ac Awdurdodau Lleol wneud mwy i fonitro presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithgareddau hyfforddi. Dylai fod gan ymarferwyr eu cofnodion hyfforddiant a dysgu eu hunain a dylent eu llenwi fel mater o drefn.**

6.13 Er bod y gwerthusiad yn darganfod bod yr Athrawon Cyswllt CALl 0.1 yn werthfawr iawn i leoliadau nas cynhelir a ariennir wrth eu helpu i weithredu a chyflwyno’r Cyfnod Sylfaen, mae’n nodi hefyd bod y

[32] Mewn mis Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad pellach i ysgolion a sefyllfaoedd blynyddoedd cynnar i ddatblygu ei ymarferion a darpariaeth awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen (Lywodraeth Cymru 2014a).

cyfleoedd i ymarferwyr ysgol gael datblygiad proffesiynol pellach ar ôl mynychu modiwlau hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen yn brin.

**Argymhelliad 11: Mae angen gwneud mwy o waith dilynol ar ôl hyfforddiant yn y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, dylai Swyddogion Cymorth Hyfforddiant ymweld ag ymarferwyr yn eu hysgolion fel mater o drefn ar ôl iddynt gymryd rhan mewn modiwlau hyfforddi er mwyn eu cynorthwyo i weithredu'r hyn a ddysgwyd.**

6.14 Mae amrywiaeth sylweddol yn parhau yn y graddau y mae uwch arweinwyr yn gwybod am y Cyfnod Sylfaen ac yn ei gefnogi. Mae hyn yn cyfateb yn agos i'r graddau y mae dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu defnyddio a'r graddau y mae amgylchedd yr ysgol wedi'i addasu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

6.15 Yn gysylltiedig â hyn y mae pryderon am y pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion. Mae'r gwerthusiad yn nodi amrywiol strategaethau a dulliau o reoli'r pontio hwn, gan gynnwys olrhain a monitro disgyblion yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ymlaen i Gyfnod Allweddol 2. Ond, mae'r gwerthusiad hefyd yn darganfod nad oes fawr ddim arweiniad ar y pontio hwn ar gael i benaethiaid ac ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2, neu ddim arweiniad o gwbl.

**Argymhelliad 12: Dylid darparu hyfforddiant penodol i athrawon Cyfnod Allweddol 2 i gynorthwyo â pharhad a dilyniant wrth bontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.**

**Argymhelliad 13: Dylid darparu arweiniad a chymorth arbenigol i uwch staff rheoli mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hefyd, yn enwedig o ran staffio, seilwaith, pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, ac olrhain a monitro.**

6.16 Mae'r gwerthusiad yn darganfod bod llawer o ansicrwydd ymhlith ymarferwyr ynghylch datblygiad Fframwaith Datblygu ac Asesu'r

Blynyddoedd Cynnar newydd o ddechrau cyfnod addysg. Yn benodol, nid yw'n glir i ba raddau y gallai hwn lywio neu hyd yn oed gyfyngu ar ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen.

**Argymhelliad 14: Mae angen eglurhad ynghylch cynnydd a datblygiad Fframwaith Asesu a Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, ynghyd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi sydd ynghlwm wrth ei weithredu. Bydd angen rhoi cymorth sylweddol i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen i'w helpu i weithredu'r Fframwaith newydd yn eu harfer yn y Cyfnod Sylfaen, ac yna defnyddio'r Fframwaith newydd yn effeithiol.**

6.17 Hyd yn hyn, nid yw'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y gwahaniaethau mewn canlyniadau addysgol rhwng disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ar sail eu rhyw, eu hethnigrwydd neu eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Yn wir, mae'r gwerthusiad yn darganfod tystiolaeth sy'n awgrymu bod rhai o'r anghydraddoldebau strwythurol hyn mewn cyrhaeddiad yn gwaethygu, nid yn gwella, o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen.

6.18 Efallai nad yw hyn yn syndod mawr oherwydd derbynnir yn helaeth mai ymyriadau targedig, â ffocws, sy'n fwy priodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol nag ymyriadau cyffredinol fel y Cyfnod Sylfaen (Kerr a West 2010).

6.19 Fodd bynnag, mae mwyafrif yr ymarferwyr o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn cael rhywfaint o effaith ar leihau anghydraddoldebau mewn cyflawniad, yn enwedig ar gyflawniad bechgyn a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

6.20 Un o brif nodau datganedig y Cyfnod Sylfaen yw cael 'llai o gyflawniad gwahaniaethol rhwng grwpiau breintiedig a difreintiedig' (gweler Canlyniadau yn y Model Rhesymeg Polisi yn Ffigur 3). Fodd bynnag, nid yw'n hollol glir o'r Theori Rhaglen sydd wrth wraidd y

Cyfnod Sylfaen pam y byddai'r dull addysgu newydd hwn o reidrwydd yn arwain at unrhyw fath o ostyngiad sylweddol mewn cyflawniad gwahaniaethol (gweler Maynard *et al.* 2013).

6.21 At hynny, er gwaethaf llawer o rethreg am bwysigrwydd mwy o ddysgu trwy brofiad i fechgyn, nid yw gostwng y cyrhaeddiad gwahaniaethol rhwng bechgyn a merched yn un o nodau'r Cyfnod Sylfaen.

6.22 Er gwaethaf hynny, mae lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyflawniad addysgol yn un o nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru o hyd (*Ailysgrifennu'r Dyfodol*, Llywodraeth Cymru 2014). Mae'n hanfodol, felly, bod angen ymchwilio ymhellach i'r rheswm pam y gallai'r Cyfnod Sylfaen arwain at wahaniaethau cynyddol rhwng grwpiau penodol o ddysgwyr. Ond, yn bwysicach fyth yw'r angen am ddeall pam mae diffyg cyfatebiaeth ymddangosiadol rhwng amgyffredion ymarferwyr a'r dadansoddiad o ganlyniadau addysgol.

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hwyluso ymchwil bellach i effaith y Cyfnod Sylfaen ar grwpiau penodol o ddisgyblion â chyflawniad isel. Yn gysylltiedig â hynny, mae angen rhoi mwy o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir er mwyn llywio eu barn a'u gwerthusiadau ynghylch cynnydd disgyblion trwy'r Cyfnod Sylfaen.**

6.23 Cyllid ar gyfer datblygu'r ardal awyr agored ac addasu adeiladau presennol oedd un o'r prif broblemau a amlygodd rhanddeiliaid ac ymarferwyr/rheolwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Nodwyd yn aml na ellid rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith mor llawn â phosibl oherwydd cyfyngiadau adeiladau a diffyg cyllid ar gyfer adnoddau. Hefyd, mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif bod y gwariant gwirioneddol ar ddatblygiadau cyfalaf yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael ar eu cyfer.

6.24 Yn ogystal, mae'r gwerthusiad yn darganfod bod defnyddio nifer o 'barthau dysgu' amrywiol, gan gynnwys defnyddio amgylcheddau dysgu awyr agored, yn gysylltiedig â lefelau uchel o ymarfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gwerthusiad hefyd yn amlygu pa mor effeithiol yw defnyddio nifer o 'barthau dysgu' amrywiol o ran cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol ac archwiliadol, yn ogystal â sicrhau bod cydbwysedd da o weithgareddau parhaus, gweithgareddau gwell a gweithgareddau â ffocws.

6.25 Mae'r gwerthusiad hefyd yn darganfod bod lles a chyfranogiad plant yn uwch pan fydd mwy o elfennau o ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu hymarfer. Mae hyn yn arbennig o wir am weithgareddau sy'n annog dewis y plentyn, ac sy'n gorfforol, yn archwiliadol ac yn uniongyrchol.

6.26 Yn anaml iawn y gwelwyd symud yn ddigymell rhwng yr amgylcheddau dan do ac awyr agored. Ond, mewn rhai ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, yn enwedig lleoliadau lle mae'n rhaid rhoi popeth o'r neilltu, mae cyfyngiadau sylweddol ar faint o addasiadau y gellir eu gwneud i'r ardaloedd dan do ac awyr agored i ddarparu amgylcheddau dysgu ysgogol ac effeithiol.

**Argymhelliad 16: Dylid parhau i ddarparu cyllid er mwyn sicrhau bod pob ysgol a lleoliad nas cynhelir a ariennir yn gallu gwella amgylchedd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Dylid rhoi sylw penodol i sicrhau bod mynediad di-dor rhwng ystafelloedd dosbarth a'r awyr agored (lle y bo'n bosibl) a datblygu mwy o 'barthau dysgu' dan do ac yn yr awyr agored.**

**Argymhelliad 17: Dylid rhoi cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir i'w cynorthwyo i ailgynllunio a/neu ailstrwythuro eu hystafelloedd dosbarth ac ardaloedd awyr agored.**

**Efallai y bydd hyn yn galw am ddefnyddio ymgynghorwyr sy'n arbenigo ar gynllunio amgylcheddau dysgu.**

**Argymhelliad 18: Pan fydd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir wedi'u cyfyngu gan y datblygiadau y gallant eu gwneud i adeiladau, dylid caniatáu iddynt ddefnyddio cyllidebau cyfalaf yn fwy hyblyg. Er enghraifft, gallai cyllidebau cyfalaf gael eu defnyddio hefyd i ddarparu cludiant gwell ac amgylcheddau dysgu mwy symudol, ac i sefydlu partneriaethau â sefydliadau eraill a fydd yn annog mwy o ddefnydd o amgylcheddau dysgu mwy amrywiol yn yr awyr agored.**

**Argymhelliad 19: Dylid annog ymarferwyr i ddefnyddio amrywiaeth o 'barthau dysgu', dan do ac yn yr awyr agored, yn fwy aml. Dylid datblygu deunyddiau enghreifftiol ar y ffordd orau o ddefnyddio'r 'parthau dysgu' hyn fel y gall ymarferwyr gyfeirio atynt.**

6.27 Mae pryder bod rhai pynciau mwy traddodiadol, fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth, wedi 'mynd ar goll' yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Argymhelliad 20: Dylid rhoi cyngor penodol i ymarferwyr er mwyn dangos sut y gall pynciau traddodiadol, fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth, gael eu hymgorffori mewn Meysydd Dysgu presennol.**

6.28 Cyfeiriodd ymarferwyr yn fynych at ba mor hanfodol oedd y gwell cymarebau oedolyn:plant i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Yn wir, gwelwn nifer o fuddion arwyddocaol o gael ymarferwyr ychwanegol mewn dosbarthiadau ysgol wrth gyflwyno ymarfer y Cyfnod Sylfaen a chefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr.

6.29 Fodd bynnag, er bod y gwerthusiad yn darganfod bod cymarebau gwell yn gyffredinol ym Mlynyddoedd 1 a 2 na'r gymhareb argymelledig, sef 1:15, nid yw'r gymhareb argymelledig mewn

dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, sef 1:8, yn cael ei bodloni at ei gilydd. Ond, nid yw'r gwerthusiad yn darganfod unrhyw dystiolaeth bod cyflawniad addysgol disgyblion saith oed mewn ysgolion a oedd yn bodloni'r cymarebau argymelledig yn well na chyflawniad disgyblion mewn ysgolion â chymarebau ychydig uwchlaw'r lefelau argymelledig. Byddai hyn yn awgrymu nad yw'n hanfodol bod ysgolion bob amser yn bodloni'r cymarebau argymelledig.

6.30 Y pryder pennaf o ran y gwelliant mewn cymarebau oedolyn:plant yw effaith symud i Flwyddyn 3 ar ddisgyblion, lle y gall y gymhareb oedolyn:plant fod mor isel â 1:30. Mae rhai ysgolion yn ceisio lliniaru'r pontio hwn trwy ddefnyddio staff yn hyblyg ar draws grwpiau blwyddyn ac ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

**Argymhelliad 21: Dylai'r cymorth ar gyfer gwell cymarebau oedolyn:plant yn y Cyfnod Sylfaen barhau, a dylai'r cymarebau argymelledig fesul Grŵp Blwyddyn sy'n adlewyrchu camau datblygiadol plant ifanc barhau. Fodd bynnag, dylid rhoi annibyniaeth i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir benderfynu sut i ddefnyddio'r ymarferwyr ychwanegol hyn ar draws gweithgareddau dysgu ac ar draws Grwpiau Blwyddyn. Ond, law yn llaw ag annibyniaeth, dylai fod mwy o dryloywder a monitro er mwyn sicrhau bod cyllid ar gyfer ymarferwyr ychwanegol yn cael ei wario ar ymarferwyr ychwanegol.**

6.31 Ar hyn o bryd, mae mwyafrif gweithgareddau datblygu'r Gymraeg (mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) yn cael eu darparu mewn sesiynau amser cylch targedig yn y bore, pan fydd caneuon a rhigymau'n cael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau iaith.

6.32 Gall y defnydd ar ddulliau a thechnegau trochi yn y Gymraeg (mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) amrywio'n eithaf sylweddol rhwng ysgolion. At hynny, mae amrywiaeth yn y graddau y mae rhai o'r dulliau hyn yn cyd-fynd â dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen.

**Argymhelliad 22: Dylid datblygu enghreifftiau o arfer da sy'n dangos sut y gall cyflwyno Datblygu'r Gymraeg (mewn ysgolion Saesneg) gael ei ymgorffori ar draws amrywiaeth o weithgareddau dysgu ac sy'n defnyddio ystod ehangach o ddulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen.**

**Argymhelliad 23: Mae angen arweiniad clir ar y dull mwyaf effeithiol o drochi yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen (yn dibynnu ar y brif iaith addysgu). Mae angen mwy o gydweithredu hefyd rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr o ran sut i nodi a datblygu arfer gorau sy'n cynnwys dull ac elfennau addysgeg y Cyfnod Sylfaen.**

6.33 Roedd cynnwys rhieni yn nodwedd bwysig o'r egwyddorion sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen (Maynard *et al.* 2013) ac, felly, nodwyd bod 'cynnwys rhieni/gofalwyr yn effeithiol yn y profiad addysgol' yn un o ganlyniadau allweddol y Cyfnod Sylfaen yn y Model Rhesymeg Polisi (Ffigur 3). Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn darganfod bod cynnwys rhieni'n gyfyngedig iawn o hyd ac nid yw'n darganfod rhyw lawer o dystiolaeth bod hyn wedi gwella o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen.

6.34 Er bod rhieni/gofalwyr yn gefnogol o'r Cyfnod Sylfaen ar y cyfan, mae ymarferwyr yn amheus iawn ynghylch pa mor gyfforddus y mae rhieni/gofalwyr gyda'r dull addysgu newydd hwn yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu cyfran uchel iawn y rhieni/gofalwyr a fyddai wedi dymuno cael mwy o wybodaeth am y Cyfnod Sylfaen.

**Argymhelliad 24: Dylid rhoi mwy o sylw i rôl rhieni/gofalwyr a theuluoedd wrth ddarparu'r Cyfnod Sylfaen. Byddai enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer ymarferwyr yn fuddiol. Dylid rhoi sylw arbennig i sut y gallai rhieni/gofalwyr a theuluoedd gyfrannu at ddewis a chynllunio gweithgareddau dysgu.**

**Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir roi mwy o wybodaeth i rieni/gofalwyr yn rheolaidd, a chynnig mwy o gymorth i rieni/gofalwyr a theuluoedd i'w helpu i ddeall egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, sut mae eu plentyn yn datblygu, a sut y gallant gefnogi ei ddysgu gartref.**

6.35 Rydym wedi nodi drwy gydol yr adroddiad mai gwerthusiad cymharol gynnar o'r Cyfnod Sylfaen yw hwn. Yn wir, ni fydd rhai o ddeilliannau allweddol y Cyfnod Sylfaen yn hysbys am sawl blwyddyn (gweler Ffigur 2). O ganlyniad, mae'n bwysig bod y Cyfnod Sylfaen yn parhau i gael ei werthuso a'i fonitro gydag amser.

6.36 Felly, gwnawn nifer o argymhellion ynghylch gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, ym meysydd ymarfer ac effaith yn benodol.

**Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad proses ddilynol o'r 41 ysgol a'r 10 lleoliad nas cynhelir a ariennir yn yr astudiaeth achos wreiddiol ymhen pum mlynedd (h.y. ar ôl 2019/20).**

6.37 Prif nod yr argymhelliad hwn fyddai ystyried a fu gwelliannau i gyflwyno deuddeg elfen addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn sgil datblygiadau pellach i weithredu'r Cyfnod Sylfaen a newidiadau i hyfforddiant, cymorth ac arweiniad.

6.38 Byddai tri amcan pellach i'r gwerthusiad dilynol hwn hefyd, sef:

- i ba raddau y mae'r berthynas rhwng ymarfer y Cyfnod Sylfaen a lles a chyfranogiad disgyblion yn cael ei chynnal;
- sut mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei ymgorffori yn y Cyfnod Sylfaen; a
- sut mae Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen.

6.39 Byddai ailymweld â'r ysgolion a'r lleoliadau yn yr astudiaeth achos wreiddiol a defnyddio'r un dulliau ymchwil ag a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn yn caniatáu am gymhariaeth uniongyrchol gydag amser.

**Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ail werthusiad o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio canlyniadau addysgol o ddata gweinyddol cenedlaethol (h.y. Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion) ar ôl 2015/16.**

6.40 Prif nod y gwerthusiad pellach hwn o ddeilliannau fydd ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliannau Cyfnod Allweddol 2 (h.y. pan fydd disgyblion yn 10/11 oed). 2015/16 fydd y flwyddyn gyntaf pan fydd *pob* disgybl ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi bod drwy'r Cyfnod Sylfaen. Byddai dadansoddiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion bryd hynny'n gallu ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen erbyn diwedd Blwyddyn 6 ar bob disgybl.

6.41 Yn ogystal, bydd y dadansoddiad hwn o ddata gweinyddol cenedlaethol yn rhoi'r cyfle i ôl-ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen ar garfannau pellach o ddisgyblion o'r ysgolion Peilot a Dechrau'n Gynnar (h.y. gan ddefnyddio deilliannau o 2012/13, 2013/14 a 2014/15). Gellid cymharu eu lefelau cyrhaeddiad yn uniongyrchol â lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion eraill na fyddant wedi bod drwy'r Cyfnod Sylfaen.

6.42 Byddai hyn hefyd yn cynnig cyfle da i ystyried y defnydd o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9 i fesur effaith y Cyfnod Sylfaen.

**Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trydydd gwerthusiad o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio canlyniadau addysgol o ddata gweinyddol cenedlaethol (h.y. Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion) ar ôl 2018/19.**

6.43 Prif nod y trydydd gwerthusiad hwn o ddeilliannau fyddai ystyried effaith hirdymor y Cyfnod Sylfaen. Yn benodol, a yw'r Cyfnod Sylfaen yn cael unrhyw effaith ar ddeilliannau addysgol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (h.y. TGAU yn 15 oed).

6.44 O 2015/16 ymlaen, bydd rhai disgyblion sydd wedi bod drwy'r Cyfnod Sylfaen (yn yr ysgolion Peilot yn wreiddiol) yn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 4. Rydym yn argymell bod y trydydd gwerthusiad hwn o ddeilliannau'n cael ei gynnal tair blynedd yn ddiweddarach (h.y. ar ôl 2018/19). Byddai hyn yn caniatáu am gymharu cyflawniad *tair* carfan o ddisgyblion ysgolion Peilot yng Nghyfnod Allweddol 4 â chyflawniad disgyblion o oed tebyg nad aethant i ysgolion Peilot.

6.45 Defnyddiodd y gwerthusiad hwn yr un tair carfan o ddisgyblion ysgolion Peilot i lunio barn gynnar am effaith y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Dylai dadansoddi lefelau cyflawniad y disgyblion hyn hefyd allu rhoi awgrym cynnar boddhaol o effaith hirdymor y Cyfnod Sylfaen, gan felly helpu i fynd i'r afael â deilliant allweddol pellach ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gweler Tabl 2).

6.46 Yn olaf, mae'n bwysig bod unrhyw reolaeth statudol ar berfformiad mewn ysgolion cynradd a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn gyson ag egwyddorion ac ymarfer y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn sicrhau bod perthynas agos rhwng bwriadau'r Cyfnod Sylfaen a sut caiff y Cyfnod Sylfaen ei asesu a'i fonitro.

**Argymhelliad 29: Dylai monitro a mesuriadau parhaus o ansawdd a safonau'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir fod yn gyson ag egwyddorion, dulliau addysgu a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, dylai Estyn ystyried defnyddio'r deuddeg elfen addysgeg wrth iddo arolygu'r Cyfnod Sylfaen.**

## Cyfeiriadau


Blatchford, P., Russell, A., Bassett, P., Brown, P. a Martin, C. (2004) *The role and effect of teaching assistants in English primary schools (Years 4 to 6) 2000-2003: results from the class size and pupil-adult ratios (CSPAR) KS2 project, Research Report RR60*, Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau.

Brown, C.A. a Lilford, R.J. (2006) The stepped wedge trial design: a systematic review, *BMC Medical Research Methodology*, 6, 54.

Cunha, F. a Heckman, J.J. (2007) The Technology of Skill Formation. *American Economic Review*, 97, 2, 31-47.

Davies, R., Taylor, C., Maynard, T., Rhys, M., Waldron, S., a Blackaby, D. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Deilliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1), Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2013*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

DfID (2011) *DFIDs Approach to Value for Money (VfM)*, Gorffennaf, Llundain: Yr Adran Datblygu Rhyngwladol.

Gorard, S. a Taylor, C. (2004) *Combining Methods in Educational and Social Research*, Llundain: Gwasg y Brifysgol Agored.

Hathway, O. (2014) Call for calm amid concern Foundation Phase is being threatened by pupil testing, *WalesOnline*, 1 Tachwedd 2014. http://www.walesonline.co.uk/news/call-calm-amid-concern-foundation-8039288 (cyrchwyd ddiwethaf 25.11.14).

Heckman, J.J. (2007) The Economics, Technology and Neuroscience of Human Capability Formation. *Proceedings of the National Academy of Sciences,* 104, 3, 13250-13255.

Heckman, J.J. (2008) School, Skills and Synapses, *Economic Inquiry*, 46, 3, 289-324.

Howes, C., Burchinall, M., Planta, R., Brynat, D., Early, D., Clifford, R. a Barbarin, O. (2008) Ready to learn? Children's pre-academic achievement in pre-Kindergarten programs, *Early Childhood Research Quarterly*, 23, 1, 27-50.

Kerr, K. a West, M. (Goln) (2010) Insight 2 – Social Inequality: can schools narrow the gap? Macclesfield: Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain.

Hussey, M.A. a Hughes, J.P. (2007) Design and analysis of stepped wedge cluster randomised trials, *Contemporary Clinical Trials*, 28, 2, 182-191.

Laevers, F. (2005). *Well-being and involvement in care: A process oriented self-evaluation instrument for care settings*. Y Ganolfan Ymchwil i Ddysgu Trwy Brofiad: Prifysgol Leuven.

Adolygiad Leitch o Sgiliau (2006) *Prosperity for All in the Global Economy – World Class Skills*, Llundain: Trysorlys EM.

Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 37/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Meadows, P. *et al.* (2011) *National evaluation of Sure Start local programmes: An economic perspective, Research Report DFE-RR073*, Llundain: Yr Adran Addysg.

Melhuish E. (2004) *A Literature Review of the Impact of Early Years Provision on Young Children, with emphasis given to children from disadvantaged backgrounds. Report for the Audit Commission*, Llundain. Coleg Birkbeck, Prifysgol Llundain.

Adolygiad Nutbrown (2012) *Foundations for Quality: the independent review of early education and childcare qualifications*, Runcorn: Yr Adran Addysg.

ONS (2011) *Earnings by Qualification, 2011*. Cyhoeddwyd 24 Awst 2011. Ar gael ar <http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_229888.pdf>

Siraj-Blatchford, I. (2012) *An Independent (Unfunded) Rapid Review of the Child Development Assessment Profile (CDAP) on Entry to the Foundation Phase in Wales*, Ar gael yma: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/120430cdapreviewen.pdf (cyrchwyd ddiwethaf Hydref 2014).

Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F. (2005) *Prosiect Monitro a Gwerthuso Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn*

*Effeithiol (MEEIFP) ar draws Cymru – Adroddiad Terfynol Peilot y Flwyddyn Gyntaf*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymddiriedolaeth Sutton (2011) *Improving the impact of teachers on pupil achievement in the UK – interim findings*, Llundain: Ymddiriedolaeth Sutton.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011/12, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Diweddariad ac Adroddiad Technegol 2012/13, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 16/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S., Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2015a) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Technegol Terfynol, ar ddod*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Davies, R., Rhys, M. a Waldron, S. (2015b) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canlyniadau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen hyd at 2011/12 (Adroddiad 2), Ymchwil Gymdeithasol Rhif 01/2015*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Torgerson. D., Torgerson, C., Mitchell, N., Buckley, H., Ainsworth, H., Heaps, C. a Jefferson, L. (2014) *Grammar for Writing Evaluation Report and Executive Summary*, Chwefror 2014, Llundain: Y Sefydliad Gwaddol Addysg.

Trysorlys EM (2004) *Choice for Parents, the Best Start for Children: a ten year strategy for childcare*, Llundain: Y Llyfrfa.

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Ailysgrifennu'r Dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad A. Adroddiadau Gwerthuso a Chrynodebau


Davies, R., Taylor, C., Maynard, T., Rhys, M., Waldron, S., a Blackaby, D. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Deilliannau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1), Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2013*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 37/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhys, M., Waldron, S. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch y Gymraeg, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 76/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhys, M., Waldron, S. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch hyfforddiant, cymorth ac arweiniad, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 54/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhys, M., Waldron, S. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch yr amgylchedd (dan do/awyr agored), Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 53/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhys, M., Waldron, S. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynglŷn â llythrennedd a rhifedd, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 10/2015*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011/12, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S., Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: diweddariad ac adroddiad technegol 2012/13, Ymchwil Gymdeithasol 16/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Waldron, S. a Rhys, M. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch rheolaeth ac arweinyddiaeth,*

*Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 75/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Waldron, S. a Rhys, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch staffio, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 95/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Davies, R., Rhys, M. a Waldron, S. (2015) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canlyniadau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen hyd at 2011/12 (Adroddiad 2), Ymchwil Gymdeithasol Rhif 01/2015*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S., Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2015) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Technegol, ar ddod*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch plant a theuluoedd, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 94/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch pontio ac asesiadau, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 74/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch lles ac ymglymiad plant, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 44/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch addysgeg a dealltwriaeth, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 43/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch effeithiau a nodwyd, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 42/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2015) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynglŷn â barn Ymarferwyr a Rhanddeiliaid am ddyfodol y Cyfnod Sylfaen, Ymchwil Gymdeithasol Crynodeb 09/2015*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad B. Deunyddiau Hyfforddiant a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Modiwlau Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, wedi'u trefnu'n Becynnau Hyfforddi:

1. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 1: Cyflwyniad i'r Cyfnod Sylfaen, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
2. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 2: Datblygiad Plentyn, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 3: Arsylwi, Cofnodi ac Adrodd, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
4. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 3a: Lles a lefelau cynnwys, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 4: Dysgu trwy brofiad yn ymarferol, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
6. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 5: Anghenion Dysgu Ychwanegol, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
7. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 5a: Ymyrraeth Gynnar, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
8. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 6: Dysgu yn yr Awyr Agored, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
9. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 7: Arweinyddiaeth ar gyfer dysgu, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
10. Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Modiwl 8: Pontio, (2007). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Canllawiau Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:

1. Datblygiad Corfforol (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2. Datblygiad Mathemategol (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3. Datblygu'r Gymraeg (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
4. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
6. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
7. Datblygiad Creadigol (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Canllawiau Eraill ynghylch y Cyfnod Sylfaen:

1. Asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen: enghreifftio deilliannau (2011). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
2. Y Cyfnod Sylfaen – Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored (2009). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3. Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ddysgu ac addysgu: adroddiad interim (2010). Caerdydd: Estyn.
4. Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed, (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. Rhagor o gamau yn yr awyr agored: canllawiau (2014) Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
6. Rhagor o gamau yn yr awyr agored: gwneud y gorau o'ch mannau awyr agored (2014). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

7. Sut mae fy mhlentyn yn datblygu yn y Cyfnod Sylfaen? Canllaw i rieni a gofalwyr (2014), Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
8. Addysgeg Dysgu ac Addysgu (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
9. Arsylwi ar Blant (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
10. Dysgu yn yr awyr agored: arfarnu dysgu yn yr awyr agored i blant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen (2011). Caerdydd: Estyn.
11. Chwarae a dysgu gweithredol: Pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen (2009). Caerdydd: Estyn.
12. Chwarae/Dysgu Gweithredol: Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed (2008). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
13. Y Cyfnod Sylfaen ar Waith: Pecyn Cymorth ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (2012). Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad C. Portreadau Enghreifftiol o'r Cyfnod Sylfaen

Crëwyd y portreadau canlynol gan ddefnyddio nifer o sesiynau'r Cyfnod Sylfaen a welwyd yn ystod y gwerthusiad a gellir eu defnyddio i ddangos sut gall elfennau addysgeg y Cyfnod Sylfaen gael eu hymgorffori mewn ystafell ddosbarth. Bwriedir iddynt fod yn enghreifftiol yn hytrach nag yn rhagnodol. Mae portreadau unigol wedi'u cynnwys ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir a grwpiau blwyddyn unigol mewn ysgolion fel y gall ymarferwyr gymharu a gwrthgyferbynnu, ac i adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn datblygiad plant a chymarebau oedolyn:plant.

Mae'r enghreifftiau'n dechrau gyda disgrifiad byr o'r gweithgareddau cysylltiedig a'r amser a ddyrannwyd iddynt. Yna, mae'r portreadau'n mynd ymlaen i ddangos ymhle y gwelwyd elfennau allweddol penodol o'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu cyflawni, er enghraifft, sut oedd plant yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol. (Cymerwyd y 12 elfen addysgeg hyn o ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac fe'u defnyddiwyd i lunio rhan o'r amserlen arsylwi a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad).

Caiff amcanion y sesiwn a'r Meysydd Dysgu a oedd yn rhan o'r sesiynau eu disgrifio a darperir gwybodaeth allweddol am y gymhareb oedolyn:plant a dyletswyddau'r staff. Hefyd, mae rhywfaint o wybodaeth am fodel cyffredinol y sesiwn a pha weithgareddau a gofnodwyd yn weithgareddau parhaus, gweithgareddau gwell a gweithgareddau â ffocws. Mae'r dudalen olaf yn enghraifft o ystafell ddosbarth y Cyfnod Sylfaen (gan gynnwys ardal awyr agored), gydag allwedd i ddangos pa ardaloedd a oedd yn gysylltiedig â pha fath o weithgaredd.

Lluniwyd y wybodaeth yn benodol fel ei bod yn ymarferol ac yn gallu cael ei chymharu ar draws pob grŵp blwyddyn, gyda'r cafeat bod pob ystafell ddosbarth a lleoliad yn wahanol, a chan ddeall bod pob sefyllfa yn amrywio o ran lle, darpariaeth awyr agored, staff ac adnoddau.

**Portread o Sesiwn mewn Lleoliad Nas Cynhelir a Ariennir**

**Disgrifiad o sesiwn mewn Lleoliad Nas Cynhelir a Ariennir a welwyd yn gweithredu llawer o elfennau'r Cyfnod Sylfaen.**

- Mae'r sesiwn yn dechrau gydag amser i'r plant chwarae yn yr amrywiol barthau dysgu. Cyflwynir gweithgareddau thematig penodol mewn rhai ardaloedd, gyda darpariaeth barhaus ar gael mewn eraill (e.e. blociau adeiladu, ceir a lorïau, cornel ddarllen). — 5 munud Unigol
- Amser cylch: mae'r ymarferydd yn cyflwyno'r sesiwn gyda rhywfaint o ddatblygu'r Gymraeg wrth ddechrau cofrestru, yna mae'n parhau i gyflwyno thema'r sesiwn (Bywyd y Traeth a'r Môr) trwy adolygu'r pethau a wnaed ddoe gyda'r plant. Defnyddiodd yr ymarferydd iPads i ddangos i'r plant rai o'r fideos a wnaethant o weithgareddau ddoe, a chafwyd sesiwn holi ac ateb. — 10 munud Dosbarth Cyfan
- Roedd y plant yn gallu dewis ym mha ardal yr oeddent eisiau dechrau'r sesiwn, gan fynd trwy bob un yn ei thro. Roedd amrywiaeth o weithgareddau thematig gwell ar gael (gwisgo ar gyfer golygfa ar y traeth, teganau ar thema'r môr yn y dŵr/tywod, tynnu lluniau o lan y môr ar fyrddau gwyn, chwarae rôl siop hufen iâ) ynghyd ag ardaloedd darpariaeth barhaus (tywod (tu mewn), cornel stori, dyfrhau planhigion) a gweithgareddau â ffocws (paratoi ar gyfer amser byrbryd, paentio thema'r môr gan ddefnyddio'r bysedd yn y gornel greadigol). — 40 munud Grwpiau
- Daw'r sesiwn i ben gyda stori'n seiliedig ar y thema, lle y gall blant gysylltu beth wnaethant yn y sesiynau â chynnwys y stori. — 10 munud Dosbarth Cyfan

<u>**Elfennau'r Cyfnod Sylfaen**</u>

**Cyfranogiad:** Roedd plant yn gallu cyfeirio'u dysgu yn ddigymell, e.e. gwneud cacenni mwd i'r caffi, neu benderfynu ar weithgareddau amser byrbryd.

**Sgiliau Meddwl:** Roedd yn rhaid i blant feddwl am gwestiynau thematig i adolygu gweithgareddau ddoe. Hefyd, roedd modd i blant feddwl am gwestiynau i'w gofyn yn ystod yr amser stori ar y carped.

**Archwilio**: Ar ôl dod o hyd i bry cop, adeiladodd grŵp o blant loches ar ei gyfer. Roedd y plant yn gallu archwilio'r ardal laswelltog am gynhwysion ar gyfer eu cacenni mwd.

**Myfyrio:** Dangoswyd gweithgareddau ddoe ar yr iPad a chafwyd sesiwn holi ac ateb. Roedd plant yn gallu rhoi sgôr i'w mwynhad o weithgareddau'r diwrnod.


**Uniongyrchol:** Roedd plant wedi cymryd rhan mewn paratoi byrbrydau a


diodydd ar gyfer amser byrbryd. Roedd plant yn dyfrhau planhigion yr ardd.
**Gweithredol:** Bu'r plant yn chwarae gêm yn y glaswellt hir ger y llwyfan y tu allan, yn chwilio am fywyd gwyllt ac yn cuddio. Roedd y plant yn defnyddio beiciau a threiciau i deithio o amgylch yr ardal awyr agored.
**Ymarferol:** Gallai plant ymarfer adeiladu barbiciw a thân gwersyll y tu allan. Gallai plant ddefnyddio'u bysedd i baentio llun o lan y môr.
**Awyr Agored:** Defnyddiwyd y ffrâm ddringo y tu allan i greu'r caffi hufen iâ ar gyfer chwarae rôl. Defnyddiodd plant y gornel stori y tu allan ar gyfer chwarae rôl.
**Cam nid oedran:** Roedd amrywiaeth o wahanol ardaloedd a gweithgareddau'n cael eu cynnig, gan ddarparu ar gyfer plant ar amrywiol gamau datblygu.
**Arsylwi:** Roedd ymarferwyr ychwanegol yn arsylwi cynnydd plant yn y dasg yn ystod amser byrbryd. Defnyddiodd ymarferwyr ychwanegol nodiadau gludiog i gofnodi perfformiad plant mewn rhai tasgau a gweithgareddau.
**Parhaus/Gwell/â Ffocws:** Gwell a pharhaus yn bennaf, i adlewyrchu'r thema.
**Parthau Dysgu:** Roedd amrywiaeth o ardaloedd ar gael, dan do a'r tu allan.

**Amcanion y Sesiwn:** Datblygu sgiliau trwy chwarae ar sail thema (Bywyd y Traeth a'r Môr).
**Meysydd Dysgu a gafodd sylw:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (chwarae rôl amrywiol ar thema glan môr), Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (paratoi byrbrydau a diodydd), Datblygiad Creadigol (paentio gan ddefnyddio'u bysedd yn yr ardal greadigol), Datblygiad Corfforol (chwilio am nadroedd yn y glaswellt hir), Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (canu caneuon yn yr amser cylch, adolygu gweithgareddau ddoe trwy holi ac ateb).
**Defnydd ar staff:** (1 Arweinydd, 2 Ymarferydd Ychwanegol)
*Maint y grŵp: 4-6 o blant ar gyfer tasgau â ffocws, mwy o amrywiaeth mewn gweithgareddau gwell a pharhaus (cymhareb gyffredinol y dosbarth: 1:6).*
Roedd un ymarferydd cynorthwyol yn mynd o gwmpas yr amrywiol barthau dysgu, yn ymestyn meddwl y plant ac yn gofyn cwestiynau penagored am eu tasgau (parhaus a gwell), tra bo ymarferydd cynorthwyol arall yn arwain y plant yn y gweithgaredd paentio â'r bysedd (tasg â ffocws). Treuliodd arweinydd y sesiwn ei hamser yn helpu grwpiau o blant yn eu tro i baratoi byrbrydau a diodydd ar gyfer y caffi (math o amser byrbryd rhyngweithiol).
**Model Cyffredinol:** Roedd y plant yn gallu dewis gweithgareddau pan nad oeddent yn cael cyfarwyddyd i gymryd rhan mewn tasgau â ffocws. Roedd gweithgareddau gwell wedi'u hesbonio'n flaenorol i blant yn ystod yr amser cylch ac wedi'u cysylltu â'r thema ar gyfer y tymor. Roedd gweithgareddau parhaus ar gael hefyd i'r plant gymryd rhan ynddynt – dan do ac yn yr awyr agored.

**<u>Dadansoddiad o'r Gweithgareddau:</u>** (roedd plant yn symud i weithgareddau â ffocws yn eu tro bob rhyw 10 munud) *Parhaus:* Blociau, Lego, gwisgo, ardal adeiladu, cornel lyfrau, tywod, ardal(oedd) llwyfan; *Gwell:* Bwrdd darganfod (ar thema'r tywydd), siop hufen iâ (chwarae rôl), teganau glan môr (yn y dŵr a'r tywod); *Gweithgareddau â ffocws:* Paratoi ar gyfer amser byrbryd, paentio â'r bysedd, amser cylch.

**Enghraifft o Fap Ystafell Ddosbarth Lleoliad Nas Cynhelir a Ariennir**





## Portread o Sesiwn mewn Dosbarth Meithrin a Gynhelir

**Disgrifiad o sesiwn dosbarth Meithrin a welwyd yn gweithredu llawer o elfennau'r Cyfnod Sylfaen.**

- Deirgwaith yr wythnos, mae'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn cyfuno'u hadnoddau a'u lle i greu amgylchedd ar y cyd sy'n 'llifo', gyda chyfuniad o weithgareddau wedi'u harwain gan blant ac oedolion.
- I raddau helaeth, gadewir i blant ddewis pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt, er bod yr athro Meithrin a'r ymarferwyr ychwanegol yn ceisio sicrhau bod plant yn profi holl ystod yr opsiynau (gan gynnwys gweithgareddau â ffocws o bryd i'w gilydd).
- Mae'r plant yn profi'r ffordd hon o weithio yn aml felly maent yn gyfarwydd â'r hyn sy'n cael ei gynnig ac yn gwybod sut i ryngweithio'n effeithiol â'r amrywiol adnoddau parhaus a gwell (e.e. gwneud marciau ar fwrdd gwyn, gweithgaredd rhif 'deg selsigen dew'). Mae'r gweithgareddau a gynigir yn cael eu cylchdroi i gynnig profiadau newydd yn rheolaidd.
- Mae'r plant yn cymryd cyfrifoldeb am sawl gweithgaredd, fel dyfrhau'r planhigion, ac maent yn cymryd rhan weithgar yn y chwarae rôl cartref a siop (e.e. cyfrif arian, cyfathrebu a chydweithio). Mae hyn yn annog cydweithio â chyfoedion.
- Mae'r athro Meithrin a'r ymarferwyr ychwanegol yn treulio llawer o amser yn arsylwi ar y plant (yn ystod darpariaeth barhaus, darpariaeth well a darpariaeth â ffocws), gan hybu dysgu chwareus a datblygu sgiliau iaith, rhifedd a meddwl (e.e. trwy ryngweithiadau cynaliadwy rhwng oedolion a phlant a chyd-greu). Nid yw'r athro wedi'i gyfyngu i'r gweithgareddau â ffocws.
- Mae'r plant yn gyfarwydd â'r 'rheolau' ynghylch sawl un ohonynt all ddefnyddio pob ardal ar unrhyw adeg benodol.

50 munud Dosbarth Cyfan

**Elfennau'r Cyfnod Sylfaen**

**Cyfranogiad:** Roedd y plant yn gallu dewis pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt – dewisodd rhai plant helpu ei gilydd i gwblhau'r her rifedd. Roedd plant yn gallu penderfynu creu eu gweithgaredd eu hunain ar sail eu diddordebau (e.e. darllen stori y daeth y plentyn â hi i'r dosbarth).

**Sgiliau Meddwl:** Defnyddiodd oedolion gwestiynau penagored yn y tasgau â ffocws ac fe wnaethant annog cydweithio â chyfoedion yn yr ardal chwarae rôl rhif.

**Archwilio**: Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau parhaus a gwell yn caniatáu am arbrofi, er enghraifft, archwiliodd grŵp o blant amrywiol ffyrdd o gludo dŵr glaw a thywod y tu allan.
**Myfyrio:** Roedd oedolion yn gofyn i blant esbonio beth oeddent yn ei wneud yn rheolaidd ac yn adolygu gweithgareddau'r plant gyda nhw ar ddiwedd y sesiwn.
**Uniongyrchol:** Roedd plant yn dysgu o ryngweithio'n uniongyrchol â'r holl adnoddau, er enghraifft, trwy ymarfer ffurfio llythrennau ar fyrddau gwyn bychain a defnyddio siswrn i dorri siapiau.
**Gweithredol:** Roedd plant yn gallu symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Roedd rhai plant yn chwarae ar dreiciau y tu allan, tra bo eraill yn dyfrhau planhigion.
**Ymarferol:** Roedd llawer o weithgareddau creadigol ac ymarferol yn cael eu cynnig (e.e. gosod planhigion mewn potiau). Gallai plant ddefnyddio'r abacws i lywio'u gweithgaredd rhifedd.
**Awyr Agored:** Roedd plant yn gallu mynd y tu allan bob amser oherwydd bod cysgod yn cael ei ddarparu. Dewisodd rhai plant ddarllen llyfrau wrth y byrddau picnic.
**Cam nid oedran:** Roedd amrywiaeth o ardaloedd a gweithgareddau gwahanol yn cael eu cynnig, yn darparu ar gyfer plant ar amrywiol gamau datblygu.
**Arsylwi:** Roedd oedolion yn cadw cofnodion o arsylwadau a wnaed yn ddyddiol (yn gysylltiedig â rhaglen cadw cofnodion yr ysgol, e.e. Incerts).
**Parhaus/Gwell/â Ffocws:** Gwell a pharhaus yn bennaf.
**Parthau Dysgu:** Roedd llawer o ddewis ar gael rhwng y ddwy ystafell ddosbarth.


**Amcanion y Sesiwn:** Mae plant yn datblygu ystod eang o sgiliau, hyder a sgiliau cymdeithasol gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau parhaus, gweithgareddau gwell a gweithgareddau â ffocws.
**Meysydd Dysgu a gafodd sylw:** Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (e.e. gwneud marciau); Rhifedd (e.e. chwarae rôl siop); Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (e.e. chwarae rôl cartref).
**Defnydd ar staff:** (2 Ymarferydd (un i bob grŵp blwyddyn), 6 Ymarferydd Cynorthwyol, 1 aelod o staff yn gweithio ar sail unigol)
*Maint y grŵp: 2-4 o blant ar gyfer tasgau â ffocws, cyfyngiadau ar faint grwpiau ar gyfer ardaloedd gweithgareddau parhaus a gwell yr ystafell ddosbarth (e.e. gwisgo), gydag arwyddion wrth bob ardal yn dangos hyn. (cymhareb gyffredinol y dosbarth: 1:6)*
Mae'r athrawon a'r ymarferwyr ychwanegol yn cefnogi ardaloedd gwahanol o'r ddarpariaeth barhaus a gwell (yn eu tro), gydag un neu ddau oedolyn hefyd yn arwain gweithgareddau â ffocws tra bo eraill gyda phlant mewn amrywiol ardaloedd o'r ystafell ddosbarth. Roedd yr holl staff yn cymryd rhan mewn

cynllunio ac, felly, yn llwyr ymwybodol o nodau ac amcanion y sesiwn. Roedd un aelod staff yn hwyluso'r gweithgareddau awyr agored bob amser.

**Model Cyffredinol:** Cafodd plant ryddid llwyr yn yr amgylchedd dysgu, gyda staff yn hwyluswyr. Roedd mwyafrif y gweithgareddau'n barhaus, gyda rhai yn weithgareddau gwell ac un neu ddau yn weithgareddau â ffocws. Roedd rhwydd hynt i blant symud rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored ac roeddent yn gallu defnyddio'r adnoddau dysgu fel y dewisont.

**Dadansoddiad o'r Gweithgareddau:** (cafodd plant eu galw i gwblhau tasg â ffocws, ond fel arall, roedd rhyddid iddynt symud o un gweithgaredd i un arall yn eu hamser eu hunain) *Parhaus:* Treiciau, Chwarae rôl, Tywod, Dŵr, Gwisgo, Dyfrhau Planhigion, Teganau, Llyfrau; *Gwell:* Tynnu lluniau, Ysgrifennu, Gweithgarwch torri, Gweithgarwch rhif TGCh, Chwarae rôl gyda gêm rif; *Gweithgareddau â Ffocws:* Gwaith ffoneg, Ymarfer gan ddefnyddio'r abacws – cyfrif (deg selsigen dew).

Enghraifft o Fap Ystafell Ddosbarth Feithrin



## Portread o Sesiwn Dosbarth Derbyn

**Disgrifiad o sesiwn dosbarth Derbyn a welwyd yn gweithredu llawer o elfennau'r Cyfnod Sylfaen.**

| | |
|---|---|
| • Mae'r sesiwn yn dechrau gyda thrafodaeth dosbarth cyfan ar thema'r ystafell ddosbarth: y gwanwyn (arsylwyd ym mis Mawrth). Mae'r athro'n esbonio sut y byddai grŵp yn mynd allan i chwilio am arwyddion o'r gwanwyn yn un o weithgareddau'r sesiwn. Yna, ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, mae'n mynd ymlaen i roi cyflwyniad i'r plant ar yr anifeiliaid sy'n cael eu geni yn y gwanwyn a pha flodau sy'n blodeuo. Mae'r plant a'r ymarferydd yn trafod beth y gallent ei ddarganfod y tu allan (cyflwynir geiriau Cymraeg). | 10 munud Dosbarth Cyfan |
| • Yna, rhennir y plant yn grwpiau gweithgarwch (sy'n cymryd eu tro drwy gydol y sesiwn). Mae oedolion yn canolbwyntio ar ddarparu amrywiaeth o weithgareddau â ffocws (asesu darllen unigol, gêm ffoneg, llyfrau mathemateg), a gall gweddill y plant ddewis o blith y ddarpariaeth barhaus a gwell (amlygir 'heriau' penodol ym mhob maes dysgu).<br>• Mae ymarferydd cynorthwyol arall yn mynd â grŵp allan, pob disgybl â chlipfwrdd. Mae'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar natur (taflenni ticio ar gyfer adnabod agweddau penodol ar y gwanwyn) ond oherwydd yr holl le sydd ar gael, mae plant yn gallu archwilio a bod yn weithgar – nhw sy'n dewis ble i edrych a gallant fod yn greadigol o ran sut maent yn adnabod arwyddion o'r gwanwyn. | 40 munud Grŵp |
| • Daw'r sesiwn i ben gyda'r dosbarth cyfan yn cymryd rhan mewn sesiwn datblygu'r Gymraeg – defnyddir caneuon a rhigymau i ymarfer yr wyddor a datblygu geirfa ar rannau'r corff. | 10 munud Dosbarth Cyfan |

**<u>Elfennau'r Cyfnod Sylfaen</u>**

**Cyfranogiad:** Gallai plant gyfeirio'u dysgu mewn amrywiaeth o barthau dysgu, ynghyd â heriau gwell mewn amrywiol rannau o'r ystafell ddosbarth, e.e. dilyn her creu nyth yn yr ardal greadigol.

**Sgiliau Meddwl:** Cafodd plant eu hannog i drafod arwyddion o'r gwanwyn drwy gydol y sesiwn. Defnyddiwyd sgiliau meddwl wrth ddeall a thrafod cysyniadau mathemategol gyda'r ymarferydd.

**Archwilio**: Gallai plant archwilio'r gwahanol ardaloedd awyr agored am arwyddion o'r gwanwyn. Gallai plant archwilio sut mae gwahanol wrthrychau'n arnofio/suddo yn y dŵr.


**Myfyrio:** Myfyriodd plant ar eu gwybodaeth am gysyniadau mathemategol cyn y gweithgaredd â ffocws. Ar ôl cwblhau her, roedd yn rhaid i blant asesu eu perfformiad eu hunain yn y dasg gan ddefnyddio taflen ticio blychau.
**Uniongyrchol:** Roedd nyth aderyn ar gael i'r plant fwrw golwg arno. Roedd y plant yn gallu darganfod a chyffwrdd â blagur ar goed, a thynnu lluniau ohonynt, fel tystiolaeth o'r gwanwyn.
**Gweithredol:** Roedd plant yn gallu defnyddio'r ardal awyr agored a symud o un gweithgaredd i un arall. Roedd y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn annog plant i sefyll i dynnu lluniau.
**Ymarferol:** Gallai'r plant greu cerbydau fferm gan ddefnyddio blociau yn y ddarpariaeth well. Wrth ymarfer geiriau Cymraeg, bu'n rhaid i blant ddynwared geiriau amrywiol trwy symudiadau yn yr amser cylch.
**Awyr Agored:** Defnyddiodd plant yr ardal awyr agored i chwilio am arwyddion penodol o'r gwanwyn - casglu amrywiol bytiau o natur. Gallai grwpiau baentio ar yr îsls y tu allan yn eu tro.
**Cam nid oedran:** Asesodd plant eu cynnydd unigol eu hunain mewn tasgau her gan ddefnyddio taflen ticio blychau.
**Arsylwi:** Roedd ymarferwyr yn arsylwi ar sgiliau plant mewn tasgau darllen a rhifedd â ffocws. Bu ymarferwyr ychwanegol yn arsylwi ar berfformiad plant yn yr heriau a osodwyd.
**Parhaus/Gwell/â Ffocws:** Cydbwysedd da o'r tri.
**Parthau Dysgu:** Defnyddiwyd yr holl barthau dysgu a oedd ar gael a chafodd grwpiau wneud gweithgareddau yn eu tro yn aml.

**<u>Amcanion y Sesiwn:</u>** Datblygu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas a'u hannog i ymddiddori ym myd natur fel rhan o'u thema gyfredol.
**<u>Meysydd Dysgu a gafodd sylw:</u>** Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (asesu darllen, gemau ffoneg, ymarfer geiriau Cymraeg); Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (arwyddion o'r gwanwyn), Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (chwarae rôl a chydweithio rhwng cyfoedion); Datblygiad Creadigol (creu nythod adar a cherbydau fferm o ddeunyddiau amrywiol); Datblygiad Mathemategol (gweithgaredd mathemateg â ffocws).
**<u>Defnydd ar staff:</u>** (1 Ymarferydd, 3 Ymarferydd Ychwanegol)
*Maint y grŵp: Uchafswm o 6 ym mhob grŵp gydag oedolyn, gweddill y dosbarth yn rhydd i ddewis darpariaeth well/barhaus. Roedd y grwpiau hyn yn symud ymlaen yn rheolaidd bob 10 munud (cymhareb gyffredinol y dosbarth: 1:8).*
Roedd yr athro a'r ymarferwyr ychwanegol oll yn gyfrifol am grŵp o blant, y rhoddwyd gweithgareddau â ffocws (ac, weithiau, gweithgareddau gwell) iddynt. Weithiau, roedd ymarferwyr cynorthwyol yn symud o gwmpas y gwahanol feysydd dysgu, yn annog plant i feddwl a bod yn greadigol yn eu penderfyniadau mewn darpariaeth barhaus a gwell, ond roedd rhyddid i blant ddewis ac roeddent yn cymryd rhan yn y tasgau hyn yn annibynnol.

**Model Cyffredinol:** Roedd plant yn gallu dewis gweithgareddau pan na chawsant gyfarwyddyd i gymryd rhan mewn tasgau â ffocws. Roedd gweithgareddau gwell yn rhan o thema gyfredol a gallai plant ddilyn y cyfarwyddiadau ar y 'cardiau her' ym mhob ardal. Roedd gweithgareddau parhaus hefyd ar gael i blant gymryd rhan ynddynt – dan do ac yn yr awyr agored.

**Dadansoddiad o'r Gweithgareddau:** (roedd plant yn symud ymlaen yn eu tro i weithgareddau â ffocws bob rhyw 10 munud) *Parhaus:* Tywod, Dŵr, Ardal chwarae awyr agored, Cornel ddarllen, Jig-so, TGCh, Tynnu lluniau, Blociau adeiladu, Clai; *Gwell:* Fferm, Bwrdd gwyn rhyngweithiol, 'Numicon', Tynnu lluniau creaduriaid sydd i'w gweld yn y gwanwyn, Creu nyth; *Gweithgareddau â ffocws:* Mathemateg mewn llyfrau gwaith, Chwilio am arwyddion o'r gwanwyn, Gêm ffoneg (ac ymarfer yr wyddor a geirfa yn ystod amser cylch)

Enghraifft o Fap Ystafell Ddosbarth Derbyn



## Portread o Sesiwn Blwyddyn 1

**Disgrifiad o sesiwn dosbarth Blwyddyn 1 a welwyd yn gweithredu llawer o elfennau'r Cyfnod Sylfaen.**

- Dechreuodd y sesiwn gyda 'darllen distaw', pan fyddai pob plentyn yn darllen llyfr yn ddistaw a byddai rhai plant yn cael eu galw at aelodau staff ar gyfer asesiadau darllen unigol (gyda'r athro) neu grŵp (gyda'r ymarferydd cynorthwyol). Yna, casglwyd y plant ynghyd ar gyfer sesiwn gyflym ar 'fathemateg pen', lle'r oedd y dosbarth cyfan yn ymarfer cyfrif mewn degau a lle'r oedd y plant yn cael cwestiynau i'w hateb yn unigol hefyd. — 15 munud Dosbarth Cyfan
- Yna, esboniodd yr athro pa weithgareddau a oedd ar gael ar gyfer gweddill y sesiwn: byddai'r plant a oedd heb orffen tasg llythrennedd â ffocws yn ystod sesiwn y bore yn ei chwblhau gyda'r athro, byddai'r ymarferydd cynorthwyol yn plannu hadau gyda grŵp arall, ac roedd amrywiaeth o weithgareddau parhaus a gwell ar gael i weddill y disgyblion – dan do ac yn yr awyr agored. — 40 munud Grwpiau ac Unigol

**<u>Elfennau'r Cyfnod Sylfaen</u>**

**Cyfranogiad:** Roedd rhyddid i blant ddewis eu maes dysgu. Roedd gwaith y plant yn ymddangos ar sawl wal ac roeddent hefyd wedi gwneud rhai o'r adnoddau ar gyfer y dosbarth (e.e. yr ardal chwarae rôl).

**Sgiliau Meddwl:** Roedd plant yn cael eu hannog i ystyried y broses o blannu hadau. Roedd yr athro yn annog y plant i ddefnyddio mathemateg pen i gyfrifo'r atebion yn y sesiynau rhifedd.

**Archwilio**: Roedd plant yn gallu chwilio'r ardd am bryfed. Roedd ardal yr ardd ar agor i blant ei harchwilio'n unigol.

**Myfyrio:** Gofynnwyd i blant yn aml am eu barn am y gweithgareddau yn yr ardaloedd gwell.

**Uniongyrchol:** Roedd plant yn gallu plannu eu hadau eu hunain a dilyn hynt y rhain. Roedd basgedi i'r plant eu haddurno yn yr ardal greadigol.

**Gweithredol:** Roedd yr ardal awyr agored yn annog plant i symud heb gyfyngiad rhwng gweithgareddau. Roedd yr ardal goetir yn golygu bod plant yn gallu bod yn weithgar yn gorfforol yn ystod y sesiwn.

**Ymarferol:** Gallai plant wneud ac addurno blodau papur fel rhan o thema'r dosbarth. Roedd îsls ar gael fel y gallai'r plant baentio yn arddull Van Gough.


**Awyr Agored:** Cynhaliwyd mwyafrif y gweithgareddau yn yr awyr agored ac roedd plant yn gallu mynd i'r ardal heb gyfyngiad. Roedd chwyddwydrau ar gael i'r plant chwilio am foch coed yn yr ardd.

**Cam nid oedran:** Disgwyliwyd deilliannau tebyg gan bob disgybl, er bod mwy

o strwythur i weithgareddau darllen a mathemateg.
**Arsylwi:** Cafodd cynnydd y plant mewn darllen a rhifedd ei arsylwi.
**Parhaus/Gwell/â ffocws:** Rhannwyd y sesiwn gyda mwy o weithgareddau â ffocws i ddechrau, ac ychwanegwyd gweithgareddau parhaus a gwell i greu gweddill y sesiwn.
**Parthau Dysgu:** Roedd amrywiaeth o barthau dysgu ar gael yn yr ystafell ddosbarth, yn yr awyr agored a thu allan i'r ystafell dosbarth lle y gallai plant benderfynu cymryd rhan mewn gweithgareddau.

**Amcanion y Sesiwn:** Datblygu dealltwriaeth plant o'r byd a sut mae pethau'n tyfu, ymarfer sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol ac annog plant i ddewis a datblygu sgiliau creadigol ar sail thema.
**Meysydd Dysgu a gafodd sylw:** Datblygiad Creadigol (paentio, creu yn y dŵr a'r tywod, a gwneud blodau/addurno basgedi); Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (cydweithio rhwng cyfoedion); Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (gwybodaeth am natur a sut mae planhigion yn tyfu); Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (cyfnodau sydyn o lythrennedd a rhifedd i ddechrau, ysgrifennu llythyr o ddiolch).
**Defnydd ar staff:** (1 Ymarferydd, 1 Ymarferydd Ychwanegol, 1 aelod staff yn gweithio un i un ac 1 gwirfoddolwr)
*Maint y grŵp: Uchafswm o 3 ym mhob grŵp gydag oedolyn, rhyddid i weddill y dosbarth ddewis darpariaeth barhaus/well (cymhareb gyffredinol y dosbarth oedd 1:15, ond roedd yn 1:8 o gynnwys yr oedolion ychwanegol).*
Roedd yr athro'n canolbwyntio ar weithgaredd â ffocws, gydag un ymarferydd cynorthwyol yn symud rhwng gweithgareddau parhaus ac un ymarferydd cynorthwyol yn gweithio gyda grŵp yn plannu hadau.
**Model Cyffredinol:** Roedd llawer o weithgareddau gwahanol yn mynd yn eu blaenau, ond roedd pob un ohonynt fel petaent ar wahân – cynhaliwyd y gweithgaredd â ffocws y tu mewn, gyda mwyafrif y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau parhaus a gwell yn yr awyr agored. Roedd rhyddid i blant ddewis a symud o un gweithgaredd i'r llall a byddai staff yn symud eu grwpiau ymlaen yn eu tro yn y sesiwn. Roedd yr athro'n defnyddio'r ardal awyr agored fel estyniad i'r ystafell ddosbarth ac roedd y plant fel petaent yn llifo i mewn ac allan heb gyfyngiad ac yn hwylus. Aeth rhai plant ati i archwilio ardal yr ardd am bryfed, er enghraifft.
**Dadansoddiad o'r Gweithgareddau:** (rhywfaint o gylchdroi ar gyfer tasgau â ffocws, fel arall, roedd rhyddid i blant symud o un gweithgaredd i'r llall ar unrhyw adeg) *Parhaus:* Darllen yn unigol, Dŵr, Ceir, Gardd, Tywod, Blociau, Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol, Tynnu lluniau; *Gwell:* Bwrdd thematig (anifeiliaid y sŵ), Gwneud blodau o bapur sidan, Addurno basgedi, Paentio yn arddull Van Gough, Bwrdd darganfod (offer yr ardd); Chwarae rôl canolfan arddio; *Gweithgareddau â ffocws:* Plannu hadau, Asesiad darllen gyda'r ymarferydd, Ymarfer rhifedd (cyfrif), Ysgrifennu llythyron o ddiolch.

**Enghraifft o Fap Ystafell Ddosbarth Blwyddyn 1**



## Portread o Sesiwn Blwyddyn 2

**Disgrifiad o sesiwn dosbarth Blwyddyn 2 a welwyd yn gweithredu llawer o elfennau'r Cyfnod Sylfaen.**

- Mae'r plant yn cyrraedd y dosbarth ac yn darganfod pedwar blwch mawr wedi'u gosod ar fyrddau unigol. Mae 'tâp rhybudd' wedi'i lapio o amgylch pob blwch ac mae'r bwrdd gwyn rhyngweithiol wedi'i ddefnyddio i greu arwydd 'perygl' sy'n fflachio ac i ganu larwm.
- Mae'r athrawes a'r ymarferydd ychwanegol yn gwrthod ateb unrhyw gwestiynau am bum munud, ac felly'n creu rhywfaint o gyffro ac yn annog y plant i ystyried drostynt eu hunain beth allai fod yn digwydd.
- Yna, mae'r athrawes yn esbonio bod rhywun, mae'n siŵr, wedi rhoi'r blychau hyn yn yr ystafell ddosbarth tra oedd hi'n yfed ei te yn ystod yr egwyl. Mae'r athrawes yn honni nad yw hi'n gwybod beth sydd yn y blychau na pham maen nhw yno. Mae hi'n gofyn i'r plant drafod hyn, symud o gwmpas y dosbarth yn edrych ar y blychau gwahanol, meddwl beth allai fod yn y blychau ac ysgrifennu rhai syniadau ar nodiadau gludiog. Yna, gofynnir i'r plant roi eu nodiadau gludiog ar y bwrdd gwyn. (Mae'r ymarferydd ychwanegol yn rhoi cymorth cyffredinol i wahanol grwpiau o blant.)

30 Munud Dosbarth Cyfan

- Yna, mae'r athrawes yn rhannu rhai o'r gwahanol syniadau a ysgrifennwyd ar y nodiadau gludiog gyda'r dosbarth ac yn annog trafodaeth bellach.
- Mae'r ymarferydd ychwanegol yn agor un blwch ar y tro i ddangos y cynnwys i'r plant.
- Yna, mae'r athrawes yn gofyn i rai o'r plant barhau â gwaith a ddechreuwyd eisoes: dysgu am wahanol blanhigion, tra bo eraill yn dechrau meddwl am eu stori ynghylch y lleoliadau trosedd.
- Dan oruchwyliaeth yr ymarferydd ychwanegol a'r athrawes, mae rhai plant yn mynd allan i ddod o hyd i wahanol blanhigion, ac yna'n tynnu lluniau ohonynt ac ysgrifennu amdanynt.

20 Munud Dosbarth Cyfan

### <u>Elfennau'r Cyfnod Sylfaen</u>

**Cyfranogiad:** Gallai'r plant gyfeirio'u meddwl a'u hysgrifennu ynghylch y lleoliadau trosedd. Gallai'r plant ddewis pa blanhigion i'w hastudio y tu allan a chymryd rhan yn yr arbrawf lliwio.

**Sgiliau Meddwl:** Cafodd plant eu hannog i drafod syniadau ymhlith cyfoedion ac oedolion. Roedd 'galw' wrth adnabod geiriau'n gofyn i blant feddwl am

strategaethau a geiriau blaenorol.
**Archwilio**: Gallai plant archwilio blychau'r lleoliadau trosedd. Gallai plant archwilio'r awyr agored i ddod o hyd i blanhigion amrywiol i'w hastudio.
**Myfyrio:** Roedd oedolion yn annog plant yn rheolaidd i fyfyrio ar yr hyn yr oeddent yn ei wneud. Roedd adolygiad grŵp o weithgaredd y lleoliadau trosedd yn cael ei annog ar ddiwedd y sesiwn.
**Uniongyrchol:** Roedd plant yn gallu torri lluniau allan ar gyfer y gludwaith ar gylch tyfu planhigion. Roedd plant yn gallu cwblhau gweithgaredd y bwrdd gwyn rhyngweithiol.
**Gweithredol:** Roedd plant yn gallu symud o amgylch yr ystafell ddosbarth yn edrych ym mhob blwch ac yn gallu bod yn weithgar yn yr awyr agored.
**Ymarferol:** Roedd y plant yn gallu mesur y tu allan gan ddefnyddio Lego. Roedd plant yn gallu tynnu lluniau yn yr ardal darpariaeth barhaus.
**Awyr Agored:** Anogwyd y plant i dynnu lluniau/ysgrifennu am eu planhigyn eu hunain y tu allan.
**Cam nid oedran:** Roedd rhwydd hynt i blant ysgrifennu ar eu lefel eu hunain. Roedd plant yn gallu dewis llyfr darllen priodol iddynt eu hunain.
**Arsylwi:** Pan oedd y plant yn archwilio'r blychau, roedd yr ymarferwyr yn arsylwi ar gydweithio a chwestiynau'r plant. Treuliodd y ddau oedolyn amser yn gwylio'r plant yn gweithio yn ail ran y sesiwn.
**Parhaus/Gwell/â ffocws:** Gweithgareddau â ffocws a gweithgareddau gwell yn bennaf, gyda rhai gweithgareddau parhaus.
**Parthau Dysgu:** Dim ond rhai parthau dysgu a ddefnyddiwyd oherwydd y ffocws ar leoliadau trosedd ar ddechrau'r sesiwn.

**<u>Amcanion y Sesiwn:</u>** Annog brwdfrydedd tuag at ysgrifennu, a'i ymarfer, trwy ddarparu gweithgaredd ysgogol. Datblygu dealltwriaeth o wahanol blanhigion.
**<u>Meysydd Dysgu a gafodd sylw:</u>** Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ysgrifennu am weithgaredd y blychau a phlanhigion); Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (gweithgaredd y planhigion), Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (cydweithio rhwng cyfoedion a hyder).
**<u>Defnydd ar staff:</u>** (1 Ymarferydd, 2 Ymarferydd Ychwanegol)
*Maint y grŵp: Uchafswm o 4 ym mhob grŵp, cafodd pob grŵp weithgaredd (cymhareb y dosbarth 1:10)*
Bu'r athrawes a'r ymarferydd ychwanegol yn gweithio gyda'i gilydd ar bob gweithgaredd i sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth a sicrhau bod rhyngweithio rheolaidd rhwng oedolion a phlant, ac arsylwi. Mae'r ymarferydd ychwanegol hefyd yn cymryd rhan mewn cynllunio, felly mae'n llwyr ymwybodol o nodau ac amcanion y sesiwn.
**<u>Model Cyffredinol:</u>** Roedd yr holl blant yn rhan o'r drafodaeth ar ddechrau'r sesiwn, a oedd yn sylfaen ar gyfer rhai tasgau â ffocws yn ail ran y sesiwn. Rhannwyd y plant mewn grwpiau ac ni wnaethant newid eu gweithgareddau am weddill y sesiwn. Rhoddwyd tasg i bob grŵp, gyda rhai grwpiau'n

gweithio'n annibynnol ac eraill yn cael eu goruchwylio gan ymarferwyr a oedd yn symud rhwng tasgau â ffocws a thasgau gwell. Os oedd unigolion wedi gorffen eu gweithgaredd, roeddent yn gallu cymryd rhan mewn rhywfaint o ddarpariaeth barhaus.

**Dadansoddiad o'r Gweithgareddau:** (roedd plant mewn grwpiau penodol ar gyfer y sesiwn gyfan – trafodaeth ar y blychau gyda phawb i ddechrau, yna'u rhannu'n grwpiau) *Parhaus:* Lliwio, Cornel ddarllen, Chwarae rôl (cartref a gorsaf heddlu); *Gwell:* Trafodaeth am beth allai fod yn y blychau, Plannu hadau, Gludwaith ar gylch tyfu planhigion, Mesur gyda Lego, Gweithgarwch bwrdd gwyn rhyngweithiol; *Gweithgareddau â ffocws:* Arbrawf lliwio planhigion mewn dŵr, Ysgrifennu brawddegau, 'Galw' wrth adnabod geiriau.

Enghraifft o Fap Ystafell Ddosbarth Blwyddyn 2

